# Adrodd ar y gwledydd a materion datganoledig ar newyddion rhwydwaith:

## Dadansoddiad o ddarpariaeth teledu ac ar-lein




**Awduron**

Yr Athro Stephen Cushion a’r Dr Richard Thomas

**Tîm Ymchwil**

Andy Nelmes, Sophie Timmermann, Marta Viganò, Katie Toms, Llion Carbis, John Tasker a Claire Thurlow



**Cyhoeddwyd 23 Chwefror 2022**


Cardiff University Prifysgol Caerdydd

Swansea University Prifysgol Abertawe

# Cynnwys

## Adran


| | |
|---|---|
| 1. Cefndir | 1 |
| 2. Crynodeb gweithredol | 4 |
| 3. Amcanion a Dull | 7 |
| 4. Adlewyrchu pedair gwlad y DU mewn newyddion rhwydwaith | 9 |
| 5. Adrodd am a labelu materion datganoledig ar newyddion rhwydwaith | 15 |
| 6. Cyfeirio at berthnasedd datganoli mewn newyddion rhwydwaith | 28 |
| 7. Cyfeirio at berthnasedd datganoli ar gyfer eitemau newyddion mewn penawdau teledu | 40 |
| 8. Astudiaethau achos cymharol ynghylch adrodd ar ddatganoli | 47 |

# Cefndir

Ers 1999, mae gan Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon gyfrifoldebau cynyddol dros amrywiaeth eang o bolisïau cymdeithasol ac economaidd, a hynny'n fwyaf nodedig ym meysydd iechyd ac addysg. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae pandemig y coronafeirws wedi dod â datganoli i'r amlwg yng ngwleidyddiaeth y DU. Yn ystod misoedd cynnar yr argyfwng iechyd, gweithredodd llywodraethau ledled y DU bolisïau i ddiogelu'r cyhoedd rhag cael a lledaenu COVID-19. Ar yr un pryd, gwnaeth Llywodraeth y DU benderfyniadau polisi economaidd pwysig, fel gweinyddu'r cynllun ffyrlo, a oedd yn weithredol ar draws y DU ac a oedd yn dylanwadu ar benderfyniadau datganoledig ynghylch y cyfnodau clo.

Cafodd goblygiadau hyn eu hamlinellu gan y Sefydliad Llywodraeth yn 2020[1]:

> *Major public services affected by the pandemic, in particular public health services and education, are the responsibility of the devolved administrations in Northern Ireland, Scotland and Wales (...) As a result, an effective response to the public health emergency requires all four Governments both to take action within their own areas of responsibility and to coordinate their actions.*

Mae darlledwyr yn wynebu heriau o ran adrodd ar faterion sydd wedi'u neilltuo i Lywodraeth y DU, ond sy'n cyd-fynd â phenderfyniadau polisi'r gweinyddiaethau datganoledig. Mae darparwyr newyddion wedi gorfod monitro sut mae'r pedair Llywodraeth yn ymateb i'r pandemig, gan graffu ar benderfyniadau a rhoi gwybod yn gywir i bobl am ba fesurau iechyd – fel gwisgo masgiau wyneb – dylen nhw fod yn eu dilyn mewn gwahanol leoliadau.

Teledu yw'r llwyfan sy'n cael ei ddefnyddio amlaf o hyd ymysg oedolion yn y DU er mwyn cael gafael ar newyddion, gyda newyddion ar-lein yn ail agos. Yn ôl Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion, mae 79% o oedolion y DU yn dweud eu bod yn defnyddio teledu ar gyfer cael newyddion a 73% yn defnyddio ffynonellau ar-lein. Mae'r ffigurau hyn yn debyg wrth edrych yn benodol ar y gwledydd datganoledig[2]. Er bod cynulleidfaoedd yn gallu cael gafael ar newyddion rhanbarthol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ar y BBC, STV, ITV ac UTV, mae allbwn newyddion rhwydwaith yn dal i gael ei wylio'n eang ledled y DU. Er enghraifft, roedd 79% o'r boblogaeth oedolion yng Nghymru wedi gwylio newyddion rhwydwaith y BBC ar ddechrau'r pandemig. Cyrhaeddodd hyn uchafbwynt o bron i 1.9m o bobl yn gwylio'r teledu mewn wythnos, cynnydd o 40% ar yr un adeg yn y flwyddyn flaenorol[3].

Yn y cyd-destun hwn, prif amcan yr astudiaeth hon oedd asesu sut roedd darparwyr newyddion rhwydwaith y DU wedi adrodd am faterion polisi datganoledig ar y teledu ac ar-lein. Roedd hyn yn cynnwys edrych ar fwletinau newyddion teledu a ddarlledwyd ledled y DU ar y BBC, ITV, Channel 4, Channel 5 a Sky News, yn ogystal â gwefannau newyddion y DU ar y BBC, ITV a Sky News dros bedair wythnos ym mis Mehefin/Gorffennaf 2021. Roedd yr astudiaeth yn dadansoddi corff mawr o allbwn newyddion yn systematig, gan asesu faint o sylw a roddwyd i Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac edrych ar ba mor dda roedd newyddion teledu rhwydwaith a newyddion ar-lein wedi egluro pa lywodraeth oedd yn gyfrifol am y penderfyniadau a wnaed ac

---

[1] Institue for Government (2020) What parts of the coronavirus response are the responsibility of the devolved administrations? https://www.instituteforGovernment.org.uk/explainers/coronavirus-and-devolution
[2] Cael gafael ar newyddion yn y DU – Ofcom (2021)
[3] https://business.senedd.wales/documents/g6386/Public%20reports%20pack%20Monday%2013-Jul-2020%2013.00%20Culture%20Welsh%20Language%20and%20Communications%20Committee.pdf?T=10

wedi egluro pa mor berthnasol oedd y polisïau i wledydd eraill y DU. Wrth wneud hynny, gwnaethom ystyried y penderfyniadau golygyddol sy'n sail i ddewis straeon newyddion rhwydwaith drwy gyfweld uwch olygyddion prif ddarlledwyr y DU. Wrth gwrs, mae gan olygyddion gyfyngiadau amser tyn yn eu bwletinau newyddion ar y teledu, sy'n golygu ei bod yn heriol ceisio adlewyrchu pob un o'r pedair gwlad yn rheolaidd a sicrhau bod penderfyniadau polisi a oedd yn cael eu gwneud gan y llywodraethu datganoledig yn cael eu cyfleu'n glir i holl gynulleidfaoedd y DU.

Tynnwyd sylw at bwysigrwydd adrodd yn gywir ar benderfyniadau datganoledig a wnaed mewn astudiaeth dyddiadur ym Mhrifysgol Caerdydd gyda chynulleidfaoedd newyddion ledled y DU a dadansoddiad cynnwys o bum bwletin newyddion rhwydweithiau teledu yn ystod misoedd cyntaf y pandemig yn 2020[4]. Canfu fod llawer o ymatebwyr yn ddryslyd ynghylch pa lywodraeth oedd â chyfrifoldeb dros y cyfnodau clo, ac nad oedd y sylw'n priodoli cyfrifoldeb gwleidyddol yn rheolaidd i bob un o'r pedair gwlad. Ar ôl i'r gwledydd ddechrau mabwysiadu gwahanol fesurau yn ystod y cyfnodau clo, fodd bynnag, roedd eglurder yr adroddiadau ar benderfyniadau deddfwriaethol wedi gwella.

Mae'r astudiaeth hon yn edrych i weld a oedd eglurder yr adroddiadau wedi parhau yn 2021 ac a oedd cynulleidfaoedd yn gallu cael gafael ar newyddion a allai eu helpu i gael gwybodaeth dda am y rheolau a oedd yn berthnasol iddyn nhw. Gan weithio mewn ysgolion cyfryngau, newyddiaduraeth a chyfathrebu sydd gyda'r gorau yn y byd, rydym yn ymwybodol iawn o'r heriau sy'n wynebu newyddiadurwyr yn y diwylliant newyddion 24 awr sy'n dod yn fwyfwy byd-eang ac aml-lwyfan[5]. Er ein bod yn parhau i fod yn sensitif i'r pwysau a'r cyfyngiadau y mae newyddiadurwyr yn gweithredu oddi tanynt, ein nod oedd cyfrannu'n adeiladol at ddadleuon sy'n helpu darlledwyr i ystyried sut gallant roi gwell sylw i wleidyddiaeth a materion cyhoeddus y DU[6]. Yn syml, roedd yr astudiaeth wedi'i chynllunio i gynnig meincnod gwrthrychol ar gyfer asesu swmp a chywirdeb newyddion rhwydwaith y DU ar y teledu ac ar-lein, yn ogystal ag edrych ar y penderfyniadau golygyddol sy'n sail i'r broses o ddethol ac adeiladu newyddion datganoledig.

Er mwyn ein helpu i wneud synnwyr o sut yr adroddodd newyddiadurwyr am faterion datganoledig ar newyddion rhwydwaith y DU, gwnaethom ddefnyddio bwrdd cynghori a oedd yn cynnwys Richard Sambrook, cyn Bennaeth BBC News, a Jess Sargeant, Uwch Ymchwilydd yn y Sefydliad Llywodraeth sydd â gwybodaeth arbenigol am ddatganoli. Fe wnaethon nhw ein helpu ni i asesu

---

[4] Ofcom (2020) https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0007/200500/cyfryngau-cenedl-2020-cymru.pdf - gweler tudalen 9.

[5] Lewis, Justin, Cushion, Stephen a Thomas, James (2005) 'Immediacy, Convenience or Engagement? An analysis of 24-hour news channels in the UK', *Journalism Studies*, 6(4): 461-477
Cushion, Stephen a Sambrook, Richard (2016) (eds.) The Future of 24-hour News: New Directions, New Challenges? Efrog Newydd: Peter Lang

[6] Cushion, Stephen (2019) *The Range and Depth of BBC News and Current Affairs: A Content Analysis.* Ofcom https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0019/174205/bbc-news-review-content-analysis-full-report.pdf
Cushion, Stephen, Lewis, Justin, a Ramsay, Gordon (2010) Four nations impartiality review follow-up: An analysis of reporting devolution. Llundain: Ymddiriedolaeth y BBC / BBC Trust
Cushion, Stephen, Lewis, Justin, Sambrook Richard (2016a) *2016 Nations Impartiality Review: A snapshot picture*. Llundain: Ymddiriedolaeth y BBC / BBC Trust
Cushion, Stephen, Lewis, Justin, Richard, Sambrook, Kilby, Allaina (2016b) *Four Nations Impartiality Review Follow-up 2015: An Analysis of Reporting Devolution*. Llundain: Ymddiriedolaeth y BBC / BBC Trust
Lewis, Justin, Cushion, Stephen, Groves, Chris, Bennett, Lucy, Reardon, Sally, Wilkins, Emma a Williams, Rebecca (2008) *Four Nations Impartiality Review: An analysis of reporting devolution*. Llundain: Ymddiriedolaeth y BBC / BBC Trust

penderfyniadau golygyddol ynghylch cymhlethdod adrodd newyddion i gynulleidfaoedd ar draws y pedair gwlad.

# Crynodeb gweithredol

## Trosolwg

Canfu'r astudiaeth dadansoddi cynnwys fod darparwyr newyddion rhwydwaith yn y DU wedi cynyddu'r sylw maent yn ei roi i faterion datganoledig o'i gymharu â chanfyddiadau blaenorol yn 2015 a 2016. Roedd hyn yn bennaf o ganlyniad i Covid-19, a ddaeth â datganoli i'r amlwg yng ngwleidyddiaeth y DU. Roedd y dadansoddiad yn dangos bod mwy o newyddion a allai fod yn berthnasol i ddatganoli – tua 40% o'r agenda newyddion – oherwydd ffocws ar reolau Covid a wnaed gan lywodraethau datganoledig Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, yn ogystal â chan Lywodraeth y DU ar gyfer Lloegr. Dangosodd cyfweliadau ag uwch olygyddion newyddion fod ystafelloedd newyddion wedi dod yn fwyfwy ymwybodol o roi gwybod am wahaniaethau polisi datganoledig mewn newyddion rhwydwaith.

Roedd yr astudiaeth yn nodi bod tua 60% o eitemau newyddion a allai fod yn berthnasol i ddatganoli a oedd yn cynnwys rhyw fath o gyfeiriad at un neu fwy o'r pedair gwlad. Roedd hyn yn golygu nad oedd tua 40% o'r eitemau yn cynnwys unrhyw gyfeiriad at berthnasedd datganoli, fel datgan os oedd polisi'n ymwneud â Lloegr yn unig. Pan roddwyd sylw i fater datganoledig, datgelodd ein dadansoddiad ychydig o eitemau a oedd yn cymharu penderfyniadau'r Llywodraeth ar draws y pedair gwlad.

Felly, yn gyffredinol, er bod yr astudiaeth wedi canfod mwy o sylw i'r sefydliadau datganoledig, roedd hefyd wedi nodi cyfleoedd a gollwyd i egluro gwahanol benderfyniadau'r llywodraethau yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

## I ba raddau mae pedair gwlad y DU yn cael eu hadlewyrchu mewn adroddiadau newyddion rhwydwaith?

- Roedd yr holl olygyddion yn cydnabod bod adrodd ar bedair gwlad y DU wedi dod yn fwy heriol o lawer ers dechrau pandemig y coronafeirws gan fod llywodraethau Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon wedi defnyddio dulliau gwahanol o ddelio â'r argyfwng iechyd.
- Eglurodd golygyddion fod eu timau newyddion yn effro iawn i gynrychioli Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon mewn straeon newyddion rhwydwaith, yn ogystal â rhoi sylw i faterion sy'n berthnasol i ranbarthau Lloegr, a'u bod yn defnyddio gwybodaeth arbenigol eu cydweithwyr yn y gwledydd hynny'n rheolaidd er mwyn sicrhau cywirdeb wrth adrodd.
- Nid oedd y mwyafrif helaeth o eitemau newyddion (72.4%) yn cynnwys gwleidyddion o San Steffan (e.e. ASau, Llywodraeth y DU ac ati) a/neu'r sefydliadau datganoledig, neu nid oeddent yn cynnwys newyddiadurwyr yn siarad yn benodol am y gwleidyddion a'r cyrff llywodraethol hyn. Fodd bynnag, pan oedd eitem newyddion yn cynnwys gwleidydd neu'n trafod stori wleidyddol, ychydig iawn o sylw a roddwyd i leisiau gwleidyddion o'r Seneddau a'r Cynulliad datganoledig neu faterion a drafodwyd yn y sefydliadau datganoledig yng Nghymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon.
- Gwnaeth y BBC y defnydd mwyaf o'i rwydwaith mwy o newyddiadurwyr ar draws y gwledydd o'i gymharu â'r darlledwyr newyddion rhwydwaith eraill drwy gynnwys mwy o newyddiadurwyr

mewn lleoliadau y tu hwnt i Loegr na bwletinau newyddion eraill, ac yn gyffredinol, roedd yn adrodd mwy o newyddion am faterion datganoledig.

## Pa mor rheolaidd mae materion datganoledig yn cael eu hadrodd a'u cyfeirio atynt ar y rhwydwaith?

- O ystyried bod Covid-19 wedi dod â datganoli i'r amlwg yng ngwleidyddiaeth y DU, gallai bron i bedair o bob deg eitem newyddion fod yn berthnasol i ddatganoli. Roedd hyn bron i bum gwaith yn fwy o sylw i ddatganoli nag a nodwyd mewn astudiaeth flaenorol yn 2016.
- Roedd tua chwech o bob deg o'r eitemau hyn yn cynnwys rhyw fath o gyfeirio at ddatganoli ynddynt. I'r gwrthwyneb, nid oedd tua 40% o'r eitemau a oedd ag ongl ddatganoledig yn cynnwys unrhyw wybodaeth ynghylch perthnasedd datganoli.
- Roedd yr holl olygyddion yn cytuno bod newyddion llawer mwy o le ac amser na darllediadau teledu i gyfeirio at bwerau datganoledig gan nad yw'n wynebu'r un cyfyngiadau â newyddion teledu. Roedd hyn yn amlwg o'r dadansoddiad cynnwys a oedd yn dangos bod newyddion ar-lein yn rhoi llawer mwy o eglurder ynghylch perthnasedd materion datganoledig na newyddion teledu.
- Roedd adroddiadau newyddion y BBC, ac yn benodol ei safle newyddion ar-lein, yn rhoi llawer mwy o eglurder ynghylch perthnasedd materion datganoledig o'i gymharu â bwletinau teledu rhwydwaith a safleoedd ar-lein eraill.

## Pa mor aml oedd perthnasedd datganoli yn cael ei nodi mewn newyddion rhwydwaith?

- Roedd ychydig o dan hanner yr eitemau a oedd yn cyfeirio at ddatganoli yn cynnwys cyfeiriadau penodol at un neu fwy o wledydd y DU. Mae hyn yn gynnydd o'i gymharu ag astudiaethau blaenorol.
- Roedd y dadansoddiad o gynnwys yn dangos, er bod darlledwyr a gwefannau yn cyfeirio'n bennaf at bwerau datganoledig naill ai yng nghyflwyniad eitem neu drwy'r pecyn cyfan, roedd oddeutu un o bob pedair eitem ond yn cyfeirio at hynny tua diwedd eitem.
- Roedd cydnabyddiaeth gyffredinol ei bod, ar adegau, yn heriol labelu'n gywir statws llawer o ysgrifenyddion gwladol a gweinidogion llywodraeth y DU o ystyried bod rhai pwerau sy'n ymwneud â materion datganoledig yn benodol i Loegr (e.e. mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg gyfrifoldeb dros ysgolion yn Lloegr yn unig). Yn gyffredinol, roedd golygyddion yn cytuno bod angen mwy o eglurder pan mae swyddogion Llywodraeth y DU yn ymddangos mewn perthynas â materion sydd wedi'u datganoli i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.
- Pan roddwyd sylw i fater datganoledig, nid oedd mwyafrif helaeth yr eitemau (89.7%) yn cynnwys naill ai ffynhonnell wleidyddol uniongyrchol neu anuniongyrchol gan unrhyw un o gyrff gwleidyddol Cymru, yr Alban na Gogledd Iwerddon.
- Roedd adroddiadau newyddion teledu'r BBC yn cynnwys llawer mwy o gyfeiriadau at bwerau datganoledig naill ai yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon na darparwyr newyddion rhwydwaith eraill, ac roedd newyddion ar-lein y BBC yn cyfeirio'n fwy penodol at berthnasedd materion datganoledig na newyddion teledu.
- Roedd sylw ar-lein – yn enwedig ar wefan y BBC – yn fwy tebygol o gynnwys lleisiau gwleidyddion o'r sefydliadau datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon na newyddion teledu.

## I ba raddau mae penawdau newyddion teledu yn cyfeirio at berthnasedd datganoli?

- Roedd yr holl olygyddion yn cydnabod yr anawsterau o gyfleu cymhlethdod datganoli o fewn amserlen gyfyngedig a'r her o lunio penawdau cryno.
- Yn gyffredinol, mae dadansoddiad pennawd newyddion teledu yn dangos bod diffyg manylder daearyddol wrth ohebu ar newyddion a allai fod yn berthnasol i ddatganoli. Roedd tua hanner y penawdau a gafodd eu dadansoddi'n cyfeirio at un neu fwy o wledydd y DU, ond roedd y rhan fwyaf o'r cyfeiriadau hyn yn cyfeirio at Loegr yn unig. Ar adegau, cyfeiriwyd at y DU yn gyffredinol pan gallant fod wedi enwi Lloegr yn benodol.
- Roedd lefel y cyfeiriadau at ddatganoli yn y penawdau newyddion teledu yn amrywio'n sylweddol rhwng darlledwyr. BBC News at Ten a Channel 4 News am 7pm oedd yn cyfleu'r eglurder mwyaf yn eu penawdau am straeon a oedd yn cyfeirio at faterion datganoli.
- Pan nad oedd pennawd yn cynnwys cyfeiriad at wlad yn y DU, roedd y stori'n tueddu i fod am Loegr, gyda chyfeiriadau cyffredinol at 'y Llywodraeth' neu 'y Prif Weinidog'. Nid oedd yr eitemau hyn yn nodi nad oedd penderfyniadau a oedd yn ymwneud â Lloegr yn berthnasol yn uniongyrchol i Gymru, yr Alban na Gogledd Iwerddon.

# Amcanion a Dull

## Amcanion

Prif nod y prosiect hwn oedd darparu asesiad meintiol o'r adroddiadau ar faterion polisi datganoledig ar y prif ddarparwyr newyddion rhwydwaith teledu (BBC, ITV, Channel 4, Channel 5 a Sky News) ac ar draws eu hallbwn ar-lein (BBC, ITV a Sky News). Roedd astudiaeth dadansoddi cynnwys yn helpu i asesu pa mor dda roedd y prif ddarparwyr newyddion rhwydwaith teledu wedi adrodd ar faterion polisi datganoledig. Ochr yn ochr â hyn, archwiliwyd penawdau a oedd yn berthnasol i ddatganoli, yn ogystal ag archwiliad manwl o dair stori benodol er mwyn ystyried yr eglurder o ran egluro cyfrifoldebau datganoledig i gynulleidfaoedd.

O ystyried y cymhlethdodau a'r heriau o ran codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o faterion polisi cyhoeddus cymhleth, cynhaliwyd cyfweliadau hefyd gyda phenaethiaid newyddion a materion cyfoes neu gydag uwch olygyddion prif ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus y DU. Wrth wneud hynny, y nod oedd deall yn well yr arferion golygyddol a'r dewis o ohebu ar newyddion ar draws y pedair gwlad, a'r heriau sy'n gysylltiedig â rhoi sylw i wleidyddiaeth y DU mewn system wleidyddol ddatganoledig.

Cynlluniwyd yr astudiaeth i fod yn gymharol ar draws llwyfannau cyfryngau (teledu ac ar-lein), yn ogystal â rhwng darparwyr newyddion. Dyma gwestiynau allweddol yr astudiaeth:

- I ba raddau mae pedair gwlad y DU yn cael eu hadrodd arnynt?
- I ba raddau y mae gwleidyddiaeth ddatganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael ei hadrodd?
- Pa faterion datganoledig yr adroddir arnynt?
- I ba raddau y mae cyfrifoldebau datganoledig yn cael sylw?
- Yn ôl uwch olygyddion prif ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus y DU, beth yw'r cymhlethdodau a'r heriau sy'n gysylltiedig ag adrodd ar faterion datganoledig mewn rhaglenni rhwydwaith?

### Y cyfnod sampl

Dyma oedd dyddiadau'r sampl ar gyfer dadansoddi'r cynnwys:

- Wythnos 1 - Dydd Llun 14 Mehefin – Dydd Gwener 18 Mehefin 2021
- Wythnos 2 - Dydd Llun 21 Mehefin – Dydd Gwener 25 Mehefin 2021
- Wythnos 3 - Dydd Llun 28 Mehefin – Dydd Gwener 2 Gorffennaf 2021
- Wythnos 4 - Dydd Llun 5 Gorffennaf – Dydd Gwener 9 Gorffennaf 2021

Roedd y sampl **teledu** yn cynnwys: BBC News at Ten, Channel 4 News at 7pm, ITV News at 10, Channel 5 at 5pm, Sky News at 10pm.

Roedd y sampl **ar-lein** yn cynnwys: Y 7 prif eitem ar dudalennau blaen gwefannau BBC News, ITV News a Sky News, sy'n canolbwyntio ar straeon y DU bob dydd. Fe'u dadansoddwyd am 1pm o

ddydd Llun i ddydd Gwener. Roedd hyn yn cynnwys: https://www.bbc.co.uk/news/uk, https://www.itv.com/news a https://news.sky.com/uk.[7]

Yr uned ddadansoddi (e.e. pan fydd stori'n dechrau ac yn gorffen) oedd pob *eitem newyddion* yn hytrach na phob stori newyddion. Mae *eitemau newyddion* yn cyfeirio at gonfensiynau penodol (e.e. cyflwynydd yn unig, pecyn gohebydd, llif fyw ddwy ffordd ac ati) yn hytrach na *straeon* (terfysgaeth, iechyd, Brexit, addysg ac ati) mewn rhaglen newyddion darlledu gonfensiynol. Roedd hyn yn golygu bod yr astudiaeth yn gallu dadansoddi straeon penodol yn fanwl a dehongli pa ffynonellau a ddefnyddiwyd i lywio'r ffordd roedd y straeon yn cael eu hadrodd.

Yn ystod yr astudiaeth bedair wythnos, edrychwyd ar gyfanswm o 1751 o eitemau newyddion. Roedd 1331 ohonynt yn eitemau newyddion ar y teledu a 420 ohonynt yn eitemau newyddion ar-lein (140 eitem i bob gwefan).

Roedd adroddiadau newyddion parhaus am y pandemig yn amlwg drwy gydol y cyfnod sampl, gan gynnwys rhoi sylw i gyfyngiadau COVID-19 ar draws y DU ac yn rhyngwladol, ac i raddau llai, sylw i Bencampwriaeth Pêl-droed Ewrop 2020, yn enwedig yn y cyfnodau cyn ac ar ôl gemau Lloegr.

Cynhaliwyd y cyfweliadau ag uwch olygyddion newyddion prif ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus y DU (BBC, ITV, Channel 4 a Channel 5) rhwng 2 a 25 Tachwedd 2021. Roedd hyn yn cynnwys Ben De Pear (*Golygydd Channel 4 News*), Cait Fitzsimmons (*Golygydd Channel 5 News*), Nick Phipps (*Golygydd Allbwn Sky News*), Paul Royall (*Golygydd BBC News at Six a BBC News at Ten*), a Laura Wilshaw (*Uwch Olygydd Rhaglenni ITV News at Ten*).

[7] Er bod gan Channel 4 a Channel 5 wefannau newyddion, nid ydynt yn cynhyrchu straeon rheolaidd ar-lein. Mae gwefan Channel News yn cysylltu â'r bwletinau newyddion ar y teledu. Fel arfer, mae Channel 4 yn dewis un neu ddwy o straeon fideo bob dydd sy'n cael eu cymryd o fwletinau newyddion y byddwn ni hefyd yn eu harchwilio. Gan fod Channel 4 yn cynhyrchu nifer fach o newyddion dyddiol mewn fformatau fideo, nid oeddem wedi dadansoddi'r straeon hyn oherwydd byddai'n anodd eu cymharu â gwefannau darparwyr newyddion eraill.

# Adlewyrchu pedair gwlad y DU mewn newyddion rhwydwaith

### Crynodeb o brif ganfyddiadau'r bennod:

Roedd yr holl olygyddion yn cydnabod bod adrodd ar bedair gwlad y DU wedi dod yn fwy heriol o lawer ers dechrau pandemig y coronafeirws gan fod llywodraethau yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon wedi defnyddio dulliau gwahanol o ddelio â'r argyfwng iechyd.

Eglurodd golygyddion fod eu timau newyddion yn effro iawn i gynrychioli Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon mewn straeon newyddion rhwydwaith, yn ogystal â rhoi sylw i faterion sy'n berthnasol i ranbarthau Lloegr, a'u bod yn defnyddio gwybodaeth arbenigol eu cydweithwyr yn y gwledydd hynny'n rheolaidd er mwyn sicrhau cywirdeb wrth adrodd.

Roedd y dadansoddiad o'r cynnwys yn dangos nad oedd y mwyafrif helaeth o eitemau newyddion (72.4%) yn cynnwys gwleidyddion o San Steffan (e.e. ASau, Llywodraeth y DU ac ati) a/neu'r sefydliadau datganoledig, neu nid oeddent yn cynnwys newyddiadurwyr yn siarad yn benodol am y gwleidyddion a'r cyrff llywodraethol hyn. Fodd bynnag, pan oedd eitem newyddion yn cynnwys gwleidydd neu'n trafod stori wleidyddol, ychydig iawn o sylw a roddwyd i leisiau gwleidyddion o'r Seneddau a'r Cynulliad datganoledig neu faterion a drafodwyd yn y sefydliadau datganoledig yng Nghymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon.

Roedd gohebwyr y rhwydwaith wedi'u lleoli'n bennaf yn Lloegr, ac roedd bron i naw o bob deg eitem mewn lleoliad amlwg.

Gwnaeth y BBC y defnydd mwyaf o'i rwydwaith mwy o newyddiadurwyr ar draws y gwledydd o'i gymharu â'r darlledwyr newyddion eraill drwy gynnwys mwy o newyddiadurwyr mewn lleoliadau y tu hwnt i Loegr na bwletinau newyddion eraill, ac yn gyffredinol, roedd yn adrodd mwy o newyddion am faterion datganoledig.

Fodd bynnag, mae'r dewis golygyddol o newyddion a'r defnydd o ohebwyr ar draws y gwledydd a'r rhanbarthau nid yn unig yn cael ei bennu gan adnoddau pob darlledwr, mae hefyd yn cael ei siapio gan eu gwerthoedd newyddion, eu hymddygiad arddulliadol a'u harferion, yn ogystal â demograffeg eu cynulleidfa.

Gan fod polisïau yn ymwneud â Covid yn amrywio ar draws gwledydd y DU, gwelwyd bod mwy o ymwybyddiaeth o ddatganoli ymysg y cyhoedd hefyd.

Er enghraifft, dywedodd Nick Phipps, Golygydd Allbwn Sky News:

> *...mae amlygrwydd y gweinyddiaethau datganoledig o safbwynt ehangach y DU wedi dod yn llawer mwy amlwg...mae pobl fel Mark Drakeford wedi dod yn ffigyrau cenedlaethol yn y DU yn ystod y pandemig mewn ffordd nad oedden nhw cyn i'r pandemig ddigwydd.*

Roedd Paul Royall, Golygydd BBC News at Six a Ten, yn credu bod cynulleidfaoedd wedi dod yn fwy cyfarwydd â datganoli ers dechrau'r pandemig ac roeddent eisiau gweld mwy o sylw yn cael ei roi i bob cwr o wledydd y DU, gan gynnwys angori'r rhaglen yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon:

*...Rwy'n meddwl ei bod yn debyg bod cynulleidfaoedd wedi dod i adnabod y sefydliadau [datganoledig], yr arweinwyr, y cymeriadau a'r gwahaniaethau. Felly, wrth symud ymlaen, mae'n debyg y bydd mwy o oddefgarwch hefyd o ran adlewyrchu'r gwahaniaethau hynny. Fel rhan o'n cyfraniad at ddull gweithredu'r BBC ledled y DU... rydyn ni'n mynd i wneud BBC News at Six a BBC News at Ten o bob un o'r gwledydd...*

Dywedodd yr holl olygyddion hefyd pa mor bwysig oedd hi i ddarlledwyr adlewyrchu'r DU gyfan yn eu dewis golygyddol o newyddion min nos. Eglurodd y golygyddion bod eu timau yn ymwybodol iawn o gynrychioli Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon mewn rhaglenni rhwydwaith, yn ogystal â rhanbarthau Lloegr. Ar ben hynny, roedd cydnabyddiaeth olygyddol o'r dirwedd wleidyddol ddatganoledig yn y DU ac roedd angen atgoffa ystafelloedd newyddion o hynny yn ystod y pandemig. Fel yr eglurodd Ben De Pear, Golygydd Newyddion Channel 4:

*...roedd gennym ganllawiau golygyddol cryf a oedd yn cael eu hailadrodd mewn negeseuon e-bost bob pythefnos. Wrth siarad am bandemig Covid, mae angen i ni ddeall bod gan bob gwlad, gwledydd datganoledig Prydain, wahanol gyfyngiadau a chanllawiau ar unrhyw un adeg.*

Ond dywedodd yr holl olygyddion hefyd fod eu cyfarfodydd cynllunio dyddiol yn cynnwys adborth gan eu cydweithwyr ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU ynghylch dewis straeon. Dangosodd y cyfweliadau hefyd mai gohebwyr arbenigol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ar draws gwahanol ddarlledwyr a oedd yn aml yn tynnu sylw at straeon a oedd yn dod i'r amlwg, ac yn rhoi cyngor ar gywirdeb y sylw pan oedd angen priodoli materion polisi penodol i un o bedair llywodraeth y DU.

Disgrifiodd Golygydd Allbwn Sky News y dylanwad sydd gan uwch newyddiadurwyr wrth adrodd ar straeon:

*...mae gennym ni ein gohebwyr yn yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon ers dros 20 mlynedd, ac nid ydynt byth yn swil wrth ddod ymlaen i'w gwneud yn glir pan fydd mater penodol rydyn ni'n sôn amdano yn cael effaith wahanol ar eu hardal nhw, neu fod angen i ni fod yn glir, yn gwbl glir, bod hyn yn mynd i gyfeiriad gwahanol efallai yn naratif San Steffan i'r ffordd y mae'n mynd yng Nghaerdydd neu yng Nghaeredin. Felly, er nad oes strwythur ffurfiol o'r fath, mae'r rhain yn dal i fod yn drafodaethau sy'n digwydd fesul stori.*

Mewn cyfarfodydd cynllunio dyddiol, roedd ystafelloedd newyddion fel mater o drefn yn trafod dethol straeon yn ôl arddull pob rhaglen gyda'r nos, gwerth newyddion tybiedig straeon, yr adnoddau sydd ar gael i roi sylw i wahanol rannau o'r DU yn ogystal â'r angen i adlewyrchu amrywiaeth eang o bynciau – gan gynnwys materion rhyngwladol – ar gyfer cynulleidfaoedd. Er enghraifft, gall cynulleidfaoedd mewn gwahanol rannau o Loegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon wylio rhaglenni newyddion cenedlaethol a rhanbarthol gan y BBC, ITV, STV ac UTV yn y drefn honno, ac mae Channel 4, Channel 5 a Sky News yn cynhyrchu bwletinau newyddion ledled y DU. Tynnwyd sylw at hyn gan Laura Wilshaw, Uwch Olygydd Rhaglenni ITV News at Ten:

*Yn gynharach yn y dydd, mae hanner awr o newyddion wedi'i neilltuo am chwech o'r gloch i bob gwlad a rhanbarth beth bynnag, bydd ganddynt eu newyddion eu hunain. Dydw i ddim yn teimlo bod yn rhaid i mi roi'r un faint o amser i bob un o'r pedair gwlad am chwarter cyfan y rhaglen pan allai fod un stori sy'n cynnwys pob un ohonynt, a dyna'r cyfan rydw i eisiau ei wneud o ran gwleidyddiaeth y DU ar*

*gyfer y diwrnod hwnnw. Gan nad yw'r rhaglen gyfan eisiau bod yn 25 munud o wleidyddiaeth, rydych chi eisiau rhywfaint o wleidyddiaeth, rydw i eisiau rhywfaint o straeon dynol, rydw i eisiau straeon rhyngwladol, rydw i eisiau rhywbeth neis, ysgafn 'ac yn olaf' ar gyfer diwedd y rhaglen.*

Nid oedd y mwyafrif helaeth o eitemau newyddion (72.4%) yn cynnwys gwleidyddion o San Steffan (e.e. ASau, Llywodraeth y DU ac ati) a/neu'r sefydliadau datganoledig, neu nid oeddent yn cynnwys newyddiadurwyr yn siarad yn benodol am y gwleidyddion a'r cyrff llywodraethol hyn. Fodd bynnag, pan oedd eitem newyddion yn cynnwys gwleidydd neu'n trafod stori wleidyddol, ychydig iawn o sylw a roddwyd i leisiau gwleidyddion o'r Seneddau a'r Cynulliad datganoledig neu faterion a drafodwyd yn y sefydliadau datganoledig yng Nghymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon.

Yn gymharol, roedd newyddion ar-lein a theledu'r BBC yn rhoi mwy o sylw i'r sefydliadau datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon na darlledwyr eraill neu wefannau eraill. Fodd bynnag, yn gyffredinol, cyfran ymylol o'r holl ddarpariaeth oedd hyn.

**Tabl 4.1: Cyfran yr eitemau newyddion teledu rhwydwaith ac ar-lein a oedd yn canolbwyntio ar faterion gwleidyddol am wleidyddiaeth San Steffan, gwleidyddiaeth ddatganoledig San Steffan a gwleidyddiaeth ddatganoledig (yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon), neu ddim un o'r rhain (yn ôl nifer; N mewn cromfachau)**

| | Teledu y BBC | Teledu ITV | Teledu Sky | Teledu Ch.4 | Teledu Ch.5 | Gwefan y BBC | Gwefan ITV | Gwefan Sky | Cyfans-wm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **San Steffan** | 14.2% (39) | 22.4% (54) | 23.0% (60) | 23.9% (73) | 20.9% (52) | 33.6% (47) | 27.1% (38) | 37.1% (52) | 23.7% (415) |
| **Datganoledig** | 3.3% (9) | 2.5% (6) | 1.5% (4) | 1.6% (5) | 3.6% (9) | 5.0% (7) | 0.7% (1) | 0.7% (1) | 2.4% (42) |
| **Y ddau** | 2.9% (8) | 1.7% (4) | 0.4% (1) | 2.0% (6) | / | 1.4% (2) | 2.1% (3) | 2.1% (3) | 1.5% (27) |
| **Dim o'r uchod** | 79.6% (219) | 73.4% (177) | 75.1% (196) | 72.5% (221) | 75.5% (188) | 60.0% (84) | 70.0% (98) | 60.0% (84) | 72.4% (1267) |
| **Cyfanswm** | 100.0 % (275) | 100.0 % (241) | 100.0 % (261) | 100.0 % (305) | 100.0 % (249) | 100.0 % (140) | 100.0 % (140) | 100.0 % (140) | 100.0 % (1751) |

*N = 1751 = pob eitem yn y sampl.*

Ac eithrio newyddion tramor, mae'r dadansoddiad yn dangos bod bwletinau rhwydwaith teledu'r DU yn canolbwyntio'n bennaf ar newyddion o Loegr, yn fwyaf trawiadol ar ITV News at Ten, lle dyma oedd ychydig o dan dri chwarter yr eitemau (gweler Tabl 4.2). Roedd gan ITV News Online a Sky News Online lefel debyg o sylw'n canolbwyntio ar Loegr yn benodol – dros dair o bob pedair eitem – yn hytrach nag ar Gymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon.

Tabl 4.2: Cyfran yr eitemau newyddion ar-lein a theledu rhwydwaith am un neu fwy o'r pedair gwlad (yn ôl nifer; N mewn cromfachau)

| | BBC Teledu | ITV Teledu | SKY Teledu | Ch4 Teledu | Ch.5 Teledu | Gwefan BBC | Gwefan ITV | Gwefan SKY | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Lloegr** | 57.6% (91) | 74.1% (106) | 60.9% (81) | 68.5% (113) | 64.9% (109) | 63.4% (64) | 73.4% (58) | 75.0% (72) | 66.5% (694) |
| **San Steffan** | 12.7% (20) | 8.4% (12) | 19.5% (26) | 15.2% (25) | 14.3% (24) | 8.9% (9) | 10.1% (8) | 9.4% (9) | 12.8% (132) |
| **Yr Alban** | 3.2% (5) | 5.6% (8) | 7.5% (10) | 4.2% (7) | 9.5% (16) | 6.9% (7) | / | / | 5.1% (54) |
| **Gogledd Iwerddon** | 6.3% (10) | 3.5% (5) | 2.3% (3) | 3.6% (6) | 1.2% (2) | 5.9% (6) | 1.3% (1) | 3.1% (3) | 3.5% (36) |
| **Cymru** | 2.5% (4) | 1.4% (2) | 0.8% (1) | 1.8% (3) | 3.0% (5) | 3.0% (3) | / | / | 1.7% (18) |
| **Cyfuniad o ddwy wlad neu ragor yn y DU** | 17.7% (28) | 7.0% (10) | 9.0% (12) | 6.7% (11) | 7.1% (12) | 11.9% (12) | 15.2% (12) | 15.2% (12) | 10.5% (109) |
| **Cyfanswm** | 100.0% (158) | 100.0% (143) | 100.0% (133) | 100.0% (165) | 100.0% (168) | 100.0% (101) | 100.0% (79) | 100.0% (96) | 100.0% (1043) |

*N = 1043 = nifer yr eitemau a oedd yn ymwneud ag un o'r pedair gwlad neu gyfuniad o'r gwledydd (heb gynnwys unrhyw beth a oedd yn gyffredinol ac am y DU gyfan, neu unrhyw beth a oedd yn ymwneud â rhywle y tu hwnt i'r DU)*

Roedd y newyddion yn canolbwyntio ar yr hyn a oedd yn digwydd mewn sefydliadau yn San Steffan (12.8%) yn uwch na'r newyddion naill ai am Gymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon ar draws yr holl fwletinau a safleoedd ar-lein.

O'r holl fwletinau newyddion teledu, BBC News at Ten oedd yn rhoi'r sylw mwyaf i'r tair gwlad ddatganoledig, gyda thri eitem o bob 10 – 29.7% – am naill ai Cymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon, neu gyfuniad o un neu fwy o'r pedair gwlad.

Ym mhob eitem a oed yn canolbwyntio ar wledydd y DU, roedd gan dros hanner y rhain (56.9%) ohebydd mewn lleoliad y gellir ei adnabod (gweler Tabl 4.3). Roedd gohebwyr y rhwydwaith wedi'u lleoli'n bennaf yn Lloegr (gan gynnwys San Steffan), gyda bron i naw o bob 10 – 88.5% – o'r holl eitemau â ffocws domestig. Pan oedd newyddiadurwr yn adrodd o San Steffan, roedd gan 80.5% o'r eitemau hyn rywfaint o berthnasedd i ddatganoli (e.e. roedd yn ymwneud â mater y gellid bod wedi ymchwilio iddo o safbwynt datganoledig). O'r rhain, roedd 74.2% o'r eitemau'n ymwneud â Covid. Pan adroddodd newyddiadurwr o Loegr, roedd gan 37.1% o'r eitemau rywfaint o berthnasedd i ddatganoli. Roedd llawer o eitemau am Loegr yn eitemau anwleidyddol, fel rhoi sylw i gynnydd tîm pêl-droed Lloegr ym mhencampwriaeth bêl-droed Ewrop neu stori drosedd mewn dinas neu dref yn Lloegr.  Pan adroddodd newyddiadurwr o Loegr am faterion datganoledig neu a allai fod yn ddatganoledig, roedd 61.1% o'r eitemau yn gysylltiedig â COVID. Sky News at

Ten oedd yn cynnwys y mwyafrif o newyddiadurwyr o San Steffan, gan gyfrif am 17.7% o'r holl eitemau, o'i gymharu â 16.3% ar Channel 5 News at 5, 14.9% ar Channel 4 News at 7, 9.9% ar ITV News at Ten a 8.4% ar BBC News at Ten. O'r tua un eitem o bob deg a oedd yn cael ei adrodd o'r gwledydd datganoledig, roedd gwahaniaethau rhwng darlledwyr o ran pa mor aml roeddent yn ymddangos, gyda'r Alban yn cael ei gynnwys yn y rhan fwyaf o'r holl fwletinau. Ar ITV News at Ten, nid oedd unrhyw ohebwyr o Gymru, ac nid oedd yr un o Ogledd Iwerddon ar Channel 5 News at 5.

**Tabl 4.3: Cyfran yr eitemau teledu rhwydwaith â gohebydd naill ai yn San Steffan, Lloegr, Cymru, Gogledd Iwerddon neu'r Alban (yn ôl nifer; N mewn cromfachau)**

| | BBC Teledu | ITV Teledu | SKY Teledu | Ch4 Teledu | Ch.5 Teledu | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Lloegr | 80.2% (105) | 79.3% (88) | 71.7% (81) | 73.6% (89) | 70.2% (73) | 75.2% (436) |
| San Steffan | 8.4% (11) | 9.9% (11) | 17.7% (20) | 14.9% (18) | 16.3% (17) | 13.3% (77) |
| Yr Alban | 6.1% (8) | 7.2% (8) | 8.0% (9) | 6.6% (8) | 10.6% (11) | 7.6% (44) |
| Gogledd Iwerddon | 3.8% (5) | 3.6% (4) | 1.8% (2) | 3.3% (4) | / | 2.6% (15) |
| Cymru | 1.5% (2) | / | 0.9% (1) | 1.7% (2) | 2.9% (3) | 1.4% (8) |
| Cyfanswm | 100.0% (131) | 100.0% (111) | 100.0% (113) | 100.0% (121) | 100.0% (104) | 100.0% (580) |

*N = 580 = nifer yr eitemau ar draws y sampl gyfan (nid mewn eitemau a oedd yn berthnasol i ddatganoli yn unig) lle'r oedd gohebydd wedi'i leoli yn un o'r pedair gwlad.*

Roedd cyfran yr eitemau a oedd yn cynnwys gohebwyr ar leoliad ledled y DU yn 2021 yn cyd-fynd yn fras â'n hastudiaethau blaenorol o newyddion rhwydwaith[8], gyda Lloegr a San Steffan fel canolbwynt yn bennaf (oddeutu 90% o'r holl eitemau). Fodd bynnag, roedd llai o ohebu'n gyfrannol o San Steffan ar deledu rhwydwaith, yn enwedig ar y BBC (er enghraifft, ar BBC News at Ten, roedd 21.4% o'r gohebwyr yn y DU wedi'u lleoli yn San Steffan yn ein hastudiaeth yn 2016, o'i gymharu ag 8.4% yn 2021).

Mae'n bwysig dehongli'r canfyddiadau hyn yng nghyd-destun yr adnoddau newyddiadurol sydd ar gael i wahanol ddarparwyr newyddion. Mae'n amlwg mai gan y BBC y mae'r nifer fwyaf o

[8] Lewis, Justin, Cushion, Stephen, Groves, Chris, Bennett, Lucy, Reardon, Sally, Wilkins, Emma a Williams, Rebecca (2008) *Four Nations Impartiality Review: An analysis of reporting devolution*. Llundain: Ymddiriedolaeth y BBC.
Cushion, Stephen, Lewis, Justin, a Ramsay, Gordon (2010) Four nations impartiality review follow-up: An analysis of reporting devolution. Llundain: Ymddiriedolaeth y BBC.
Cushion, Stephen, Lewis, Justin, Sambrook Richard (2016a) *2016 Nations Impartiality Review: A snapshot picture*. Llundain: Ymddiriedolaeth y BBC.
Cushion, Stephen, Lewis, Justin, Richard, Sambrook, Kilby, Allaina (2016b) *Four Nations Impartiality Review Follow-up 2015: An Analysis of Reporting Devolution*. Llundain: Ymddiriedolaeth y BBC.

adnoddau ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU, gan eu galluogi i adrodd mewn lleoliadau yn haws. Cydnabuwyd hyn gan olygydd BBC News at Ten a gytunodd "*Yn amlwg, mae gennym adnoddau da ledled y DU. Mae gennym ni olygyddion a gohebwyr ardderchog ledled y DU*". Dywedodd hefyd fod y gynrychiolaeth hon o'r DU yn cael ei monitro'n agos oherwydd bod bwletinau Newyddion y BBC yn "*mesur ein darpariaeth ein hunain o ran cyrhaeddiad daearyddol ac agweddau gwahanol ar amrywiaeth ac felly rydyn ni'n cael diweddariad rheolaidd o ble mae ein patrwm daearyddol.*"

I'r gwrthwyneb, mae Channel 5 yn gweithredu gyda chyllideb lawer llai ac mae ganddo lai o adnoddau newyddiadurol na'r prif ddarlledwyr eraill yn y DU.

Ond nid mater o adnoddau'n unig sy'n llywio penderfyniadau golygyddol am adrodd o'r gwledydd. Nododd Golygydd ITV News at Ten fod arddull y rhaglen wedi'i seilio yn y stiwdio yn bennaf, yn wahanol i BBC News at Ten, a oedd yn aml yn cynnwys sgrin ranedig gyda newyddiadurwyr o bob cwr o'r DU. Esboniodd:

> *Mae'r fformat yn wahanol i raglenni eraill, gan fod ein darnau'n tueddu i fod yn hirach, yn llawer mwy manwl, rydym yn cynnwys mwy o newyddiaduraeth ryngwladol ar News at 10, ac mae'r arddull yn golygu bod ein rhaglenni'n cael eu cyflwyno yn y stiwdio gyda'n harbenigwyr. Y syniad ar gyfer News at 10 yw cyflwyno sylwadau arbenigwyr am straeon y diwrnod oherwydd ein bod yn meddwl, erbyn deg o'r gloch nos, y bydd y rhan fwyaf o bobl wedi clywed llawer o'r newyddion yn barod, ac felly cael dadansoddiad ein golygyddion yw cartref News at 10.*

Yn yr un modd, roedd Golygydd Allbwn Sky News yn cydnabod bod ganddynt lai o rwydweithiau newyddion rhanbarthol na'r BBC ac ITV, a oedd yn golygu ei bod yn anoddach adlewyrchu'r DU gyfan o'i gymharu â darlledwyr eraill. Roedd hefyd yn cyferbynnu dull arferol BBC News at Ten o ymdrin â'r gwledydd â'r ffordd fwy hyblyg Sky News o wneud hynny:

> *…y peth pwysicaf o'm safbwynt i, yn syml, yw ei gwneud yn glir i rywun a yw'r [stori hon] yn berthnasol iddyn nhw neu beidio [yn y DU]. Yr hyn na fyddwn yn ei ddweud, ac rwy'n gweld hyn ar nosweithiau allweddol penodol, yn enwedig ar BBC News at Ten, yr hyn na fyddem yn ei ddweud yw 'heno mae'n bwysig iawn ein bod yn gwneud adroddiad munud 30 o Gaerdydd, adroddiad munud 30 o Gaeredin ac adroddiad munud 30 o Belfast' a fyddai'n egluro 'dyma beth mae hyn yn ei olygu yng Ngogledd Iwerddon a dyma beth mae hyn yn ei olygu yn yr Alban'.*

Yn y cyfamser, dywedodd Golygydd Channel 4 ei bod yn rhaid i Channel 4 "*adlewyrchu pob gwlad a rhanbarth, ac mae'n rhaid i ni gydbwyso hynny â'r ffaith bod y rhan fwyaf o'r boblogaeth yn byw yn Lloegr*". Mewn geiriau eraill, er bod golygyddion newyddion rhwydwaith yn ymwybodol o fynd i'r afael â gwahanol gynulleidfaoedd y DU, roedd cydnabyddiaeth olygyddol hefyd yn siapio'r ddarpariaeth bod y mwyafrif helaeth o wylwyr yn byw yn Lloegr, ac yna'r Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon, yn y drefn honno.

Yn gyffredinol, roedd y cyfweliadau â golygyddion yn dangos ei bod yn bwysig dehongli cydbwysedd y straeon sy'n cael sylw ar draws gwledydd y DU yn ogystal â'r newyddiadurwyr sy'n adrodd o wahanol ranbarthau yn Lloegr, ac ar draws Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, yn unol ag adnoddau darlledwr, eu gwerthoedd newyddion, eu hymddygiad arddulliadol a'u harferion a demograffeg eu cynulleidfa.

# Adrodd am a labelu materion datganoledig ar newyddion rhwydwaith

**Crynodeb o brif ganfyddiadau'r bennod:**

O ystyried bod Covid-19 wedi dod â datganoli i'r amlwg yng ngwleidyddiaeth y DU, gallai bron i bedair o bob deg eitem newyddion fod yn berthnasol i ddatganoli. Roedd hyn bron i bum gwaith yn fwy o sylw i ddatganoli nag a nodwyd mewn astudiaeth flaenorol yn 2016.

Dim ond ffracsiwn o'r sylw cyffredinol (1.4%) oedd yn newyddion yn benodol am wleidyddiaeth ddatganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Roedd llawer o'r eitemau gwleidyddol datganoledig hyn yn canolbwyntio ar wleidyddiaeth plaid yng Ngogledd Iwerddon ac arweinyddiaeth Plaid yr Unoliaethwyr Democrataidd (DUP) a oedd yn bwnc byw ar y pryd.

Roedd rhyw fath o gyfeirio at ddatganoli mewn tua chwech o bob deg o'r eitemau a oedd yn berthnasol i un neu fwy o'r gwledydd yn y DU. I'r gwrthwyneb, nid oedd tua 40% o'r eitemau yn cynnwys unrhyw wybodaeth ynghylch perthnasedd datganoli.

Roedd adroddiadau newyddion y BBC, ac yn benodol ei safle newyddion ar-lein, yn rhoi llawer mwy o eglurder ynghylch perthnasedd materion datganoledig o'i gymharu â bwletinau teledu masnachol a safleoedd ar-lein.

Roedd yr holl olygyddion yn cytuno bod llawer mwy o le ac amser i gyfeirio at bwerau datganoledig mewn newyddion ar-lein nag ar y teledu. Roedd hyn yn amlwg o'r dadansoddiad cynnwys a oedd yn dangos bod newyddion ar-lein yn rhoi llawer mwy o eglurder ynghylch perthnasedd materion datganoledig na newyddion teledu.

Er bod rhai golygyddion wedi mynegi amheuon ynghylch defnyddio graffeg ar y sgrin i gyfleu perthnasedd datganoli, roedd cydnabyddiaeth gyffredinol y gallai ychwanegu rhagor o destun ar y sgrin helpu i wella dealltwriaeth y gynulleidfa o ystyried yr amser a'r lle cyfyngedig sydd ar gael mewn bwletinau teledu.

Wrth gategoreiddio prif bwnc pob eitem newyddion, mae Tabl 5.0 yn dangos, wrth eu hystyried gyda'i gilydd, fod eitemau sy'n ymwneud yn benodol â materion COVID-19, fel brechu/nifer yr achosion, yr economi neu deithio, cyfyngiadau ac addysg, yn cynrychioli traean (30.6%) yr holl eitemau dros yr astudiaeth bedair wythnos.

Ar gyfer Sky News at Ten, Channel 5 News at 5 a BBC News at Ten, roedd newyddion yn ymwneud â COVID-19 yn cynrychioli tua thraean o'r holl eitemau newyddion (33.0%, 33.3% a 31.2% yn y drefn honno) o'i gymharu ag oddeutu chwarter ar y sianeli eraill (24.3% ar Channel 4 News at 7 a 23.2% ar ITV News at Ten).

Ar gyfer newyddion ar-lein, roedd llai na hanner yr eitemau newyddion yn ymwneud â'r pandemig ar Sky News – 44.3% – o'i gymharu â 34.3% ar ITV News a 29.3% ar BBC News.

O ystyried nifer y pynciau a oedd yn ymwneud â COVID-19 yn ein sampl, gallai nifer fawr o'r eitemau hyn fod yn berthnasol i ddatganoli oherwydd eu bod yn canolbwyntio ar adrodd ar gyfyngiadau a diweddariadau parhaus ar nifer y bobl a oedd wedi'u brechu (a oedd yn cynnwys meysydd o gyfrifoldebau datganoledig).

O ystyried y ffocws ar y pandemig, nid oedd eitemau am yr hyn a oedd yn digwydd yn sefydliadau San Steffan (e.e. Tŷ'r Cyffredin, Rhif 10 Stryd Downing), nid oedd gwleidyddiaeth San Steffan yn dominyddu'r agenda newyddion i'r un graddau o'i gymharu ag astudiaethau blaenorol[9]. Yn gyffredinol yn 2021, roedd eitemau a oedd yn canolbwyntio ar San Steffan yn cynrychioli 4.9% o'r holl gyfryngau a archwiliwyd, a oedd yn weddol debyg ar draws bwletinau newyddion a safleoedd ar-lein. Yn ein hastudiaethau o newyddion teledu a radio yn 2015 a 2016 roedd 25.0% a 18.1%, yn y drefn honno, yn eitemau am San Steffan.

Dim ond ffracsiwn o'r sylw cyffredinol oedd yn newyddion am wleidyddiaeth ddatganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn benodol.

**Tabl 5.0: Canran y pynciau yr ymdrinnir â hwy mewn eitemau newyddion ar-lein a theledu rhwydwaith yn ôl categori (yn ôl nifer; N mewn cromfachau)**

| | BBC Teledu | ITV Teledu | SKY Teledu | Ch4 Teledu | Ch.5 Teledu | Gwefan y BBC | Gwefan ITV | Gwefan SKY | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| COVID – brechlyn/achosion | 14.9% (41) | 4.1% (10) | 16.1% (42) | 10.2% (31) | 12.0% (30) | 7.1% (10) | 10.7% (15) | 14.3% (21) | 11.4% (199) |
| COVID – Cyfyngiadau | 10.5% (29) | 8.7% (21) | 10.0% (26) | 7.9% (24) | 10.8% (27) | 13.6% (19) | 13.6% (19) | 15.7% (24) | 10.7% (187) |
| COVID – Economi/teithio | 4.7% (13) | 9.1% (22) | 6.1% (16) | 4.3% (13) | 8.0% (20) | 8.6% (12) | 9.3% (13) | 10.7% (15) | 7.1% (124) |
| COVID – Addysg | 1.1% (3) | 1.2% (3) | 0.8% (2) | 2.0% (6) | 2.4% (6) | / | 0.7% (1) | 1.4% (2) | 1.3% (23) |
| NEWYDDION SY'N YMWNEUD Â COVID | 31.2% (86) | 23.2% (56) | 33.0% (86) | 24.3% (74) | 33.3% (83) | 29.3% (41) | 34.3% (48) | 44.3% (62) | 30.6% (536) |
| Chwaraeon gan gynnwys Ewro 2020 | 25.8% (71) | 27.4% (66) | 13.0% (34) | 12.5% (38) | 19.3% (48) | 6.4% (9) | 15.7% (22) | 10.7% (15) | 17.3% (304) |
| Trosedd/ Barnwriaeth/ Cyfreithiol | 9.8% (27) | 8.7% (22) | 13.8% (36) | 14.4% (44) | 11.6% (29) | 22.9% (32) | 11.4% (16) | 12.1% (17) | 12.7% (222) |

[9] Cushion, Stephen, Lewis, Justin, a Ramsay, Gordon (2010) *Four nations impartiality review follow-up: An analysis of reporting devolution.* Llundain: BBC Trust Cushion, Stephen, Lewis, Justin, Sambrook Richard (2016a) *2016 Nations Impartiality Review: A snapshot picture*. Llundain: Ymddiriedolaeth y BBC / BBC Trust
Cushion, Stephen, Lewis, Justin, Richard, Sambrook, Kilby, Allaina (2016b) *Four Nations Impartiality Review Follow-up 2015: An Analysis of Reporting Devolution*. Llundain: Ymddiriedolaeth y BBC / BBC Trust

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Materion Tramor/ Masnach | 7.3% (20) | 7.1% (17) | 8.8% (23) | 11.5% (35) | 1.2% (3) | 1.4% (2) | 2.9% (4) | 2.1% (3) | 6.1% (107) |
| Gwleidyddiaeth San Steffan | 4.7% (13) | 4.1% (10) | 5.7% (15) | 4.9% (15) | 4.4% (11) | 5.7% (8) | 5.0% (7) | 4.3% (6) | 4.9% (85) |
| Arall | 4.4% (12) | 5.0% (12) | 3.1% (8) | 5.6% (17) | 3.6% (9) | 4.3% (6) | 5.7% (8) | 3.6% (5) | 4.4% (77) |
| Economi/ busnes/ swyddi/ cyllid/ defnyddwyr | 2.5% (7) | 5.8% (14) | 5.0% (13) | 2.0% (6) | 1.6% (4) | 7.1% (10) | 3.6% (5) | 2.9% (4) | 3.6% (63) |
| GIG/Iechyd (ddim yn ymwneud â COVID) | 2.2% (6) | 1.2% (3) | 3.8% (10) | 2.6% (8) | 5.2% (13) | 4.3% (6) | 5.0% (7) | 6.4% (9) | 3.5% (62) |
| Yr Amgylchedd/ Ynni | 1.5% (4) | 2.5% (6) | 2.3% (6) | 9.5% (29) | 1.2% (3) | / | 1.4% (2) | 0.7% (1) | 2.9% (51) |
| Enwogion/ Adloniant | 0.7% (2) | 2.1% (5) | 1.5% (4) | 2.0% (6) | 2.8% (7) | 2.1% (3) | 5.7% (8) | 3.6% (5) | 2.3% (40) |
| Damweiniau/ Trasiedi | 0.7% (2) | 1.7% (4) | 3.1% (8) | 2.3% (7) | 1.6% (4) | 1.4% (2) | 2.9% (4) | 2.1% (3) | 1.9% (34) |
| Y Teulu Brenhinol | 1.5% (4) | 2.5% (6) | 2.3% (6) | 0.3% (1) | 3.2% (8) | 2.1% (3) | 2.1% (3) | 2.1% (3) | 1.9% (34) |
| DU/Terfysgaeth | 1.8% (5) | 1.2% (3) | 2.3% (6) | 2.3% (7) | 1.6% (4) | 2.1% (3) | 1.4% (2) | 2.1% (3) | 1.9% (33) |
| Gwleidyddiaeth ddatganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon | 2.2% (6) | 2.5% (6) | 0.8% (2) | 1.3% (4) | 0.4% (1) | 2.9% (4) | / | 1.4% (2) | 1.4% (25) |
| Tai | 0.7% (2) | 2.5% (6) | / | 1.6% (5) | 0.8% (2) | 0.7% (1) | 0.7% (1) | 0.7% (1) | 1.0% (19) |
| Lles/ cymdeithasol | 0.7% (2) | 0.8% (2) | 0.4% (1) | 1.0% (3) | 1.6% (4) | 1.4% (2) | / | / | 0.8% (14) |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| / budd-daliadau | | | | | | | | | |
| Buddiannau Dynol | 0.4% (1) | 0.4% (1) | / | / | 2.4% (6) | 1.4% (2) | 0.7% (1) | 0.7% (1) | 0.7% (12) |
| Addysg (ddim yn ymwneud â COVID) | 0.7% (2) | 0.4% (1) | 0.4% (1) | 0.3% (1) | 0.8% (2) | 1.4% (2) | / | 1.4% (2) | 0.6% (11) |
| Brexit/UE | 0.4% (1) | 0.4% (1) | 0.4% (1) | 0.7% (2) | 1.2% (3) | 0.7% (1) | 0.7% (1) | / | 0.6% (10) |
| Trafnidiaeth/ Teithio (ddim yn ymwneud â COVID) | / | 0.4% (1) | 0.4% (1) | 0.3% (1) | 1.6% (4) | 0.7% (1) | / | 0.7% (1) | 0.5% (9) |
| Materion Cymdeithasol / Hawliau Dynol | 0.7% (2) | / | / | 0.7% (2) | 0.4% (1) | 1.4% (2) | 0.7% (1) | / | 0.5% (8) |
| CYFANSWM | 100.0% (275) | 100.0% (241) | 100.0% (261) | 100.0% (305) | 100.0% (249) | 100.0% (140) | 100.0% (140) | 100.0% (140) | 100.0% (1751) |

Roedd llawer o'r eitemau gwleidyddol datganoledig yn canolbwyntio ar wleidyddiaeth plaid yng Ngogledd Iwerddon ac arweinyddiaeth Plaid yr Unoliaethwyr Democrataidd (DUP) a oedd yn bwnc byw ar y pryd.

Yn gyffredinol, roedd y BBC yn rhoi mwy o sylw i faterion gwleidyddol datganoledig na'r darlledwyr eraill (roedd yn cyfrif am 2.2% o'r eitemau ar newyddion teledu a 2.9% o'r holl eitemau ar-lein).

O'r 1,751 o eitemau a archwiliwyd, nodwyd 678 o eitemau (38.7%) a oedd yn uniongyrchol berthnasol neu a allai fod yn berthnasol i ddatganoli, a 1,073 o eitemau (61.3%) yn amherthnasol i ddatganoli i raddau helaeth (gweler Tabl 5.1). Felly, er enghraifft, roedd eitemau a oedd yn canolbwyntio'n bennaf ar faterion fel chwaraeon, materion tramor, pobl enwog a busnes cyffredinol yn cael eu dosbarthu fel rhai amherthnasol i ddatganoli.

**Tabl 5.1: Cyfran yr eitemau newyddion ar-lein a theledu rhwydwaith a oedd yn berthnasol neu ddim yn berthnasol i ddatganoli (yn ôl nifer; N mewn cromfachau)**

| | Teledu BBC | Teledu ITV | Teledu Sky | Teledu Ch.4 | Teledu Ch.5 | Gwefan y BBC | Gwefan ITV | Gwefan Sky | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Perthnasol i ddatganoli | 38.5% (106) | 30.3% (73) | 41.0% (107) | 27.4% (114) | 43.0% (107) | 42.9% (60) | 32.9% (46) | 46.4% (65) | 38.7% (678) |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ddim yn berthnasol i ddatganoli** | 61.5% (169) | 69.7% (168) | 59.0% (154) | 62.6% (191) | 57.0% (142) | 57.1% (80) | 67.1% (94) | 53.6% (75) | 61.3% (1073) |
| **Cyfanswm** | 100.0% (275) | 100.0% (241) | 100.0% (261) | 100.0% (305) | 100.0% (249) | 100.0% (140) | 100.0% (140) | 100.0% (140) | 100.0% (1751) |

*Sail: N = 1751 = yr holl eitemau yn yr astudiaeth (p'un a ydynt yn berthnasol i ddatganoli ai peidio).*

Roedd llawer mwy o eitemau yn ein sampl o newyddion a oedd yn berthnasol i ddatganoli yn 2021 nag mewn astudiaethau blaenorol o ganlyniad i'r pandemig a'r ffaith bod gan y gwledydd datganoledig bwerau i wneud penderfyniadau polisi ynghylch rheoli COVID-19. Yn ein hastudiaeth o'r sylw i newyddion rhwydwaith yn 2015 a 2016, roedd 13.5% a 7.9% o'r newyddion, yn y drefn honno, yn berthnasol i ddatganoli. Ond yn 2021, roedd newyddion a oedd yn berthnasol i ddatganoli yn cyfrif am 38.7% o'r holl eitemau. Rydym nawr yn canolbwyntio ar y 678 eitem yn astudiaeth 2021 a oedd naill ai'n ymwneud â materion datganoledig neu a allai fod yn berthnasol i ddatganoli, heb gynnwys y 1,073 o eitemau yr ystyriwyd nad oeddent, i raddau helaeth, yn berthnasol i ddatganoli[10].

Mae Tabl 5.2 yn dangos cyfran yr eitemau a oedd yn berthnasol i ddatganoli gyda rhyw fath o gyfeiriad at un neu fwy o wledydd y DU. Felly, er enghraifft, mewn eitemau lle cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bod yn ymestyn y cyfyngiadau yn Lloegr, aethom ati i asesu a oedd unrhyw eglurder, fel sôn am Loegr neu gyfeirio'n ddaearyddol at y wlad, fel "Public Health England". Os nad oedd Lloegr (neu arwyddwr daearyddol) wedi'i chynnwys mewn eitem, roedd yn cael ei dosbarthu fel nad oedd yn cynnwys unrhyw gyfeirio. Fe wnaethom hefyd gategoreiddio'r math o gyfeirio mewn tair ffordd. Yn gyntaf, pe bai newyddiadurwr yn sôn am wlad (neu gyfeirio daearyddol) unwaith neu fwy, roedd hyn yn cael ei ddosbarthu fel cyfeiriad newyddiadurol at ddatganoli. Yn ail, os mai *dim ond* cyfeiriad gweledol ar y sgrin at wlad/gwledydd, roedd hyn yn cael ei ystyried fel cyfeirio ar y sgrin yn unig. Yn drydydd, os mai *dim ond* ffynhonnell allanol oedd yn cyfeirio at wlad/gwledydd, roedd hyn yn cael ei ddosbarthu fel cyfeirio ffynhonnell yn unig.

At ei gilydd, roedd tua chwech o bob deg eitem newyddion am faterion datganoledig, neu a allai fod yn berthnasol i ddatganoli, yn cynnwys cyfeirio at un neu fwy o wledydd y DU.

O ran newyddion ar y teledu, BBC News at Ten oedd y mwyaf eglur, gyda dwy ran o dair o'i eitemau'n cyfeirio rhywfaint at ddatganoli. Roedd ITV News at Ten a Channel 4 News at 7 yn cynnwys cyfeiriad at wlad yn y DU mewn 56.2% a 56.1% o eitemau yn y drefn honno, o'i gymharu â 53.3% ar Channel 5 News at 5 a 42.0% ar Sky News at Ten.

[10] **Nodyn ymchwil**: Ar gyfer darparwyr newyddion unigol, rydym yn cydnabod bod hyn yn cynrychioli sampl fach o eitemau newyddion, yn enwedig ar gyfer safleoedd ar-lein. Rydym yn parhau i gyflwyno'r canfyddiadau'n gyfrannol yn ôl canrannau er mwyn cymharu a chyferbynnu patrymau darpariaeth yn deg ar draws darlledwyr a gwasanaethau ar-lein, ond dylid bod yn ofalus wrth ystyried y niferoedd bach a archwiliwyd.

Tabl 5.2: Cyfran yr eitemau newyddion ar-lein a theledu rhwydwaith a oedd â chyfeiriad gwahanol at ddatganoli neu ddim cyfeiriad (yn ôl nifer; nifer mewn cromfachau).

| | Teledu'r BBC | Teledu ITV | Sky TV | Teledu Ch.4 | Teledu Ch.5 | Gwefan y BBC | Gwefan ITV | Gwefan Sky | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Do – newyddiadurwr | 52.8% (56) | 42.5% (31) | 20.6% (22) | 43.9% (50) | 39.3% (42) | 83.3% (50) | 71.9% (33) | 70.8% (46) | 48.7% (330) |
| Do – dim ond ar y sgrin | 8.5% (9) | 9.6% (7) | 12.1% (13) | 5.3% (6) | 8.4% (9) | 1.7% (1) | 2.2% (1) | 4.6% (3) | 7.2% (49)_ |
| Do – ffynhonnell yn unig | 4.7% (5) | 4.1% (3) | 9.3% (10) | 7.0% (8) | 5.6% (6) | / | / | 4.6% (3) | 5.2% (35) |
| Do, cyfeiriad llwyr | 66.0% (70) | 56.2% (41) | 42.0% (45) | 56.1% (64) | 53.3% (57) | 85.0% (51) | 73.9% (34) | 80.0% (52) | 61.1% (414) |
| Dim cyfeirio | 34.0% (36) | 43.8% (32) | 58.0% (62) | 43.9% (50) | 46.7% (50) | 15.0% (9) | 26.1% (12) | 20.0% (13) | 38.9% (264) |
| Cyfanswm | 100.0% (106) | 100.0% (73) | 100.0% (107) | 100.0% (114) | 100.0% (107) | 100.0% (60) | 100.0% (46) | 100.0% (65) | 100.0% (678) |

*Sail: N = 678 = Nifer yr eitemau yn y sampl gyfan yr ystyriwyd eu bod yn berthnasol i ddatganoli, neu a allai fod yn berthnasol iddo, oherwydd bod y pwnc dan sylw yn cael ei ystyried yn fater datganoledig ar gyfer Cymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon.*

Roedd cyfryngau newyddion ar-lein yn rhoi mwy o gyfeiriadau na newyddion teledu, gydag 85.0% o eitemau BBC News Online yn cyfeirio at un neu fwy o wledydd y DU, ac wedyn 80.0% ar Sky News Online a 73.9% ar ITV News Online.

Pan ofynnwyd a oedd hi'n haws cyfeirio at bwerau datganoledig mewn newyddion ar-lein nag ar y teledu, roedd yr holl olygyddion yn credu bod y cyfrwng yn cynnig llawer mwy o amser a lle. Er enghraifft, yn ôl Golygydd Allbwn Sky News:

> *...y gwir am newyddion ar-lein yw bod cymaint mwy o le..., mae gan bobl ddewis oherwydd gallwch roi hyperddolen iddyn nhw sy'n dweud 'os ydych chi eisiau gwybod beth yw'r rheolau lle rydych chi'n byw, yna cliciwch yma'. Ond hefyd, mae'r ramadeg yn teimlo ychydig yn wahanol. Yn y pen draw, mae teledu yn fformat llinol iawn o'i gymharu â chynnwys ar-lein....*

Yn yr un modd, pwysleisiodd Golygydd BBC News at Six a BBC News at Ten fyrdra newyddion teledu o'i gymharu â newyddion ar-lein, a sut mae hynny'n gallu cyfrannu at lefel y cyd-destun ac egluro adroddiadau newyddion:

> *Gyda newyddion teledu, mae'n rhaid tynnu pethau allan a'u cywasgu i'w hanfodion, ond ar yr un pryd mae angen digon i adlewyrchu'r holl bethau golygyddol y mae angen i chi eu gwneud. Yn amlwg mewn darn testun ar-lein, er bod ganddyn nhw eu terfynau geiriau a phopeth arall, mae mwy o gyfle i ychwanegu ychydig mwy, neu roi rhywbeth mewn blwch testun bach neu gyfeirio esboniad dyfnach o rywbeth. Mae newyddion ar y teledu yn ymwneud â thynnu pethau allan. Beth yw gwir galon y stori hon? Beth mae angen i bobl ei wybod er*

> *mwyn iddyn nhw allu ei deall yn iawn a chael y manylion sydd eu hangen arnyn nhw ac ymgysylltu â hi?... Ac mae hyn bob amser yn her i'r bwletinau newyddion ar y teledu. Os ydych chi'n eu cael nhw'n iawn, os gallwch chi gael y gymysgedd honno o ymgysylltu, dyfnder a gwybodaeth ar yr un pryd, maen nhw'n bethau gwych oherwydd maen nhw'n taro cynulleidfaoedd mawr yn y brif ffrwd... Mae'n debyg na fydden nhw'n eistedd yno ac yn darllen y wefan am hanner awr. Efallai y byddai rhai ohonyn nhw, ond ni fyddai pawb.*

Esboniodd Golygydd Channel 4 News yn fwy cryno y gwahaniaeth rhwng newyddion ar-lein a newyddion ar y teledu: *"gallwch ddweud mwy [ar y teledu]...bob tro rydych chi'n ysgrifennu pennawd neu'n rhoi rhywbeth ar y newyddion, rydych chi'n ceisio ei wneud mor fyr â phosib yn y bôn. Ond nid oes terfyn ar erthygl ar-lein."* Ond roedd gwerthfawrogiad y byddai angen i gonfensiynau newyddion teledu fod yn fwy arloesol er mwyn darparu ar gyfer mwy o gyd-destun ac eglurhad wrth adrodd ar straeon, fel yr eglurodd Golygydd ITV News at Ten:

> *Gan feddwl am ddarn o waith dau funud, dim ond hyn a hyn o eiriau y gallwch chi eu cynnwys pan fo gennych chi dri chyfweliad hefyd. Felly, os ydym yn ystyried newid pethau, mae popeth yn cymryd amser. A dydy hynny ddim yn golygu na ddylen ni wneud hynny, ond mae'n rhaid i ni feddwl am ffyrdd clyfar o wneud hynny...*

Yn ogystal â'r dadansoddiad o'r cynnwys yn nodi mwy o gyfeiriadau at ddatganoli mewn newyddion ar-lein na newyddion teledu, roedd yr astudiaeth yn edrych ar sut roedd gwybodaeth am bwerau gwleidyddol yn cael ei chyfleu, fel yn uniongyrchol gan newyddiadurwyr neu'n anuniongyrchol gan ffynonellau, neu hyd yn oed ar y sgrin yn weledol gyda graffeg a thestun.

Roedd newyddiadurwyr eu hunain, yn hytrach na graffeg ar y sgrin neu ffynonellau allanol, yn dangos perthnasedd datganoli yn y mwyafrif helaeth o eitemau ar-lein. Ar newyddion teledu, roedd rhwng un a dwy eitem o bob deg yn cynnwys cyfeiriadau at ddatganoli a oedd yn cael eu darparu gan raffeg ar y sgrin neu gan ffynhonnell allanol, yn hytrach na newyddiadurwr yn cyfeirio'n llafar at y perthnasedd i un neu fwy o'r gwledydd.

Roedd newyddiadurwyr ar BBC News at Ten yn darparu rhyw fath o gyfeiriadau at ddatganoli yn fwy rheolaidd – mewn dros hanner ei eitemau – o'i gymharu â bwletinau newyddion eraill ar y teledu. Ar Sky News at Ten, er enghraifft, roedd y sylw a roddwyd i berthnasedd datganoli'n cael ei gyfleu gan newyddiadurwyr mewn dau o bob deg eitem.

Cafodd y gwahanol ffyrdd o gyfeirio at ddatganoli ar draws darlledwyr – naill ai'n weledol neu ar lafar – eu dangos yn dda ar 9 Gorffennaf 2021 pan soniodd y pum bwletin am gynnig polisi gan Lywodraeth y DU a fyddai'n gwneud ap COVID-19 y GIG yn llai sensitif i leihau nifer y bobl sy'n cael eu "pingio" (gweler yr enghraifft isod). Dim ond yng Nghymru a Lloegr yr oedd yr ap ar gael. Cafodd hyn ei nodi'n glir gan y BBC ac ychydig yn fwy amwys gan ddarllediadau eraill, gyda chyfeiriadau at "Stryd Downing", "Rhif 10" neu "y Llywodraeth".

Roedd eitem BBC News at Ten yn nodi yn y cyflwyniad bod ap y GIG a oedd wrth wraidd y stori ar gyfer pobl yng Nghymru a Lloegr, a dangoswyd hyn mewn graffeg ar y sgrin. Roedd yr eitem hefyd yn dadansoddi ystadegau ar gyfer pob un o'r pedair gwlad:

**Cyflwynydd:** Coronavirus infections in the UK have risen to their highest level for five months. The Office for National Statistics says about one in 160 people had the virus last week. That's a 50 per cent increase on the week before. The surge in infections has led to a large number of people being told to isolate by the NHS COVID tracing app used in England and Wales. Tonight, the BBC has learned that the app is to be modified so that it sends out fewer alerts.

**Gohebydd:** (…) 26 million people have downloaded the NHS COVID app, although it's unclear how many have it switched on (…) tonight a source at the COVID app team told the BBC they'd been told to adjust its sensitivity so that it sends out fewer alerts.

**Grant Shaps, Ysgrifennydd Trafnidiaeth**: As our restrictions change, of course the app needs to change in line. Things like relaxing of the one-metre-plus rule, for example, on the 19th of July, might well lead to a review of the way the app itself needs to function.

**Gohebydd:** But Labour says the sensitivity of the app shouldn't be weakened.


**Keir Starmer, Arweinydd Llafur:** This feels like taking the batteries out of the smoke detector and that is never a good idea. That is an important protection. I'm equally worried by the stories of people deleting the app altogether. (BBC News at Ten, 9 Gorffennaf 2021).

Aeth y gohebydd ymlaen i roi manylion am y nifer o heintiau Covid a dangoswyd cyfres o graffeg ar y sgrin ar gyfer pob gwlad wrth iddynt gael eu trafod. Er enghraifft:

Yn yr Alban (graffeg – testun a map wedi'i amlygu) roedd un o bob 100 o bobl â Covid:




Yng Nghymru (graffeg – testun a map wedi'i amlygu) roedd yn o bob 340 o bobl â Covid, ac yng Ngogledd Iwerddon (graffeg – testun a map wedi'i amlygu) roedd un o bob 300 â Covid.




Nododd eitem ITV News at Ten nifer yr hysbysiadau ar yr ap yn Lloegr, ond cyfeiriodd hefyd at un haint ym mhob 160 o bobl heb nodi'r wlad yr oedd hyn yn berthnasol iddi, pan oedd yn ffigur ar gyfer Lloegr yn unig.

**Cyflwynydd:** To politics now and Downing Street is tonight urging people not to stop using the NHS test and trace app, saying it remains an important tool against the spread of COVID. But ministers say the possibility of tweaking the sensitivity of the app is being considered after the numbers of those being told to self-isolate surged by more than 60 per cent. Infections continue to rise sharply, though. More than 35,700 new COVID cases in the UK just today.

**Gohebydd:** (…) The NHS app alerts those who have been in close contact with someone who has tested positive. It sent out over 356,000 in England in the last week of June up 62 per cent on the previous week. NHS Track and Trace also identified over 280,000 people who had to isolate. The Government admits, with rules about to change, it might need to tweak the app…

**Graffeg ar y sgrin**: 356,036 Contact Tracing Alerts, June 24-30




**Grant Shaps, Ysgrifennydd Trafnidiaeth**: Of course the app will be kept under constant review to make sure it's providing useful information. Not over-pinging people in other words. We're not there yet and so, certainly keep the app. It's a useful additional weapon in our armoury against coronavirus.

**Gohebydd:** (…) One in 160 of us now has the virus, up from one in 250 the previous week. Many more will contract it in the coming weeks, The fear is if nothing is done soon people will simply start turning the app off (ITV News at Ten, 9 Gorffennaf 2021).

Roedd eitem Sky News at Ten yn cynnwys cyfeiriadau cyffredinol at y Llywodraeth, ap COVID-19 y GIG, ap profi ac olrhain a newidiadau i reolau ar 19 Gorffennaf, ynghyd â graffeg a llun o daflen Cod QR a oedd yn cyfeirio at ap COVID-19 y GIG.  Ni nodwyd lleoliad yn y DU pan gyfeiriwyd at yr ap neu "Gorffennaf 19" yn yr eitem. Nid oedd yr eitem yn nodi'r teitl swyddogol, sef "ap COVID-19 y GIG" ac mai dim ond yng Nghymru a Lloegr y gellir ei lwytho i lawr. Mae gan yr Alban a Gogledd Iwerddon eu ap eu hunain (ac mae'r gwasanaeth iechyd yn cael ei alw'n rhywbeth gwahanol e.e. NHS Scotland), ac mae'r newid yn y rheolau ar Orffennaf 19 – 'Freedom Day' fel y'i gelwir – yn berthnasol i Loegr yn unig. Yn yr eitem, dyfynnwyd ffigur o 26 miliwn o lawrlwythiadau, ond ni soniwyd bod hyn yn berthnasol i Gymru a Lloegr yn unig.

**Cyflwynydd:** Changing the performance of the NHS COVID app would be like removing the batteries from a smoke alarm, Sir Keir Starmer said today. Labour's leader was speaking after Ministers confirmed the Government may reduce the app's sensitivity. It's been downloaded nearly 26 million times and alerts users if someone they've been close to subsequently develops COVID.

**Gohebydd:** As infections rise so do the number of people being asked to isolate. It's forced the Government to reassess how its NHS COVID app works (…)

**Grant Shaps, Ysgrifennydd Trafnidiaeth:** It will keep the sensitivity of it under review to align with the new recommendations that come in, guidelines that come in on the 19th of July. So, we'll keep continuing to do that.

**Gohebydd**: The Prime Minister says people will no longer be made to check into venues from July the 19th prompting some to fear the app could be scrapped altogether.

**Keir Starmer, Arweinydd Llafur:** I'm really concerned what I'm hearing about changes to the track-and-trace app. This feels like taking the batteries out of the smoke detector and that is never a good idea (Sky News at Ten, 9 Gorffennaf 2021).

Cyfeiriodd Channel 4 News at 7 yn fyr at yr Alban mewn perthynas â heintiau COVID-19, ond ni chafodd Gogledd Iwerddon ei gydnabod. Roedd yr eitem yn sôn yn bennaf am newidiadau i ap y GIG heb ddweud eu bod yn berthnasol i Gymru a Lloegr yn unig. Ni nodwyd hyn yn yr adroddiad er bod cyfeiriadau at Stryd Downing, Gweinidogion, Whitehall, y Llywodraeth a'r Adran Iechyd.

**Cyflwynydd:** Now Downing Street is asking people not to ignore or delete the COVID app if it tells you to self-isolate, insisting it is still an important tool in the fight against coronavirus. But ministers have conceded they may have to make the app less sensitive amid concern about the increasing numbers of people getting pinged. Across the UK COVID infections rose by 50 per cent in the last week, up in all age groups and every region of England as well as Scotland and Wales. The latest 24-hour Government figures show there have been another 35,700 new cases in the UK. The highest since January 22. A further 29 people are reported to have died with COVID. Just under 100,000 had their first dose of vaccine, while 175,000 got their second dose.

**Gohebydd:** You mentioned the huge jump in cases there and there are concerns in Whitehall about the knock-on effect of that, the number of people who are going to have to self-isolate after being pinged by the NHS app. In fact, 60 per cent more people were pinged this week compared to last week but Number 10 are being unequivocal on this, they say, don't delete the app even after restrictions end.

**Grant Shaps, Ysgrifennydd Trafnidiaeth:** After the 19th of  July people won't need to adjust their sets, as they used to say, you can just keep the app on your phone. It will, in the background, adjust to, and we'll review it, to the rules that are applicable at any given time.

**Gohebydd:** Well, the Transport Secretary was alluding to Government plans to try to desensitise the app. Potentially to try to make it so that fewer people get caught in its net and that idea was anathema to Labour. They said it was like taking the batteries out of a smoke alarm. There's also the question of, of course, people deleting it on their own accounts. I spoke to one Government advisor today who told me there's internal data circulating in the Department of Health suggesting people are doing just that. Eight to 11 per cent have downloaded and then deleted the app and so if that continues to rise any arguments about tweaking the app are purely academic (Channel 4 News at 7, 9 Gorffennaf 2021)

Cyfeiriodd Channel 5 News at 5 at newidiadau'r Llywodraeth ar Orffennaf 19 yn ymwneud â Lloegr, ond ni soniodd am y gwahaniaethau rhwng apiau'r GIG gwahanol wledydd y DU.

**Cyflwynydd:** The Government could soon reduce the sensitivity of the NHS app that alerts people if they've been in close contact with someone who's tested positive for COVID. With cases soaring more and more people are being pinged, forcing them to miss work or scrap holidays through self-isolation. But as our political editor, [name], reports, critics say it's wrong to take away another tool that can tackle the pandemic.

Clip byr o fideo swyddogol wedi'i animeiddio yn egluro ap COVID-19 y GIG: "The NHS COVID-19 app is a vital part in the fight against coronavirus."

**Gohebydd:** That may be true, but many now also fear getting pinged and told to isolate as we head back towards life like this [video of people in restaurant] with almost all restrictions going in England in less than a fortnight, cases will go up and so will the alerts. So the Government is signalling it might tweak the app.

**Grant Shaps, Ysgrifennydd Trafnidiaeth**: As the situation develops and the science develops and, in particular, double vaccination and we get through the fourth stage of the unlock and the advice changes or the rules change about distancing as well, of course the app will be kept under constant review to make sure it's providing useful information, not over-pinging people.

**Gohebydd:** For the leader of the opposition, that's like taking the batteries out of a smoke detector. He says the app is not the problem, it's the decision to get rid of so many restrictions all at once.

**Keir Starmer, Arweinydd Llafur**: If the consequences of the Prime Minister's decision is that people delete the app, or the app is weakened, track and trace is weakened, then that's a pretty good indicator that the Prime Minister's decision isn't a very good one.

**Gohebydd:** The rules will change, allowing those fully vaccinated to avoid self-isolation if contacted but not before August the 16th (…) the contact tracing app is still seen as an important tool not least to head off more severe restrictions (Channel 5 News at 5, 9 Gorffennaf 2021).

Yn gyffredinol, wrth gymharu a chyferbynnu sut adroddwyd am ap COVID-19 y GIG ar 9 Gorffennaf 2021, roedd y perthnasedd i Gymru a Lloegr wedi'i nodi'n glir yng nghynnwys y BBC, ond nid oedd darparwyr newyddion eraill wedi darparu'r un lefel o eglurder, naill ai drwy gyfeirio'n benodol at Loegr neu gyfeiriadau amwys fel "y Llywodraeth".

Roedd yr astudiaeth hefyd yn edrych a oedd darlledwyr wedi cyfeirio'n weledol at berthnasedd datganoli, yn hytrach na dibynnu ar newyddiadurwr neu ffynhonnell i briodoli pa lywodraeth oedd yn gyfrifol am benderfyniadau polisi.

Roedd y defnydd o gyfeiriadau ar y sgrin yn cyfrif am 7.2% o'r cyfeiriadau at ddatganoli, gyda Sky News (12.1%) yn darparu'r labeli mwyaf gweledol ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon.

Roedd Golygydd Allbwn Sky News o'r farn bod graffeg ar y sgrin yn rhan bwysig o gyfleu gwybodaeth, gan atgyfnerthu'r hyn a ddywedir ar lafar gan gyflwynwyr a gohebwyr er mwyn gwella gwybodaeth y cyhoedd. Esboniodd sut roedd Sky News yn ceisio rhoi gwybodaeth weledol i wylwyr:

> *Yr hyn rydyn ni'n ei wneud yn eithaf aml ar stori bolisi yw mae ein cynhyrchwyr testun, sef y bobl sy'n ysgrifennu'r testun sy'n ymddangos ar waelod y sgrin, yn llunio'r hyn rydyn ni'n ei alw'n 'bentwr' o destunau ar gyfer y stori benodol honno. Maen nhw'n defnyddio dau neu dri o'r rhain fel ffordd o gyfleu rhywfaint o'r wybodaeth nad yw, am ba reswm bynnag, wedi'i chynnwys yn y brif stori…mae'r rhain yn atodol…maen nhw'n darparu rhagor o lefelau o fanylder. Felly, mae'r adroddiad llafar yn un lefel o fanylder, ond wedyn gallwn ychwanegu ychydig mwy o fanylder yn y testunau hyn rydyn ni'n eu hychwanegu. Os ydyn ni'n defnyddio paneli ochr, sef y pethau sy'n dod i mewn o'r ochr yn ystod digwyddiad byw, gallwn ni ychwanegu cyd-destun ynghylch pwy sy'n siarad neu beth bynnag a fyddai.*

Roedd Golygydd BBC News at Six a Ten yn cytuno bod y testun ar waelod y sgrin yn ychwanegu mwy o ddyfnder at y sylw, a dywedodd bod gwneud mwy o ddefnydd o hynny wedi bod yn rhan o'u dull o ail-ddylunio'r bwletin yn ddiweddar. Dywedodd fod y defnydd o destun ar waelod y sgrin yn

> *…ffordd dda o gyfleu gwybodaeth ac felly mae'r pandemig yn naturiol wedi ein harwain ni at wneud mwy o hynny, boed yn ddata rydyn ni'n ei ddangos bob dydd neu'n bethau ar y sgrin sy'n dangos gwahaniaethau cenedlaethol neu beth bynnag. Yn ail, ar ôl ailfeddwl dyluniad y rhaglen, gwnaethom ddechrau rhoi testun ar frig sgrin ar y rhaglen hefyd. Felly, roedd hynny'n ffordd arall o gyfleu mwy o hanfod y stori, ac mae'r pandemig yn fater sy'n llawn gwybodaeth o hyd, ac felly mae'n addas ar gyfer hynny i gyd.*

Roedd golygyddion eraill ychydig yn fwy pryderus wrth ddefnyddio graffeg ar y sgrin. Er enghraifft, roedd Golygydd Channel 5 News ychydig yn amheus ynghylch sut y gellid defnyddio graffeg ar y sgrin wrth adrodd yn rheolaidd, ond roedd yn agored i'r syniad o ddefnyddio testun i gyfeirio at berthnasedd datganoli. Wrth ymdrin â'r gwledydd yng nghyd-destun datganoli, dywedodd fod

> *…esblygiad o ran sut rydyn ni'n mynd i'r afael â'r pethau hyn, a'r pwysau a'r pwysigrwydd mae pobl yn ei roi iddo… Rwy'n meddwl efallai y byddwn ni'n cyrraedd pwynt lle byddwn ni'n dangos tag bach sy'n dweud, polisi yn Lloegr, neu rywbeth felly er mwyn gwella'r ffordd rydyn ni'n adrodd straeon. Felly fyddwn i byth yn ei ddiystyru.*

Dywedodd Golygydd Channel 4 News, "*Rydyn ni wastad wedi osgoi defnyddio rhuban ar Channel 4 News, oni bai bod rhaid i ni wneud hynny oherwydd ein bod yn ceisio gwneud y rhaglen yn un sy'n recordio pethau yn hytrach na'n rhaglen sy'n rhoi gwybodaeth i bobl mewn amser real*". Ond, roedd hefyd yn cydnabod, "*mi wnaethon ni ei ddefnyddio fwy nag erioed o'r blaen*" yn ystod y pandemig i gyfleu perthnasedd materion datganoledig.

At ei gilydd, roedd y cyfweliadau'n dangos rhywfaint o amheuon ynghylch defnyddio mwy o raffeg ar y sgrin mewn adroddiadau rheolaidd ar newyddion teledu. Ond roedd cydnabyddiaeth hefyd y byddai'n ddefnyddiol i helpu cynulleidfaoedd i ddeall perthnasedd materion datganoledig o ystyried yr amser a'r gofod cyfyngedig sydd ar gael ar fwletinau teledu.

# Cyfeirio at berthnasedd datganoli mewn newyddion rhwydwaith

**Crynodeb o brif ganfyddiadau'r bennod:**

Roedd ychydig o dan hanner yr eitemau a oedd yn cynnwys cyfeiriadau at ddatganoli yn cynnwys cyfeiriadau penodol at un neu fwy o wledydd y DU. Mae hyn yn gynnydd o'i gymharu ag astudiaethau blaenorol. Roedd adroddiadau newyddion y BBC cyfeirio llawer mwy at bwerau datganoledig naill ai yng Nghymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon na'r cyfryngau masnachol, ac roedd newyddion ar-lein yn cyfeirio'n fwy penodol at berthnasedd materion datganoledig na newyddion teledu.

Dangosodd y cyfweliadau â golygyddion fod y ffordd yr oedd bwletinau newyddion teledu yn cyfeirio at Weinidogion Llywodraeth y DU a phwerau wrth roi gwybod am faterion datganoledig yn bwynt trafod byw yn fewnol mewn ystafelloedd newyddion. Roedd cydnabyddiaeth gyffredinol ei bod, ar adegau, yn heriol labelu'n gywir statws llawer o ysgrifenyddion gwladol a gweinidogion Llywodraeth y DU o ystyried bod rhai pwerau sy'n ymwneud â materion datganoledig yn benodol i Loegr (e.e. mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg gyfrifoldeb dros ysgolion yn Lloegr yn unig).

Y tu hwnt i heriau penodol ynghylch sut i labelu swyddogion Llywodraeth y DU a Gweinidogion y sefydliadau datganoledig, yn gyffredinol, roedd y dadansoddiad o gynnwys yn dangos, er bod darlledwyr a gwefannau ar-lein yn cyfeirio'n bennaf at bwerau datganoledig naill ai yng nghyflwyniad eitem neu drwy'r pecyn cyfan, roedd oddeutu un o bob pedair eitem yn cyfeirio at hynny tua diwedd eitem yn unig.

Yn gyffredinol, roedd golygyddion yn cytuno bod angen mwy o eglurder pan mae swyddogion Llywodraeth y DU yn ymddangos mewn perthynas â materion sydd wedi'u datganoli i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Pan roddwyd sylw i fater datganoledig, nid oedd mwyafrif helaeth yr eitemau newyddion (89.7%) yn cynnwys naill ai ffynhonnell wleidyddol uniongyrchol neu anuniongyrchol gan gyrff gwleidyddol yng Nghymru, yr Alban na Gogledd Iwerddon. Unwaith eto, roedd sylw ar-lein – yn enwedig ar y BBC – yn fwy tebygol o gynnwys lleisiau gwleidyddion o'r sefydliadau datganoledig na newyddion teledu.

Roedd adroddiadau'r BBC yn cyfeirio at berthnasedd pwerau datganoledig yn llawer amlach na darparwyr newyddion eraill, gyda newyddion masnachol ar-lein yn sôn am Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn fwy na newyddion teledu.

Er mwyn archwilio ymhellach sut roedd newyddion ar-lein a theledu yn cyfeirio at faterion datganoledig neu eitem a allai fod yn berthnasol i ddatganoli mewn newyddion rhwydwaith, roedd yr astudiaeth yn asesu a oedd cyfeiriad ymhlyg yn unig, neu a oedd yn cynnwys cyfeiriad penodol (gweler Tabl 6.0). Mae "ymhlyg" yn cyfeirio at eitemau am Loegr y cyfeiriwyd atynt gyda rhyw fath o arwyddwr daearyddol yn Lloegr, ond nid oedd yn cynnwys cyfeiriad penodol at un o'r gwledydd datganoledig (Cymru, yr Alban na Gogledd Iwerddon). Mae "penodol" yn cyfeirio at eitemau sy'n cynnwys enw un o'r gwledydd datganoledig ar ryw ffurf. Drwy ddosbarthu eitemau fel rhai a oedd yn cynnwys cyfeiriadau ymhlyg a phenodol, roedd yn helpu i asesu'r *graddau o*

*eglurder* wrth wneud datganoli, y gwledydd a'r pwerau datganoledig yn fwy gweladwy i gynulleidfaoedd.

Roedd chwech o bob deg eitem am faterion datganoledig neu a allai fod yn berthnasol i ddatganoli (61.0%) yn cynnwys cyfeiriad ymhlyg neu benodol at bŵer datganoledig ar draws y ddarpariaeth teledu ac ar-lein.

Roedd adroddiadau'r BBC yn cynnwys llawer mwy o gyfeiriadau at naill ai Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon na'r cyfryngau masnachol, gyda 85.0% o newyddion ar-lein a dwy ran o dair (66.1%) o'r newyddion ar y teledu yn rhoi rhywfaint o eglurder ynghylch perthnasedd pwerau datganoledig.

*Dim ond* cyfeiriad ymhlyg oedd mewn tua thraean o'r eitemau a oedd yn berthnasol i ddatganoli (32.4%) ac roedd tri o bob deg (28.6%) yn cynnwys cyfeiriad penodol (yn y rhan fwyaf o achosion roedd hyn yn cynnwys cyfeiriad ymhlyg hefyd). Roedd hyn hefyd yn golygu nad oedd ychydig o dan bedwar o bob deg eitem yn cynnwys unrhyw gyfeiriad at ddatganoli mewn eitemau y gellid bod wedi cyfeirio at Gymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon, neu gyfuniad o'r gwledydd hyn.

**Tabl 6.0: Cyfran yr eitemau newyddion ar-lein a theledu rhwydwaith gyda chyfeiriad ymhlyg, penodol neu ddim cyfeiriad at ddatganoli (yn ôl nifer; N mewn cromfachau)**

| | Teledu'r BBC | Teledu ITV | Sky Teledu | Teledu Ch.4 | Teledu Ch.5 | Gwefan y BBC | Gwefan ITV | Gwefan Sky | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Amlwg | 38.7% (41) | 20.5% (15) | 18.7% (20) | 28.1% (32) | 19.6% (21) | 53.3% (32) | 28.3% (13) | 30.8% (20) | 28.6% (194) |
| Ymhlyg | 27.4% (29) | 35.6% (26) | 23.4% (25) | 28.1% (32) | 33.6% (36) | 31.7% (19) | 45.7% (21) | 49.2% (32) | 32.4% (220) |
| Dim | 34.0% (36) | 43.8% (32) | 57.9% (62) | 43.9% (50) | 46.7% (50) | 15.0% (9) | 26.1% (12) | 20.0% (13) | 38.9% (264) |
| Cyfanswm | 100.0% (106) | 100.0% (73) | 100.0% (107) | 100.0% (114) | 100.0% (107) | 100.0% (60) | 100.0% (46) | 100.0% (65) | 100.0% (678) |

*Sail: N = 678 = Nifer yr eitemau yn y sampl gyfan yr ystyriwyd eu bod yn berthnasol i ddatganoli, neu a allai fod yn berthnasol iddo, oherwydd bod y pwnc dan sylw yn cael ei ystyried yn fater datganoledig ar gyfer Cymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon.*

O'i gymharu â'r astudiaethau blaenorol a gynhaliwyd gennym yn 2015 a 2016[11], gwelwyd cynnydd yn y cyfeiriadau penodol at y pwerau datganoledig ar draws y DU. Er enghraifft, o'r 665 o eitemau'r BBC a oedd yn berthnasol i ddatganoli yn 2015, roedd 10.1% yn cynnwys o leiaf un cyfeiriad penodol at bŵer datganoledig. O blith 152 eitem newyddion y BBC a oedd yn berthnasol i ddatganoli yn 2016, roedd 9.9% yn gyfeiriad penodol. Mae hyn yn cymharu â 38.7% o eitemau newyddion y BBC a oedd yn cynnwys cyfeiriad penodol yn 2021.

[11] Cushion, Stephen, Lewis, Justin, Sambrook Richard (2016a) *2016 Nations Impartiality Review: A snapshot picture*. Llundain: Ymddiriedolaeth y BBC.
Cushion, Stephen, Lewis, Justin, Richard, Sambrook, Kilby, Allaina (2016b) *Four Nations Impartiality Review Follow-up 2015: An Analysis of Reporting Devolution*. Llundain: Ymddiriedolaeth y BBC.

Gofynnwyd i olygyddion a oedd angen datgan “yn Lloegr” ar gyfer eitemau newyddion lle roedd y polisi a gyhoeddwyd yn ymwneud â Lloegr yn unig. Cytunodd pawb ei bod er mwyn tynnu sylw gwylwyr at y perthnasedd i Loegr. Ond aeth Golygydd BBC News at Six a Ten gam ymhellach gan ddweud nad oedd dweud Lloegr yn unig yn ddigonol a chredai fod angen cyfeirio at y gwledydd datganoledig hefyd:

> *…dywedwch fod Sajid Javid yn dweud heddiw fod yn rhaid i chi ddechrau gwisgo masgiau wyneb ym mhob man yn Lloegr. Mae’n gam mawr, ac yn dro pedol mawr. Byddech chi’n disgwyl mai Lloegr fyddai yn y pennawd, Lloegr fyddai yn y cyflwyniad, a Lloegr yn amlwg yn y darn. Ond wedyn byddech chi’n disgwyl rhyw fath o gyfeiriad at y gwledydd eraill yn ogystal ag o ran ei fod yn wahanol i’r hyn sy’n digwydd yn yr Alban neu beth bynnag.*

Awgrymodd hefyd nad oedd unrhyw ddiffygion yn y sylw a roddwyd i ddatganoli yn ymwneud ag arbenigedd newyddiadurol, ond y gallai fod yn berthnasol i ohebwyr sy’n ymddiddori mewn cyhoeddiadau mawr gan Lywodraeth y DU. Wrth wneud hynny, roedd Golygydd BBC News at Six a BBC News at Ten yn cydnabod nad oedd unrhyw achos o beidio â chyfeirio at Loegr yn ganlyniad i ddiffyg gwybodaeth am ddatganoli ymysg gohebwyr y BBC, ond yn ganlyniad i newyddiadurwyr yn canolbwyntio ar ddigwyddiadau sy’n symud yn gyflym yn San Steffan, sy’n ymwneud â newid cyfyngiadau Covid yn Lloegr.

> *…dylai golygyddion, cynhyrchwyr a golygyddion rhaglenni yn Llundain…ddeall y gwahaniaethau [mewn pwerau ar draws y pedair gwlad] yn ogystal â deall yn llwyr pa gyhoeddiadau neu benderfyniadau sy’n berthnasol i Loegr yn unig a beth mewn gwirionedd sy’n adlewyrchu neu’n ymwneud â’r DU gyfan. Byddwn i’n dweud bod ambell beth ymarferol sy’n golygu, yn amlwg, os ydych chi mewn ystafell newyddion yn Llundain a’ch bod chi’n cael eich llethu gan gyhoeddiad mawr gan Lywodraeth y DU, gall lithro drwy weithiau, felly mae hynny’n berthnasol i Loegr yn unig. Ond mewn gwirionedd, mae hynny’n deillio mwy o bwysau’r cyhoeddiad yn hytrach nag anwybodaeth newyddiadurwyr.*

Pwysleisiodd Golygydd Channel 5 News hefyd ei bod yn bwysig cyfeirio at y gwledydd datganoledig eraill hyd yn oed pan oedd stori bolisi yn ymwneud â Lloegr yn unig.

> *…os ydyn ni’n cyflwyno darn sy’n ymwneud yn benodol â Lloegr, byddwn bob amser yn gwneud yn siŵr ein bod yn sôn am y gwledydd eraill, boed hynny yn yr adroddiad pecyn neu yn fyw, bydd cyfeiriad at hynny. Eto, mae’n gyfle arall i bobl weld y rhan honno o’r stori. Mae’n debyg bod dwy ran i hynny. Un yw’r eglurder rydw i’n sôn amdano, ond mae angen cysylltiad hefyd. Mae llawer o hyn wedi ymwneud â dangos y ffyrdd mae’r DU wedi mynd drwy bandemig Covid. Felly, er nad yw’r rheolau newydd sy’n dod i rym yn Lloegr yn berthnasol yn yr Alban, byddai rhywun yn yr Alban yn rhyfeddu at weld bod rhywun yng Nghaerlŷr wedi bod dan gyfyngiadau symud parhaus ers X. Felly mae gennych chi gysylltiad dynol â’r stori.*

Awgrymodd Golygydd News at Ten ITV efallai mai dim ond at eitem newyddion hir, yn hytrach nag un byr, oedd angen ychwanegu cyd-destun ychwanegol at wledydd eraill:

> *…os ydych chi’n dweud bod rhywbeth yn berthnasol i un o’r pedair gwlad yn unig, rwy’n meddwl bod rhagdybiaeth eithaf da mae’n debyg nad yw’n berthnasol i’r*

*rhannau eraill, oherwydd os nad ydych chi'n ei ddweud o gwbl, yna efallai y byddai pob un o'r pedair gwlad yn tybio ei fod yn berthnasol iddyn nhw. Os ydych chi'n sôn am un yn unig, yna dwi'n meddwl eich bod chi'n gwneud hynny'n fwriadol i ddangos hynny. Nid wyf yn siŵr a all cyflwyniad, sydd ond yn 25 eiliad o hyd i adrodd stori, ddweud mae hyn ar gyfer Lloegr yn unig felly nid yw'n berthnasol i'r tair gwlad arall. I mi, mae hynny'n drafferthus ac yn ddiangen pan rydyn ni wedi gwneud y pwynt yn barod.*

Yn yr un modd, awgrymodd Golygydd Allbwn Sky News mai dim ond os oedd y stori'n gyhoeddiad polisi newydd neu arwyddocaol y byddai angen cyfeirio at Loegr a gwledydd eraill mewn eitemau sy'n ymwneud â Lloegr.

*...cyn belled â'i fod wedi cael ei wneud yn glir unwaith, byddwn yn ystyried hynny'n ddigonol. Rydyn ni'n amlwg yn edrych ar bethau ar sail unigol bob tro. Os yw'n fater penodol sydd yn amlwg yn rhywbeth rydyn ni'n ei adrodd oherwydd ei fod yn rhywbeth mae un o'r gwledydd yn ei wneud o flaen y gwledydd eraill. Rydw i'n meddwl am, yn enwedig yn ystod Covid, sut roedd yr Alban yn ymddangos fel ei fod gam ar y blaen ar sawl achlysur, ac roedd dadl wleidyddol yn y DU ynghylch a oedd hynny'n gorfodi Boris Johnson i symud wedyn, ond wrth gofio adrodd y straeon hynny yn ystod tymor yr hydref 2020, roedden ni'n bod yn benodol iawn. Yn aml, y prif linell oedd bod yr Alban wedi symud gyntaf unwaith eto. Felly mae'n debyg yn y math hwnnw o gyd-destun, pan mae'n rhan gwbl ganolog o'r stori, yn rhan o'r rheswm rydych chi'n ei wneud, yna byddai'n cael ei ailadrodd oherwydd byddai'n rhan ganolog o'r stori. Ond ar adegau eraill, os ydych chi'n ei wneud oherwydd 'mae hyn yn ddiddorol oherwydd yng Ngogledd Iwerddon, dyma'r sefyllfa' math o beth, yna byddech chi'n ei ddweud unwaith, ac yna byddech chi eisiau clywed am y rheolau cadw pellter cymdeithasol neu am nifer y bobl sy'n gallu cwrdd â'i gilydd ac ati. Gallwch ddweud y stori honno gyflwyno'r stori drwy'r bobl a'r hyn maen nhw'n ei wneud heb orfod dweud 'Gogledd Iwerddon yw hyn gyda llaw' oherwydd rydyn ni eisoes wedi dweud hynny'n y cyflwyniad. Felly rydyn ni wedi gwneud hynny.*

Ychwanegodd:

*....Rwy'n credu ei bod hi'n bwysig teimlo nad yw'n ddyletswydd arnom i nodi'n benodol 'Cymru yw hyn, Gogledd Iwerddon yn hyn, yr Alban yw hyn, Lloegr yw hyn'. Mae'n fwy i wneud â nodi os oes gwahaniaeth neu os nad yw rhywbeth yn berthnasol. Os mai dim ond yn Lloegr y mae hyn yn berthnasol, yna mae'n rhaid i ni ei gwneud yn glir mai dim ond yn y fan honno y mae'n berthnasol.*

Yn gyffredinol, roedd rhai gwahaniaethau golygyddol cynnil o ran pa mor aml yr oedd angen cyfeirio'n benodol at y gwledydd datganoledig mewn straeon yn ymwneud â Lloegr yn unig, ond roedd cydnabyddiaeth hefyd fod hyn yn dibynnu ar bwysigrwydd y mater polisi ar y pryd.

Yn ogystal â dehongli sut cafodd pwerau datganoledig eu cyfathrebu, roedd yr astudiaeth yn archwilio pryd soniwyd amdanynt yn ystod eitem newyddion. Cafodd hyn ei gategoreiddio yn ôl a oedd cyfeiriad ymhlyg neu benodol (neu'r ddau) yn ymddangos ar ddechrau eitem, ar y diwedd un, neu yn y canol.  Fel y mae Tabl 6.1 yn dangos, roedd ychydig o dan draean o'r eitemau –

32.0% – yn cyfeirio at bwerau y tu allan i ddechrau neu ddiwedd eitem, ac roedd tua chwarter yn cyfeirio at bwerau yng nghyflwyniad neu yng nghanol yr eitem.

Tabl 6.1: Cyfran yr eitemau newyddion rhwydwaith a theledu â chyfeiriadau at ddatganoli yn ôl lle maent yn ymddangos yn yr eitem (yn ôl nifer; N mewn cromfachau)

| | Teledu'r BBC | Teledu ITV | Sky TV | Teledu Ch.4 | Teledu Ch.5 | Gwefan y BBC | Gwefan ITV | Gwefan Sky | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Canol yn unig | 37.1% (26) | 33.3% (14) | 42.2% (19) | 32.8% (21) | 38.6% (22) | 15.7% (8) | 14.7% (5) | 34.6% (18) | 32.0% (133) |
| Cyflwyniad + canol | 24.2% (17) | 38.1% (16) | 17.8% (8) | 29.7% (19) | 22.8% (13) | 17.6% (9) | 20.6% (7) | 30.8% (16) | 25.3% (105) |
| Cyflwyniad, canol + diwedd | 10.0% (7) | 9.5% (4) | 11.1% (5) | 9.4% (6) | 10.5% (6) | 49.0% (25) | 26.5% (9) | 17.3% (9) | 17.1% (71) |
| Cyflwyniad | 17.1% (12) | 14.3% (6) | 15.5% (7) | 18.8% (12) | 22.8% (13) | 15.7% (8) | 11.8% (4) | 11.5% (6) | 16.4% (68) |
| Diwedd yn unig | 4.3% (3) | 4.8% (2) | 4.4% (2) | 4.7% (3) | 1.8% (1) | / | 14.7% (5) | 3.8% (2) | 4.3% (18) |
| Canol + diwedd | 2.9% (2) | / | 8.9% (4) | 3.1% (2) | 1.8% (1) | 2.0% (1) | 8.8% (3) | / | 3.1% (13) |
| Cyflwyniad + diwedd | 4.3% (3) | / | / | 1.6% (1) | 1.8% (1) | / | 2.9% (1) | 1.9% (1) | 1.7% (7) |
| Cyfanswm | 100.0% (70) | 100.0% (42) | 100.0% (45) | 100.0% (64) | 100.0% (57) | 100.0% (51) | 100.0% (34) | 100.0% (52) | 100.0% (415) |

*N = 415 = eitemau o fewn yr is-sampl newyddion sy'n berthnasol i ddatganoli lle'r oedd cyfeirio'n bresennol. Roedd hyn yn cynrychioli 61.2% o'r is-sampl o eitemau sy'n berthnasol i ddatganoli (N = 678).*

Yn gyffredinol, roedd eitemau ar-lein yn fwy rheolaidd yn cynnwys cyfeiriad at bwerau datganoledig yn y cyflwyniad, yn y diwedd ac yn y canol o'i gymharu â newyddion teledu. Roedd hyn yn fwyaf amlwg ar newyddion ar-lein y BBC. Ar y teledu, roedd bron i dri chwarter o eitemau newyddion ITV News at Ten – 71.4% – yn cyfeirio at bwerau naill ai yng nghyflwyniad a phrif ran yr eitem, yn hytrach nag ar y diwedd, o'i gymharu â 61.3% ar BBC News at Ten a Channel 4 News at 7, 61.4% ar Channel 5 News at 5 a 69.0% ar Sky News at Ten. Er hynny, roedd y golygyddion yn gytûn bod angen cyfeirio at bwerau yn rhan agoriadol eitem newyddion, gan gynnwys yng nghyflwyniad cyflwynydd y newyddion a gan ohebydd os oedd yn becyn wedi'i olygu.

Ar 30 Mehefin 2021, er enghraifft, roedd pob darlledwr – ac eithrio Sky News – yn cynnwys eitemau am gael gwared ar bolisi swigod ysgol yn Lloegr, gyda Channel 4 News at 7, Channel 5 News at 5 a BBC News at Ten yn cynnwys darnau byr (40 eiliad) gan y cyflwynydd, ac roedd ITV News at Ten yn cynnwys pecyn hirach (mwy na 2 funud) gan ohebydd. Roedd ein dadansoddiad yn dangos bod y BBC, ITV a Channel 5 wedi cyfeirio'n glir at Loegr drwy gydol eitem, gan gynnwys yn y cyflwyniad, ac nid oedd Channel 4 wedi sôn am Loegr er ei bod wedi sôn bod 375,000 o blant yn hunanynysu, a oedd yn ddata'n ymwneud â Lloegr yn unig.

**Cyflwynydd:** The Education Secretary, Gavin Williamson, has said school bubbles could be scrapped from July the 19th to reduce the number of children being sent home. There has been rising concern over the large numbers of pupils being made to isolate if another child in their bubble tests positive for COVID 19. Recent data shows 375,000 children in state education were out of school last week as a result of the virus (**Channel 4 News at 7, 30 Mehefin 2021**).

**Cyflwynydd:** The school bubble system could be scrapped in England on the 19th of July when COVID restrictions are expected to be lifted. Rising numbers of pupils are being sent home to isolate and the Education Secretary, Gavin Williamson, says he wants changes as soon as possible. Official figures showed 375,000 children did not attend class for COVID-related reasons in England last week (**Channel 5 News at 5, 30 Mehefin 2021**).

**Cyflwynydd:** Today, the Education Secretary for England, Gavin Williamson, says he wants the school bubble system to be removed as soon as possible as soaring numbers of pupils are being sent home to self-isolate. The change could happen alongside the next step of unlocking which is due to happen on the 19th of July in England, meaning that pupils returning to school in September would not be in bubbles (**BBC News at Ten, 30 Mehefin 2021**).

**Cyflwynydd:** With so many school children self-isolating at home the Education Secretary, Gavin Williamson, promised them and their parents that the system of school bubbles in England will end as soon as possible, probably on the 19th of July when all restrictions are due to end. Mr Williamson told MPs children should get the same freedoms as older generations especially when they had put up with so much to protect them.

**Gohebydd:** In recent weeks the numbers of children out of school because of COVID has been on the rise. On June 10, 90,000 pupils did not attend state schools in England because of COVID-related reasons. That number more than doubled the following week to close to a quarter of a million and by June the 24th, 375,000 students were at home because of COVID. Today, the Education Secretary said this wasn't acceptable and said he wants to see the end of the bubble system.

**Graffeg ar y sgrin:** Pupil absence due to COVID-19, source: Department for Education data for England

**Yr Ysgrifennydd Addysg yn Nhŷ'r Cyffredin**: What I want to see is these restrictions including bubbles removed as quickly as possible along with wider restrictions in society. We expect to be able to confirm plans to lift restrictions and bubbles as part of step four.

**Gohebydd**: But that won't happen until July 19th at the earliest (**ITV News at Ten, 30 Mehefin 2021**).

Mae'r gymhariaeth fer hon o sut cafodd eitemau eu fframio ar draws pedwar darlledwr yn helpu i ddatgelu eglurder gwrthgyferbyniol y sylw ynghylch sut cafodd *perthnasedd polisi COVID-19* i ysgolion yn Lloegr ei gyfleu. (Trafodir y mater hwn ymhellach yn un o'n hastudiaethau achos yn Adran 10.0). Er enghraifft, ac eithrio'r BBC, roedd pob darlledwr yn cyfeirio at weinidog y DU fel yr "Ysgrifennydd Addysg". Ond, roedd BBC News at Ten yn cyfeirio at "Ysgrifennydd Addysg *Lloegr*" (pwyslais wedi'i ychwanegu). Fodd bynnag, y teitl ffurfiol yn Llywodraeth y DU yw'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg, nid Ysgrifennydd Addysg Lloegr[12][13].

Trafodwyd sut y dylai bwletinau newyddion labelu Gweinidogion Llywodraeth y DU mewn cyfweliadau gyda golygyddion. Roedd Golygydd BBC News at Six a Ten yn cydnabod bod rhywfaint o drafodaeth olygyddol fewnol wedi bod ynghylch sut dylid disgrifio rhai o Weinidogion Llywodraeth y DU:

> *...nid dyma'r peth symlaf i'w wneud oherwydd ni fyddai'n gywir galw Sajid Javid... wel, mi fyddai ac ni fyddai. Pe baech chi'n ei alw'n Ysgrifennydd Iechyd Lloegr, ef yw Ysgrifennydd Iechyd Llywodraeth y DU ond mae iechyd wedi'i ddatganoli ... rwy'n meddwl os ydych chi'n teimlo'r angen, yna rwy'n meddwl y gallwch chi siarad am Ysgrifennydd Iechyd Llywodraeth y DU. Gwnaethom benderfynu ar system ac mae hynny'n fras oherwydd ein bod yn cael rhai cyfeiriadau at Ysgrifennydd Iechyd Lloegr, sydd ddim o reidrwydd yn anghywir ond nid yw'n hollol gywir o ran cylch gwaith y rôl honno.*

Yn yr un modd, roedd Golygydd Channel 4 News yn cyfaddef fod ei dîm wedi mynd i'r afael â'r mater hwn o labelu Gweinidogion Llywodraeth y DU yn ystod y pandemig:

> *...pan fyddwch chi'n sôn am fater cenedlaethol, a byddwn i'n dweud bod Covid wedi amlygu hyn yn wahanol i unrhyw fater arall, rydych chi'n atgoffa eich hun nad Ysgrifennydd Iechyd y DU yw Ysgrifennydd Iechyd Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Yn sicr, gwnaethom ddysgu'n gyflym yn ystod Covid oherwydd ni fyddem fel arfer yn rhoi gwybod am broblem iechyd genedlaethol oherwydd bod y materion iechyd fel arfer yn fwy rhanbarthol. Felly, efallai y byddai pwysau mawr yn ystod argyfwng adran Achosion Brys yn y gaeaf a byddech yn gweld hynny'n rhanbarthol, byddai'n stori newyddion genedlaethol, ond gallai fod yn waeth yn Newcastle nag yn Glasgow ond yn well yng Nghaerdydd nag ym Mryste.*

Esboniodd Cait Fitzsimmons, Golygydd Channel 5 News, yr heriau sy'n sail i adrodd ar rolau Gweinidogion ar draws y DU, a chredai y gellid ychwanegu mwy o eglurder mewn newyddion teledu:

> *...os ydych chi'n siarad â gwleidydd yn yr Alban, mae'n ymwneud â mater yn yr Alban, ond pan fyddwch chi'n siarad â rhywun o Lywodraeth y DU nid yw bob amser yn glir, ac a ddylen ni addasu'r ffordd rydyn ni'n cyflwyno teitlau swyddi i'w gwneud yn glir bod eu meysydd polisi'n cwmpasu'r wlad neu'r ardaloedd penodol*

---

[12] Mae'n werth nodi bod Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020 wedi rhoi pwerau i weinidogion y DU wario arian yn uniongyrchol ar "gefnogi cyfnewidiadau a gweithgareddau addysgol a hyfforddi yn y Deyrnas Unedig" ac ar seilwaith gan gynnwys cyfleusterau addysgol (rhan 6). Felly, mae'n bosibl y gallai Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg y DU fod yn siarad am fuddsoddi mewn addysg ledled y DU.

[13] Mae hefyd yn werth nodi bod Gweinidogion Llywodraeth y DU yn aml yn cynrychioli Llywodraeth y DU yn gyffredinol yn ogystal â'u hadran. Felly, er enghraifft, os gofynnwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg amddiffyn polisi Brexit Llywodraeth y DU, gallai fod yn ddryslyd i gynulleidfaoedd petai newyddion teledu yn ei labelu fel Ysgrifennydd Gwladol Lloegr yn y cyd-destun hwn.

*hyn. Mae'n ymwneud â chydbwysedd cymhlethdod ar raddfa fawr ac eglur ac nid ydym wedi rheoli hynny'n llwyr....Ond, fel rwy'n dweud, os yw'n stori ddatganoledig, rydych chi'n nodi hynny ar y dechrau, rydych chi'n sôn amdano yn y cyflwyniad ac rydych chi'n sôn amdano yn y darn. Dylai fod ym mhob rhan o'r stori. Yn amlwg, mae unwaith yn iawn mewn straeon byr ac ar y dechrau. Mewn pecyn, efallai y byddwch am ddweud hynny ychydig o weithiau, yn bendant ar raffig, a'r pethau hynny. Ond wedyn, ydyn ni'n ychwanegu hynny i'r labeli enwau, Ysgrifennydd Iechyd Cymru a Lloegr? Dydyn ni ddim yno eto, ond mae hynny'n sicr yn rhywbeth rwy'n meddwl sy'n ystyriaeth synhwyrol ac os na fyddwn gwneud, rwy'n siŵr y bydd rhywun arall yn gwneud hynny cyn bo hir. Alla i ddim dychmygu nad yw hynny'n mynd i fod yn rhywbeth sy'n dod.*

Cytunodd Golygydd ITV News y gellid cael mwy o eglurder o ran sylw rhwydwaith i benderfyniadau a wnaed gan Weinidogion Llywodraeth y DU, yn hytrach na'r gweinyddiaethau datganoledig. Roedd yn cydnabod:

*...mae gennym duedd i ddweud 'y Llywodraeth' am bopeth. Dwi'n meddwl ein bod ni'n well am ei wneud y ffordd arall. Felly, os yw'n benodol iawn i'r llywodraethau datganoledig, rydyn ni'n amlwg yn benodol iawn i hynny...daeth y pandemig â ffocws pendant i ni ar ba mor wahanol oedd y gwledydd datganoledig o ran delio â'r mater, ac rydyn ni'n llawer mwy ymwybodol o fod yn glir yn ystod y pandemig ynghylch materion iechyd, a hoffwn feddwl y byddai hynny'n parhau.*

Wrth bwyso a mesur y defnydd o iaith wrth labelu Gweinidogion y DU, dywedodd Golygydd Allbwn Sky News:

*Ydw i'n ysgrifennu 'Sajid Javid, Ysgrifennydd Iechyd y DU'? Nac ydw. Dydw i ddim yn gwneud hynny, a pham nad ydw i'n gwneud hynny? Oherwydd byddai hynny'n rhoi rhyw fath o deimlad byd-eang i'r hyn rydyn ni'n ei wneud, ac nid dyna'r hyn rydyn ni'n ei wneud. Yn y pen draw rydyn ni'n ddarlledwr sy'n gweithio yn y DU, ac nid yw hynny mewn synnwyr gwleidyddol. Mae'r brif gynulleidfa rydyn ni'n siarad â hi yn y DU ac Iwerddon.*

Fodd bynnag, aeth ymlaen i egluro bod lefel yr eglurder wrth labelu Gweinidogion y DU:

*...yn ymwneud â chyd-destun y stori mewn gwirionedd. I ddefnyddio'r enghraifft Sajid Javid, os yw'n rhywbeth y mae Sajid Javid yn sôn amdano, yna mae'n ymwneud ag iechyd o ran cymwyseddau Llywodraeth y DU...er enghraifft, rhestrau aros. Os nad yw yno [cyfeirio at Loegr], camgymeriad yw hynny'n hytrach na bwriad. Wrth sôn am restrau aros yn Lloegr, rhestrau aros yng Nghymru...ffigurau Covid dros y misoedd, yna rydyn ni'n glir iawn ai ar lefel y DU y mae hyn...ond ni ddaeth data Gogledd Iwerddon i mewn heddiw fel nid yw hynny wedi'i gynnwys, neu beth bynnag y bo.*

Dangosodd y cyfweliadau â golygyddion fod y ffordd yr oedd bwletinau newyddion teledu yn cyfeirio at Weinidogion Llywodraeth y DU a phwerau wrth roi gwybod am faterion datganoledig yn bwynt trafod byw yn fewnol mewn ystafelloedd newyddion. Yn gyffredinol, roedd cytundeb bod angen mwy o eglurder wrth gyfeirio at swyddogion Llywodraeth y DU mewn perthynas â materion sydd wedi'u datganoli i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Y tu hwnt i heriau penodol ynghylch sut i labelu swyddogion Llywodraeth y DU a Gweinidogion y gweinyddiaethau datganoledig, yn gyffredinol, roedd y dadansoddiad o gynnwys yn dangos, er

bod darlledwyr a gwefannau ar-lein yn cyfeirio'n bennaf at bwerau datganoledig naill ai yng nghyflwyniad eitem neu drwy'r pecyn cyfan, roedd oddeutu un o bob pedair eitem ond yn cyfeirio at hynny tua diwedd yr eitem.

Nid oedd y rhan fwyaf o'r newyddion a oedd yn berthnasol i ddatganoli yn cynnwys cymhariaeth rhwng un neu ragor o'r gwledydd.

I archwilio ymhellach sut mae darlledwyr a safleoedd ar-lein wedi adrodd ar faterion datganoledig, mae Tabl 6.2 yn dangos a oedd eitem yn cynnwys cymhariaeth ag un neu fwy o wledydd y DU (Cymru, Lloegr, yr Alban a/neu Ogledd Iwerddon). Nid oes angen dweud na fyddai disgwyl i bob eitem gael sylw cymharol, ond roedd y gwahaniaethau o ran pryd roedd y gwledydd yn cael eu cymharu ar draws newyddion teledu ac adroddiadau ar-lein yn drawiadol.

**Tabl 6.2: Cyfran yr eitemau newyddion ar-lein a theledu rhwydwaith a oedd yn cynnwys cymhariaeth rhwng un neu fwy o'r pedair gwlad (yn ôl nifer; N mewn cromfachau)**

| | Teledu'r BBC | ITV Teledu | Sky Teledu | Teledu Ch.4 | Teledu Ch.5 | Gwefan y BBC | Gwefan ITV | Gwefan Sky | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymhariaeth | 21.7% (23) | 8.2% (6) | 11.2% (12) | 14.9% (17) | 8.4% (9) | 40.0% (24) | 26.1% (12) | 23.1% (15) | 17.4% (118) |
| Dim cymhariaeth | 78.3% (83) | 91.8% (67) | 88.8% (95) | 85.1% (97) | 91.6% (98) | 60.0% (36) | 73.9% (34) | 76.9% (50) | 82.6% (560) |
| Cyfanswm | 100.0% (106) | 100.0% (73) | 100.0% (107) | 100.0% (114) | 100.0% (107) | 100.0% (60) | 100.0% (46) | 100.0% (65) | 100.0% (678) |

*N = 678 = yr eitemau a oedd yn berthnasol i ddatganoli.*

Unwaith eto, roedd safleoedd ar-lein yn cynnwys mwy o gyfeiriadau cymharol at y gwledydd na darlledwyr, gyda 40.0% o eitemau BBC Online, 26.1% o eitemau ITV Online a 23.1% o eitemau Sky Online yn cynnwys un neu fwy. Ar gyfer y darlledwyr, roedd ychydig dros un rhan o bump – 21.7% – o eitemau'r BBC yn cynnwys cymhariaeth rhwng Cymru, Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon, o'i gymharu â 14.9% ar Channel 4, 11.2% ar Sky News, 8.4% ar Channel 5 a 8.2% ar ITV.

Yn gyffredinol, y BBC oedd yn rhoi'r sylw mwyaf cymharol i'r gwledydd a materion datganoledig. Cafodd hyn ei ddangos mewn eitem ar BBC News at Ten a oedd – ar ôl rhoi sylw i benderfyniad y Prif Weinidog i gael gwared ar yr holl gyfyngiadau yn Lloegr – yn cymharu dulliau Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn weledol ac ar lafar:

**Cyflwynydd**: Well the Governments in Scotland, Wales and Northern Ireland will set out their own timetables for lifting restrictions later this month. Scotland currently has the highest COVID rates in Europe, according to the World Health Organization, and is expected to loosen some restrictions on the 19th of July.

**Baner ar y sgrin**: Coronavirus Scotland aims to lift restrictions on 9th August.

**Cyflwynydd:** Ministers in Edinburgh hope the last major legal limits including social distancing can be removed on the ninth of August, but no decision has yet been taken on whether masks will still be required on public transport and in shops.

**Baner ar y sgrin**: Coronavirus Wales to review restrictions next week.

In Wales, the Government will review the restrictions and outline any further lifting next week. The country's health minister said today that Wales was going to have to learn to live with Coronavirus, and they were weighing up the risks of catching COVID against lockdown effects on mental health and the economy.

**Baner ar y sgrin**: Coronavirus Live music resumes in Northern Ireland.

And some restrictions are being eased in Northern Ireland today with the return of live music and an increase in the number of households able to gather in a private garden. It's understood further relaxations will bJe discussed by the executive this week (BBC News at Ten, 5 Gorffennaf 2021).

Yn olaf, archwiliodd yr astudiaeth i ba raddau yr oedd y sylw a roddwyd i ffynonellau pleidiol-wleidyddol o sefydliadau datganoledig Cymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon (gweler Tabl 6.3). Roedd hyn yn cael ei ddosbarthu fel ffynonellau a oedd yn cyfeirio'n uniongyrchol neu anuniongyrchol. Mae "ffynhonnell anuniongyrchol" yn cyfeirio at newyddiadurwr yn cyfeirio at yr hyn y mae gwleidydd yn ei ddweud. Mae "ffynhonnell uniongyrchol" yn cyfeirio at wleidydd sydd naill ai'n ymddangos ar y sgrin (ar gyfer newyddion teledu) neu'n cael ei ddyfynnu mewn dyfynodau (newyddion ar-lein). Wrth gwrs, ni fyddem yn disgwyl i wleidyddion y sefydliadau datganoledig ymddangos na chael eu cynnwys ym mhob eitem sy'n berthnasol i ddatganoli. Ond mae'r graddau yr oeddent a'r gwahaniaethau cymharol rhwng newyddion yn helpu i ddarparu un mesur o faint o wleidyddiaeth ddatganoledig Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon sydd ar gael i gynulleidfaoedd newyddion rhwydwaith.

Tabl 6.3: Cyfran yr eitemau newyddion ar-lein a theledu rhwydwaith a oedd â ffynhonnell uniongyrchol neu uniongyrchol o wleidyddion y sefydliadau datganoledig (yn ôl nifer; N mewn cromfachau)

| Ffynonellau | Teledu 'r BBC | Teledu ITV | Teledu Sky | Teledu Ch.4 | Teledu Ch.5 | Gwefan y BBC | Gwefan ITV | Gwefan Sky | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Uniongyrchol ac anuniongyrchol | 1.9% (2) | 2.7% (2) | 0.9% (1) | 3.5% (4) | 1.9% (2) | 13.3 % (8) | 2.2% (1) | 3.1% (2) | 3.2% (22) |
| Uniongyrchol ond DIM anuniongyrchol | 1.9% (2) | 2.7% (2) | 0.9% (1) | 1.8% (2) | 3.7% (4) | 8.3% (5) | / | 3.1% (2) | 2.7% (18) |
| Anuniongyrchol yn unig | 9.4% (10) | 5.5% (4) | 2.8% (3) | 3.5% (4) | 1.9% (2) | 5.0% (3) | 6.5% (3) | 1.5% (1) | 4.4% (30) |
| Dim | 86.8 % (92) | 89.0 % (65) | 95.3 % (102) | 91.2 % (104) | 92.5 % (99) | 73.3 % (44) | 91.3 % (42) | 92.3 % (60) | 89.7% (608) |
| Cyfanswm | 100.0 % (106) | 100.0 % (73) | 100.0 % (107) | 100.0 % (114) | 100.0 % (107) | 100.0 % (60) | 100.0 % (46) | 100.0 % (65) | 100.0 % (678) |

*N = 678 = yr eitemau a oedd yn berthnasol i ddatganoli*

Mae tabl 6.3 uchod yn dangos nad oedd mwyafrif helaeth yr eitemau newyddion (89.7%) yn cynnwys naill ai ffynhonnell wleidyddol uniongyrchol neu anuniongyrchol gan gyrff gwleidyddol yng Nghymru, yr Alban na Gogledd Iwerddon. Unwaith eto, gwelsom fod sylw ar-lein – yn enwedig ar y BBC – yn fwy tebygol o gynnwys lleisiau gwleidyddion o'r sefydliadau datganoledig na newyddion teledu.

Ar draws pob un o'r 678 o eitemau a oedd yn berthnasol i ddatganoli, gwelsom fod 87 o wleidyddion o'r sefydliadau datganoledig wedi'u dyfynnu'n anuniongyrchol. Arweinwyr y gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon oedd y gyfran fwyaf o ffynonellau. Rhyngddynt, dyfynnwyd Arlene Foster (Cyn Brif Weinidog Gogledd Iwerddon) 12 gwaith (13.8%), cafodd Nicola Sturgeon (Prif Weinidog yr Alban) ei dyfynnu 16 gwaith (18.4%), a dyfynnwyd Mark Drakeford (Prif Weinidog Cymru) 5 gwaith (5.7%). Gyda'i gilydd, roeddent yn cyfrif am 37.9% o'r holl ffynonellau anuniongyrchol. Dyfynnwyd Jeffrey Donaldson, uwch wleidydd o Ogledd Iwerddon, 9 gwaith (10.3%), Edwin Poots 13 gwaith (17.9%) a Paul Givan 12 gwaith (13.8%). Roedd y rhain hefyd yn amlwg ar draws y sampl oherwydd dadleuon o fewn Plaid yr Unoliaethwyr Democrataidd (DUP) am ei arweinyddiaeth yn y dyfodol. Ni soniwyd yn anuniongyrchol am yr un gwleidydd arall o unrhyw blaid fwy na phedair gwaith ar draws y sampl pedair wythnos.

O ran ymddangosiadau uniongyrchol ar y sgrin, gwelsom 57 o wleidyddion o'r sefydliadau datganoledig. Roedd Nicola Sturgeon yn ymddangos 14 gwaith (24.6%), Arlene Foster 4 gwaith (7.0%), ac Edwin Poots 6 gwaith (10.5%). Nid oedd unrhyw unigolyn gwleidyddol arall (gan gynnwys Mark Drakeford) yn ymddangos yn uniongyrchol ar y sgrin fwy na thair gwaith ar draws y sampl.

# Cyfeirio at berthnasedd datganoli ar gyfer eitemau newyddion mewn penawdau teledu

**Crynodeb o brif ganfyddiadau'r bennod:**

Roedd yr holl olygyddion yn cydnabod yr anawsterau o gyfleu cymhlethdod datganoli o fewn amserlen gyfyngedig a bod llunio penawdau cryno yn her fwy byth.

Ar y cyfan, roedd tua hanner y penawdau a gafodd eu dadansoddi'n cyfeirio at un neu fwy o wledydd y DU, ond roedd y rhan fwyaf o'r cyfeiriadau hyn yn cyfeirio at Loegr yn unig. Nid oedd ychydig o dan hanner yn cynnwys unrhyw gyfeiriad daearyddol. Ar adegau, cyfeiriwyd at y DU yn gyffredinol heb enwi Lloegr yn benodol.

Roedd lefel y cyfeiriadau at ddatganoli mewn penawdau newyddion teledu yn amrywio'n sylweddol rhwng darlledwyr, gyda BBC News at Ten a Channel 4 at 7pm yn cyfleu'r eglurder mwyaf yn eu penawdau ynghylch perthnasedd datganoli.

Pan nad oedd pennawd yn cynnwys cyfeiriad at wlad yn y DU, roedd y stori'n tueddu i fod am Loegr, gyda chyfeiriadau cyffredinol at "y Llywodraeth" neu'r "Prif Weinidog" nad oedd yn nodi nad oedd penderfyniadau'n ymwneud â Lloegr yn berthnasol yn uniongyrchol i Gymru, yr Alban na Gogledd Iwerddon.

Yn gyffredinol, mae'r prif ddadansoddiad yn dangos bod llawer o gyfleoedd i ddarlledwyr gyfeirio at benawdau gyda mwy o fanylder daearyddol.

Gan ystyried eu hamlygrwydd ar ddechrau pob bwletin teledu, dadansoddodd yr astudiaeth yr holl benawdau newyddion teledu yr ystyrid eu bod yn berthnasol i ddatganoli dros y cyfnod sampl o bedair wythnos. Yn yr astudiaeth hon, cafodd penawdau eu diffinio fel *y prif straeon a amlygwyd gan gyflwynydd y newyddion ar ddechrau pob bwletin newyddion*. Roeddem wedi asesu lefel y cyfeirio yn y penawdau drwy edrych a oedd darlledwyr yn dweud a oedd eitem yn berthnasol i un neu fwy o bedair gwlad y DU, gan gymharu iaith a chyflwyniad gweledol y sylw.

Yn debyg i'r dadansoddiad o gynnwys, roeddem yn canolbwyntio ar eglurder penawdau mewn bwletinau teledu newyddion rhwydwaith drwy edrych a oeddent yn dangos *perthnasedd stori i gynulleidfaoedd ar draws y pedair gwlad*. Wrth wneud hynny, roedd yn ystyried sut roedd darlledwyr yn cyfathrebu pa un o bedair Llywodraeth y DU oedd yn gyfrifol am wneud penderfyniadau polisi mewn meysydd datganoledig, yn ymwneud yn bennaf â'r pandemig.

Fel y nodwyd yn flaenorol, roedd pob golygydd yn cytuno bod angen cyfeirio rhywfaint at adroddiadau domestig rheolaidd er mwyn i gynulleidfaoedd rhwydwaith ddeall a oedd y mater yn berthnasol i Loegr yn unig, neu i Gymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon, neu fwy nag un o wledydd y DU. Ond roeddent hefyd yn cydnabod yr heriau o ddeall cymhlethdod datganoli o fewn cyfnod cyfyngedig.

Roedd yr astudiaeth yn edrych ar yr holl benawdau bwletinau newyddion teledu dros y cyfnod sampl o bedair wythnos – cyfanswm o 486 – ac yn asesu a *ellid* bod wedi'u gwneud yn berthnasol i Gymru, Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon, neu unrhyw gyfuniad o'r pedwar. Wrth

wneud hynny, cynhyrchwyd is-sampl o 98 o benawdau rhwng y pum bwletin – BBC News at Ten, ITV News at Ten, Channel 4 at 7pm, Channel 5 at 5pm a Sky News at 10pm. Yna, edrychodd yr astudiaeth ar bob pennawd yn ôl a oedd yn sôn am un neu fwy o'r pedair gwlad, os oedd cyfeiriad at y DU neu Brydain yn gyffredinol yn unig, neu os nad oedd cyfeiriad daearyddol. Ystyriwyd bod 20 pennawd yn berthnasol i ddatganoli ar BBC News at Ten, ITV News at Ten a Channel 5 at 5pm. Ar Sky News, nodwyd bod 25 pennawd yn berthnasol i ddatganoli a 13 ar gyfer Channel 4 News at 7.

Wrth asesu faint o gyfeiriadau a roddwyd mewn pennawd, archwiliwyd pedair agwedd ynddo: yr hyn a ddywedodd y cyflwynydd, yr hyn a oedd yn cael ei ddangos yn weledol ar y sgrin (e.e. y faner fawr), yr hyn a oedd yn cael ei arddangos yn weledol ar y gwaelod (y faner dreigl), a'r hyn a ddywedwyd gan westeion neu ffynonellau (e.e. Boris Johnson). Roedd y pynciau'n amrywio llawer, gan gynnwys llacio cyfyngiadau COVID-19 ac absenoldebau o'r ysgol, ôl-effeithiau economaidd y cyfnod clo, a theithio i/o'r DU.

Ar y cyfan, roedd ychydig o dan hanner y penawdau a gafodd eu dadansoddi'n cyfeirio at un neu fwy o wledydd y DU – 46%, ond roedd y rhan fwyaf o'r cyfeiriadau hyn yn cyfeirio at Loegr yn unig. Nid oedd ychydig o dan hanner – 48.0% – yn cynnwys unrhyw gyfeiriad daearyddol, gan adael 5.1% a oedd yn cyfeirio at y DU neu Brydain yn unig yn gyffredinol (gweler Tabl 7.0).

Tabl 7.0: Y lefel o gyfeirio mewn benawdau newyddion teledu rhwydwaith yn y DU

| Math o gyfeirio | BBC | ITV | Ch. 4 | Ch. 5 | Sky News | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sôn am Gymru, Lloegr, yr Alban a/neu Ogledd Iwerddon | 75.0% (15) | 5.0% (1) | 76.9% (10) | 45.0% (9) | 44.0% (11) | 46.9% (46) |
| Cyfeirio at y DU/Prydain yn unig | 5.0% (1) | / | / | 10.0% (2) | 8.0% (2) | 5.1% (5) |
| Dim sôn am y DU/Prydain nac am un o'r pedair gwlad | 20.0% (4) | 95.0% (19) | 23.1% (3) | 45.0% (9) | 48.0% (12) | 48.0% (47) |
| Cyfanswm | 100.0 % (20) | 100.0 % (20) | 100.0 % (13) | 100.0 % (20) | 100.0% (25) | 100.0% (98) |

Fodd bynnag, roedd gwahaniaethau mawr yn y lefelau cyfeirio yn y penawdau rhwng bwletinau newyddion ar y teledu. BBC News at Ten a Channel 4 at 7pm oedd yn cyfleu'r eglurder mwyaf yn eu penawdau ynghylch perthnasedd datganoli.

Pan nad oedd pennawd yn cynnwys cyfeiriad at wlad yn y DU, roedd y stori'n tueddu i fod am Loegr, ond yn aml nid oedd hynny'n cael ei wneud yn amlwg.

Er enghraifft, edrychwch ar y pennawd hwn gan BBC News at Ten am lacio cyfyngiadau COVID-19 yn Lloegr:

**Cyflwynydd:** The final stage of easing COVID restrictions in England is delayed until the 19th of July. By that time 3/4 of all adults in the UK will have been offered two coronavirus vaccinations, making the lifting of restrictions less risky. Boris Johnson said that at some point people would have to learn to live with the virus, but right now it was best to be cautious.

**Boris Johnson**: Now is the time to ease off the accelerator, because by being cautious now we have the chance in the next four weeks to save many thousands of lives by vaccinating millions more people (BBC News at Ten, 14 Mehefin 2021).

Mewn penawdau nad oedd yn cynnwys cyfeiriad at wlad yn y DU, roeddent yn aml yn cynnwys cyfeiriadau cyffredinol at "y Llywodraeth" neu'r "Prif Weinidog", a ddim yn nodi nad oedd penderfyniadau'n ymwneud â Lloegr yn berthnasol yn uniongyrchol i Gymru, yr Alban na Gogledd Iwerddon.

Er enghraifft, ar yr un diwrnod roedd BBC News at Ten wedi enwi Lloegr (gweler yr enghraifft uchod), ni wnaeth ITV News at Ten na Channel 4 News at 7 hynny:

**Cyflwynydd:** It was a case of freedom delayed by a month, but there was plenty of good news too. The vaccines appear to work exceptionally well against the new variant indeed against all known variants.

**Boris Johnson**: Now is the time to ease off the accelerator. Because, by being cautious now, we have the chance in the next four weeks to save many 1000s of lives

**Cyflwynydd:** But as for foreign travel this summer [a reporter's] view tonight: Forget it. No chance (ITV News at Ten, 14 Mehefin 2021).


**Cyflwynydd:** Good evening from Downing Street where within the last hour the Prime Minister has admitted he is losing the race against the virus. He's moving the lockdown finishing line a month down the track and sprinting faster with the vaccine rollout. The June the 21st date had assumed a totemic significance for many in the country, and in his own party. The data was having none of it. So, 15 months after he first reluctantly deprived us of our liberties, Boris Johnson has been forced to act again, saying, 1000s more risk dying. He made some concessions, lifting restrictions on weddings and wakes. But Conservative MPs say they'll rebel when there's a Commons vote (Channel 4 News, 14 Mehefin 2021).

Roedd y BBC a Sky News yn arbennig yn defnyddio baneri ar y sgrin i gyfeirio at berthnasedd datganoli yn eu penawdau.

Yn gyffredinol, roedd darlledwyr yn cyfleu perthnasedd straeon domestig yn wahanol, naill ai drwy'r cyflwynydd yn datgan un neu ragor o wledydd y DU (Lloegr yn bennaf), neu drwy gyfeirio'n weledol ar y sgrin, neu drwy beidio â chyfeirio'n ddaearyddol yn y penawdau.

Er enghraifft, er na soniodd gyflwynydd Sky News am Loegr yn y pennawd ar 14 Mehefin 2021, roedd baner dreigl ar y sgrin yn enwi Lloegr.

**Baner ar y sgrin:** Prime Minister Boris Johnson has delayed the planned lifting of England's remaining coronavirus restrictions by four weeks until 19 July (Sky News at Ten, 14 Mehefin 2021)




Fel sianel newyddion treigl (yn hytrach na bwletin newyddion), Sky News at Ten oedd yr unig ddarlledwr a oedd yn arddangos baneri treigl ar y sgrin yn rheolaidd. Roedd y baneri hyn yn aml yn llawer mwy manwl ac addysgiadol na phennawd neu gyflwyniad i becyn. Yn wir, pan grybwyllwyd gwlad yn y DU ar Sky News, tri chwarter o’r amser roedd hynny’n cael ei ddangos ar faner dreigl fach ar y sgrin yn unig a oedd yn cyfeirio at Gymru, Lloegr, yr Alban a/neu Ogledd Iwerddon, yn hytrach na’i bod yn cael ei chyfleu ar lafar gan y cyflwynydd. Mae hefyd yn werth nodi bod y testun ar faneri treigl Sky yn llawer llai nag ar faneri mwy ar fwletinau eraill.

BBC News at Ten oedd yr unig fwletin lle roedd y pennawd ar y sgrin (baner fawr, yn hytrach na baneri treigl ar y sgrin Sky News) yn cyfeirio’n rheolaidd at wlad yn y DU (Lloegr). Mewn dros wyth o bob deg pennawd pan soniwyd am wlad yn y DU ar y BBC, y rheswm dros hynny oedd bod y cyflwynydd wedi datgan hynny, ond mewn dau bennawd roedd y faner a’r cyflwynydd wedi nodi Lloegr. Er enghraifft:

**Cyflwynydd:** Learning to live with COVID — the Prime Minister says he hopes to lift almost all of England's restrictions on July the 19th. Wearing face coverings would become voluntary, social distancing would end, nightclubs would reopen — a final decision will be taken next week.

**Boris Johnson:** But if we can't reopen our society in the next few weeks, when we will be helped by the arrival of summer and by the school holidays, then we must ask ourselves, when will we be able to return to normal.

**Baner ar y sgrin**: England Covid restrictions (BBC News at Ten, 5 Gorffennaf 2021).




Yn yr achos hwn, roedd y cyfuniad o gyfeirio at wlad ar lafar ac ar y sgrin yn golygu bod perthnasedd y cyfyngiadau uniaith Saesneg yn cael ei gyfleu'n glir i holl gynulleidfaoedd y rhwydwaith. Dim ond dau bennawd a welsom (y ddau ar BBC News at Ten) lle'r oedd y cyflwynydd yn tynnu sylw at wahaniaethau rhwng Lloegr a rhai o'r gwledydd datganoledig. Er enghraifft:

**Cyflwynydd:** Everyone over 18 in England will be able to book their first COVID jab by the end of this week. It's already the case in Wales and Northern Ireland (BBC News at Ten, 15 Mehefin 2021).

I'r gwrthwyneb, cyfeiriodd pennawd ITV ar yr un diwrnod at Loegr yn unig.

**Cyflwynydd:** All over 18s to be offered a vaccine in England by the end of this week (ITV News at Ten, 15 Mehefin 2021).

Yn y cyfamser, nid oedd cyflwynydd Channel 5 yn cyfeirio at Loegr na'r gwledydd datganoledig wrth adrodd ar yr un stori, nac ychwaith oedd pennawd Sky News at Ten.

**Cyflwynydd:** Also, a new vaccine promise. All adults over 18 to be offered the jab by the end of this week. Ministers say that pledge means the roadmap won't be delayed again (Channel 5 News at 5, 15 Mehefin 2021).

**Cyflwynydd**: 30 million people now fully jabbed, the race to make sure COVID restrictions, really can end in July (Sky News at Ten, 15 Mehefin 2021).

Fodd bynnag, roedd Sky News wedi cyfleu'n weledol y perthnasedd yn ei faner dreigl:

**Baneri rholio ar y sgrin**: Prime Minister Boris Johnson has delayed the planned lifting of England's remaining coronavirus restrictions by four weeks until 19 July … NHS England says it expects to invite everyone aged 18 and above for their first coronavirus jab by the end of this week… the Government says more than 30 million people in the UK have now been vaccinated with two doses of a COVID vaccine… (Sky News at Ten, 15 Mehefin 2021)




Unwaith eto, cafwyd lefelau gwrthgyferbyniol o fanylion mewn penawdau (neu faneri ar y sgrin) rhwng darlledwyr am benderfyniad gan Lywodraeth y DU sy'n effeithio ar Loegr.

Er enghraifft:

**Cyflwynydd:** A rise in COVID cases and hospital admissions, the Prime Minister refuses to rule out more lockdowns in what could be a rough winter, and things aren't looking any better for those looking to go abroad, either.

**Boris Johnson**: There will be hassle, there will be delays I'm afraid because the priority has got to be to keep the country safe (Channel 5 News at 5, 21 Mehefin 2021).

**Cyflwynydd:** Self-isolation and school bubbles are set to be scrapped as lockdown rules continue to be ditched. It means children can still go to class and workers head to work. But amidst the euphoria, what are the risks, politically, for the Government and medically, for us?

**Vox pop**: It's too much, too soon for the general population. And for those of us that feel vulnerable it's just going to push us back into our homes (ITV News at Ten, 6 Gorffennaf 2021).

Yn yr un modd, mewn pennawd arall gan ITV News am y ffaith bod Llywodraeth y DU wedi llacio cyfyngiadau COVID yn Lloegr, ni soniwyd am gyfeiriad daearyddol ond dywedodd un o Weinidogion Llywodraeth y DU "ein gwlad" nad yw efallai'n glir i gynulleidfaoedd ledled y DU os yw'n berthnasol neu beidio.

**Cyflwynydd:** Meanwhile, on the first day in the new job the new Health Secretary was bullish. No going back - Sajid Javid's bold claim that restrictions must end next month.

**Sajid Javid**: For me, 19th July, is not only the end of the line, but the start of an exciting new journey for our country (ITV News at Ten, 28 Mehefin 2021).

Yn olaf, roeddem hefyd wedi dod o hyd i ychydig o eitemau a oedd yn fframio darpariaeth ledled y DU neu Brydain. Er enghraifft, sylw Channel 5 i'r system goleuadau teithio:

**Cyflwynydd:** British holiday makers get a much-needed boost as more countries are added to the green travel list (Channel 5 News at 5, 25 Mehefin 2021).

Mae'n werth nodi hefyd bod defnyddio'r term 'Prydeinig' yn eithrio Gogledd Iwerddon.

# Astudiaethau achos cymharol ynghylch adrodd ar ddatganoli

Dewiswyd tair stori yn ystod y cyfnod sampl i archwilio'r broses adrodd yn fwy manwl. Roedd hyn yn cynnwys y sylw a roddwyd i reolau teithio rhyngwladol ar gyfer pobl ledled y DU y cytunwyd arnynt gan y pedair gwlad (astudiaeth achos 1), adrodd ar 'Ddiwrnod Rhyddid' fel y'i gelwir, a oedd yn golygu cael gwared ar holl gyfyngiadau COVID-19 yn Lloegr (astudiaeth achos 2) yn ogystal â chanllawiau Llywodraeth y DU i ysgolion am reolau COVID-19 yn Lloegr (astudiaeth achos 3). Mae'r atodiad yn cynnwys dadansoddiad cymharol manylach, ond isod ceir crynodeb mwy cryno o bob astudiaeth achos. Ar draws y tair astudiaeth achos, roedd y canfyddiadau ansoddol yn cyd-fynd yn fras â'r data meintiol, fel defnyddio cyfeiriadau mwy penodol mewn newyddion ar-lein o'i gymharu â newyddion teledu, a labelu mwy rheolaidd ar bwerau datganoledig ar newyddion y BBC o'i gymharu â chyfryngau masnachol (gweler Tabl 8.0 er enghraifft).

## Astudiaeth achos 1: Adrodd am deithio rhyngwladol

Drwy gydol mis Mehefin a mis Gorffennaf 2021, roedd y rheolau ynghylch teithio rhyngwladol o'r DU yn bwnc llosg. Roedd hyn yn cynnwys system deithio goleuadau traffig, gyda'r rheolau'n cael eu cyfleu yn ôl rhai gwledydd yn cael eu labelu'n "goch" (a oedd yn gofyn am gyfnod cwarantin ar ôl cyrraedd y DU), "melyn" (angen cyfnod cwarantîn os nad oeddech wedi'ch brechu'n llawn) neu "wyrdd" (dim angen cyfnod cwarantîn). Roedd hwn yn ddull gweithredu cydlynol gan y DU gyfan, ond yn bwysig iawn, roedd yn golygu gwneud penderfyniadau datganoledig gyda'r pedair llywodraeth yn y DU yn cytuno i'r system goleuadau traffig yn hytrach na bod Llywodraeth y DU yn gwneud penderfyniad ar gyfer y DU gyfan. Er bod pob un o'r pedair gwlad, yn ymarferol, wedi mabwysiadu'r un dull yn fras, roedd yn dal yn fater i lywodraethau Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ddeddfu, gan fod Llywodraeth y DU yn gyfrifol am Loegr yn unig. Y rheswm am hyn yw bod rheolau ar osod pobl dan gwarantin wrth ddychwelyd o deithio rhyngwladol wedi'u gwneud o dan ddeddfwriaeth iechyd y cyhoedd, sy'n gyfrifoldeb i'r llywodraethau datganoledig. Mae ein dadansoddiad yn archwilio i ba raddau y cafodd y cyd-destun hwn ei gyflenwi mewn darpariaeth dros gyfnod y sampl.

### Crynodeb o'r prif ganfyddiadau

- Yn gyffredinol, nid oedd llawer o achosion lle nodwyd yn glir bod y rheolau ynghylch teithio rhyngwladol yn cael eu penderfynu gan y pedair gwlad a bod y system goleuadau traffig yn ddull gweithredu ar y cyd.
- Roedd y rhan fwyaf o'r eitemau'n dweud eu bod yn berthnasol i Loegr, ond yn aml yn anwybyddu'r gwledydd datganoledig neu'n cyfeirio'n gyffredinol at y DU. Gan fod y dull gweithredu o ran teithio rhyngwladol yn debyg ar draws y DU i raddau helaeth, mae'n bosibl bod ychwanegu cafeat yn rheolaidd ynghylch priodoli pwerau ar draws y pedair gwlad wedi cael ei ystyried yn ddiangen o safbwynt golygyddol. Ond, wrth wneud hynny, roedd yn cyfyngu ar y cyfleoedd i wneud datganoli'n weladwy i gynulleidfaoedd ac efallai ei fod wedi gwneud iddynt feddwl mai penderfyniad Llywodraeth y DU yn unig ydoedd a wnaed yn annibynnol ar y tair gwlad arall.

- Roedd rhai eitemau'n defnyddio 'y DU' yn gyfnewidiol â 'Lloegr', gan adael cynulleidfaoedd yn ddryslyd ynghylch atebolrwydd gwleidyddol penderfyniadau a wnaed am deithio rhyngwladol yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.
- Nid oedd llawer o eitemau'n sôn am Loegr na hyd yn oed y DU ond roeddent yn defnyddio Prif Weinidog y DU a/neu weinidogion Llywodraeth y DU i esbonio newidiadau mewn teithio rhyngwladol.

## Ychydig o gyfeiriadau a welwyd at y pedair gwlad

Yn gyffredinol, nid oedd llawer o achosion lle nodwyd yn glir bod y rheolau ynghylch teithio rhyngwladol yn cael eu penderfynu gan y pedair gwlad a bod y system goleuadau traffig yn ddull gweithredu ar y cyd. Hyd yn oed pan roeddent yn gwneud hynny, y rhan fwyaf o'r amser roedd hyn yn fyr ac ar ddiwedd eitem. Felly, er enghraifft, nododd eitem ar wefan BBC News hyn yn benodol mewn diweddariad ar y system goleuadau traffig teithio tramor, ond tua diwedd yr eitem dywedwyd:

> The UK Government's traffic light system applies to England, with Scotland, Wales and Northern Ireland able to make their own rules. However, the rules are broadly the same and previous changes to the lists have been adopted by all four nations (BBC News Online, 24 Mehefin 2021).

Pan wnaed newidiadau i system gwarantin Lloegr, yn dilyn cyflwyniad cyflwynydd i'r newidiadau sydd ar y gweill i gyfyngiadau teithio rhyngwladol a oedd yn berthnasol i bobl sy'n byw yn Lloegr, nododd gohebydd newyddion teledu'r BBC yn benodol y gwahanol ofynion profi sydd eu hangen ledled y DU wrth ddychwelyd i Gymru, Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon.

> ... Today's announcement is the most significant change to international travel seen this year. From the 19th of July, anyone fully vaccinated doesn't need to quarantine when they travel from an amber list country to England, but they will still need to take a test before they travel, and another PCR test on arrival. ...... For now, this is only open to those jabbed in the UK. Northern Ireland has said it will do the same from the 26th of July, a week later, Scotland and Wales are yet to announce whether they'll adopt the policy (BBC News at Ten, 8 Gorffennaf 2021).

Ar ITV News at Ten, roedd cafeat byw ddwy ffordd yn nodi bod yn rhaid i Lywodraeth y DU gytuno â'r cyrff datganoledig ynghylch dod i benderfyniad ar reolau tramor newydd y DU. Er na chyfeiriwyd yn benodol at y cyrff gwleidyddol yng Nghymru, yr Alban na Gogledd Iwerddon, cyfeiriodd y cyfeiriadau at Gaeredin, Caerdydd a Belfast at wneud penderfyniadau datganoledig ar draws y DU:

> It looks pretty likely I have to say. The Government is going to hold a meeting later this week, where they're going to discuss this plan with the devolved administration. So it does have to be signed off by Edinburgh, Cardiff and Belfast, but the plan that's in front of them, should they decide to go for it, could be in place by, I'm told, July or August (ITV News at News, 22 Mehefin 2021).

Yn y cyfamser, eglurodd gohebydd Channel 4 News nad penderfyniad Llywodraeth y DU yn unig oedd y rheolau ynghylch teithio rhyngwladol drwy gyfeirio at "y gwledydd" a Gogledd Iwerddon yn benodol:

… We thought it (the Government) would add the countries that would be in addition to the green list hours ago but it is still likely to come tonight, we hope, but perhaps it is stuck in a holding pattern! What I can tell you is that Northern Ireland has released an updated list. Remember, the nations imposed travel restrictions separately but clearly there is a lot of common ground…. Also Northern Ireland has slightly stolen the marge on the passport vaccination front, announcing theirs will hopefully be live on July 19 (Channel 4 News at 7pm, 21 Mehefin 2021).

Ychydig ddyddiau'n ddiweddarach, cyfeiriodd Channel 4 at Ogledd Iwerddon eto ar ddechrau'r eitem newyddion, gan gyfeirio at - yn hytrach na thynnu sylw'n benodol - y ffaith y gallai system goleuadau traffig ddiwygiedig Llywodraeth y DU fod ar gyfer Lloegr yn unig o ystyried bod y pedair gwlad yn gallu rhoi rheolau gwahanol ar waith.

The Government's announcement has finally landed and it's very similar to what we heard from Northern Ireland. Ibiza, Majorca, Madeira, much of the Caribbean is on the green list. That means that travellers coming from there do not have to quarantine… (Channel 4 News, 24 Mehefin 2021).

Mewn eitem newyddion teledu Sky News, cyfeiriodd y cyflwynydd at y "pedair gwlad" yn hytrach na Llywodraeth y DU yn gwneud penderfyniad yn *unigol* am deithio rhyngwladol. Ond roedd cyfeiriad hefyd at 'deithwyr o Brydain', sydd ddim, yn dechnegol, yn cynnwys pobl o Ogledd Iwerddon.

All four nations of the UK have tonight liberalized the restrictions on travel and the Prime Minister says there'll be a further loosening later in the summer. Several countries have been added to the green list, and those who've been vaccinated twice could soon be spared quarantine on return from amber list countries. While in Europe British travel makers can now not travel to Malta, Madeira and Spain's Balearic Islands, such as Ibiza without quarantining on their return… The changes come into effect on Wednesday (Sky News, 24 Mehefin 2021).

Yn olaf, fe wnaethom nodi tair eitem – ar Channel 5, Sky News ac ITV News Online – a oedd yn cyfeirio at gyfres o brotestiadau cyhoeddus am y system goleuadau traffig yn Lloegr a rhai o'r gwledydd datganoledig, ond nid oedd yr adroddiadau'n cysylltu unrhyw benderfyniad yn benodol â Llywodraethau Cymru, yr Alban na Gogledd Iwerddon.

### Roedd llawer o'r eitemau newyddion yn yr astudiaeth achos hon yn gwirio bod penderfyniad Llywodraeth y DU yn berthnasol i Loegr a oedd, o leiaf, yn gyfeiriad ymhlyg at ddatganoli.

Er enghraifft, dywedodd Channel 4 News 'Lloegr' cyn sôn am benderfyniadau am gyfyngiadau teithio:

> **Cyflwynydd:** Now, the Government has defended its decision to delay the final lifting of England's Lockdown as new figures show more than 16,000 daily COVID cases were reported in the UK today. Around 60% of adults have now had both doses of the vaccine. And the travel industry is urging the Government to relax restrictions on international travel in time for the summer season — warning that thousands more jobs will be at risk (Channel 4 News at 7pm, 23 Mehefin 2021).

Ar Sky News ac ITV News, roedd rhai eitemau'n cysylltu penderfyniad Llywodraeth y DU ynghylch teithio rhyngwladol yn Lloegr â chael gwared ar yr holl gyfyngiadau ar Orffennaf 19:

> Cyflwynydd: The Prime Minister has struck an optimistic tone on the prospects of July the 19th, being the day COVID restrictions in England can be lifted - saying it was 'looking good'. But Boris Johnson played down suggestions that the rules on foreign holidays could be relaxed, warning that this will be a difficult year for travel (Sky News, 21 Mehefin 2021).

> **Cyflwynydd:** While we now expect COVID restrictions in England to be lifted in July, fingers crossed, one thing we're still very uncertain about is international travel (ITV News, 16 Mehefin 2021).

Roedd eitem ar-lein Sky News yn cyfeirio'n benodol at Loegr wrth adrodd ar oblygiadau rhoi India ar y rhestr goch:

> It is possible that putting India on the red list earlier might have prevented the widely anticipated delay to easing England's coronavirus lockdown that is set to be announced later, a Minister has said (Sky News online 14 Mehefin, 2021).

Ar adegau, roedd yn cael ei adael i ffynonellau allanol – yn hytrach na newyddiadurwyr – ddatgan ei fod yn berthnasol i Loegr yn unig.

> Grant Shapps said double-jabbed people who travel to these countries won't need to self-isolate for 10 days on their return back to England (ITV News, 8 Gorffennaf 2021).

Yn y cyfamser, defnyddiodd Sky News sianel gyfryngau i gyfeirio at berthnasedd Lloegr:


> The Health Secretary's comments come after The Times reported that Ministers are set to announce a change to England's travel restrictions as soon as Thursday (Sky News online 22 Mehefin, 2021).

Mewn rhai eitemau, defnyddiodd Sky News ffeithlun hefyd i roi gwybod i wylwyr am y perthnasedd i Loegr yn hytrach nag ym mhrif destun eitem ar-lein. Er enghraifft, y graffeg isod *COVID-19 Traffic Light*: *What you should do when you return to England from these countries* (Sky News Online, 25 Mehefin 2021). Yn yr enghraifft hon, roedd y print mân o dan "Source" yn nodi y gall cyfyngiadau teithio fod yn wahanol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Main restrictions:

- Red list: Pre-departure test, hotel-quarantine for 10 days plus PCR test on day 2 and 8.
- Rest of the world: Day 2 test for **fully vaccinated** travellers. Pre-departure test, quarantine for 10 days, and test on day 2 and 8 for **unvaccinated people**.

You do not need to take a COVID-19 test or quarantine on arrival in England if you are travelling within the **Common Travel Area**




SOURCE: Department for Transport and Department of Health and Social Care • Countries in the Common Travel Area: the UK, Ireland, the Channel Islands and the Isle of Man. Travel restrictions may differ in Scotland, Wales and Northern Ireland. Regions in some nations may have been put into a different category than the rest of the country.
Data updated at 09:01 11 October 2021

Roedd nifer o eitemau eraill Sky News yn canolbwyntio i ddechrau ar reolau teithio'r DU, ond ar ddiwedd rhai adroddiadau cyfeiriwyd yn benodol at Loegr. Er enghraifft, eitem Sky News Online â'r pennawd: "*Malta, Balearic and Caribbean islands added to UK travel green list from today*". Dechreuodd drwy fframio'r stori am y DU, ond roedd y frawddeg olaf yn cyfeirio at reolau yn Lloegr: "*The next travel review will take place before the planned final easing of coronavirus restrictions in England on 19 July*" (Sky News Online 30 Mehefin, 2021).

Roedd enghreifftiau ar y teledu ac ar-lein o adrodd ar deithio rhyngwladol a oedd yn cyfeirio at un o *benderfyniadau Llywodraeth y DU*, heb gynnwys rôl y gwledydd datganoledig. Fel yr amlinellwyd uchod, weithiau roedd cyfeiriadau penodol at y gwledydd datganoledig neu Loegr yn cyd-fynd â'r cyfeiriad unigol hwn at y Llywodraeth. Ond mewn llawer o'r sylw, ychydig o gyfeiriadau cyffredinol oedd at y DU neu Brydain. Yn aml, Llywodraeth y DU a Boris Johnson oedd yr unig gymeriadau yn y stori.

Felly, er enghraifft, roedd eitem newyddion ar Channel 5 yn canolbwyntio ar gynlluniau teithio personol y Prif Weinidog dros yr haf. Dywedodd y cyflwynydd nad oedd y Prif Weinidog yn diystyru mynd ar ei wyliau dramor dros yr haf, bod cyfle i lacio'r cyfyngiadau teithio ar gyfer pobl sydd wedi'u brechu'n llawn, ac y byddai'r Llywodraeth yn gwneud cyhoeddiad cyn bo hir. Ychwanegodd gohebydd arall yn ddiweddarach:

The summer is beckoning, and today we had the strongest hint yet that destinations like these could be unlocked for anyone who has had two vaccinations. It came from the top. But this isn't just up to the British. Chancellor Merkel from Germany wants all EU countries to quarantine arrivals from the UK (Channel 5 News, 24 Mehefin 2021).

Mae 'Prydeinig' yn yr eitem hon yn cael ei ddefnyddio'n gydgyfnewidiol â'r 'DU'. Yn dechnegol, nid yw Prydain yn cynnwys Gogledd Iwerddon ac efallai ei bod wedi achosi i gynulleidfaoedd feddwl bod y rheolau wedi cael eu penderfynu gan Brif Weinidog y DU yn hytrach na phedair gwlad y DU. Yn yr un modd, pan ddywedodd cyflwynydd Channel 5 wrth yr adroddwr "*some encouraging noises but are we going to see any changes to the travel restrictions any time soon?*", yr ymateb oedd "*Tomorrow we are due to get an update on the Government's traffic light system for the different countries*" (Channel 5 News, 23 Mehefin 2021). Cyfeirir at un o benderfyniadau'r Llywodraeth yn yr enghraifft hon yn hytrach na chyfeirio at rôl y llywodraethau datganoledig.

Yn yr un modd, pan ofynnodd cyflwynydd Sky News i adroddwr "*[if] the Government has gone further allowing travel to some popular destinations*" (24 Mehefin 2021), arweiniodd y drafodaeth unwaith eto i ganolbwyntio'n gyfan gwbl ar y Prif Weinidog a Llywodraeth y DU. Yn yr un modd, mewn eitem Sky News y diwrnod hwnnw, nid oedd unrhyw gyfeiriadau at Gymru, yr Alban na Gogledd Iwerddon, ond roedd y darnau a oedd yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar rôl Llywodraeth y DU a'i system goleuadau traffig:

Boris Johnson has indicated that a relaxation of travel rules for those who have had two doses of a coronavirus vaccine is on the horizon. ……… Transport Secretary Grant Shapps will also "outline the next steps for international travel", a hint that there may be more said about travel for those who have been fully vaccinated… Health Secretary Matt Hancock told Sky News on Tuesday that quarantine-free travel to amber list countries for people who have had two jabs is "absolutely something" the Government is "working on" (Sky News, 24 Mehefin 2021).

Er bod y BBC wedi cyfeirio'n fwy rheolaidd at gynnwys y gwledydd datganoledig yn nhrefniadau teithio'r DU na'r cyfryngau masnachol, roedd cwpl o eitemau ar-lein a oedd yn canolbwyntio ar y ffaith bod unrhyw benderfyniad ynghylch teithio rhyngwladol ar lefel Lywodraethol y DU yn unig. Er enghraifft:

The Government's expansion of the UK's green travel list does not go far enough, industry leaders have warned… Transport Secretary Grant Shapps also said the Government plans to drop quarantine for fully vaccinated people returning from amber list countries "later in the summer"… Among the places being added to the UK's green list is Malta, …. … The Department for Transport said the plan to allow fully vaccinated people to arrive from amber list countries without having to quarantine will take place in phases, starting with UK residents (BBC News online, 25 Mehefin 2021).

Mewn enghraifft ar BBC News at Ten, cafodd y system goleuadau traffig ei dehongli hefyd fel un o benderfyniadau'r Llywodraeth pan ddywedodd *"….so this is the longest green list we've seen since the Government introduced these traffic light measures … The Government knows that they've got plenty of questions to sort out with that before they're allowed to introduce it. So, potentially, a small step in the right direction for the industry, but maybe a bit of a shaky one."* (24 Mehefin 2021). Drwy nodweddu'r system goleuadau traffig fel un sy'n cael ei gyrru gan y DU

ac sy'n cyfeirio at un Lywodraeth yn unig, anwybyddwyd pwerau Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon mewn rhai eitemau BBC News.

Roedd llawer o eitemau nad oedd ganddynt label daearyddol yn y DU ynghylch perthnasedd teithio dramor. Er enghraifft, mewn pecyn newyddion hir ar ITV ar 24 Mehefin 2021 a oedd yn cynnwys cyfres o vox pops ym maes awyr Manceinion, nid oedd sôn am unrhyw rôl llywodraethol genedlaethol benodol, ond roedd sôn am Ysgrifennydd Trafnidiaeth y DU (gyda chyfrifoldeb dros Loegr). Yn y ffrwd ddwy ffordd ddilynol, gofynnodd y cyflwynydd i'r gohebydd egluro rhywfaint o'r wleidyddiaeth o'i amgylch, ond unwaith eto, nid oedd yr ymateb yn cynnwys unrhyw sôn am y gwledydd datganoledig. Yn yr un modd, bu trafodaeth ddwy ffordd fyw gydag un o newyddiadurwyr Channel 4 News a oedd yn archwilio penderfyniadau amrywiol Llywodraeth y DU, gan gynnwys opsiynau ynghylch teithio rhyngwladol, heb ddarparu'r cafeat y gallai fod yn berthnasol i Loegr yn unig, neu fod angen cytundeb gyda'r gweinyddiaethau datganoledig. Mae'r enghreifftiau hyn i gyd wedi'u nodi'n llawn yn yr atodiad.

# Astudiaeth achos 2: Adrodd am 'Ddiwrnod Rhyddid' (Freedom Day) Lloegr

Cyhoeddodd y Prif Weinidog, Boris Johnson, ym mis Chwefror 2021 y byddai'n cael gwared ar holl gyfyngiadau COVID-19 yn Lloegr ar 21 Mehefin. Roedd y diwrnod yn cael ei adnabod yn eang fel 'Diwrnod Rhyddid', er ei fod wedi cael ei ohirio tan 19 Gorffennaf yn ystod cyfnod sampl ein hastudiaeth. Yn bwysig iawn, cyhoeddiad Llywodraeth y DU oedd cynllun polisi a oedd yn berthnasol i Loegr yn unig, gyda'r gweinyddiaethau datganoledig eraill yn nodi eu cynlluniau eu hunain ar gyfer llacio cyfyngiadau ar gyflymder gwahanol. Roedd yr astudiaeth achos hon nid yn unig yn edrych i ba raddau yr oedd bwletinau newyddion teledu a safleoedd ar-lein yn egluro perthnasedd 'Diwrnod Rhyddid' i Loegr, ond hefyd yn dangos y gwahanol strategaethau ymadael gan y Llywodraethau datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

## Crynodeb o'r prif ganfyddiadau

Dyma brif ganfyddiadau'r astudiaeth achos hon:

- Yn y rhan fwyaf o'r sylw, ar newyddion teledu ac ar-lein, nodwyd bod 'Diwrnod Rhyddid' yn berthnasol i Loegr yn unig. Ond roedd eglurder y cyfeiriadau daearyddol, ar adegau, yn wahanol ar draws darlledwyr a safleoedd ar-lein, gyda ffyrdd gwrthgyferbyniol o gyflwyno gwybodaeth lafar ac yn weledol er mwyn cyfleu'r perthnasedd i Loegr yn unig.
- Roedd nifer o eitemau newyddion y BBC – a rhai ar draws y darparwyr newyddion masnachol – yn nodi'r perthnasedd uniongyrchol i Loegr a phenderfynu archwilio'r cynlluniau COVID-19 gwahanol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Er mai dim ond cyfeiriadau byr oeddent yn aml, roeddent yn dweud yn glir bod penderfyniad Llywodraeth y DU yn berthnasol i Loegr, tra'n cyferbynnu'r polisi ag ymateb y gweinyddiaethau datganoledig, a oedd weithiau'n wahaniaethau main iawn. Wrth wneud hynny, fe wnaethant dynnu sylw cynulleidfaoedd at bwerau'r Llywodraethau datganoledig a hwy oedd yn gyfrifol am y penderfyniadau hyn, yn hytrach na Llywodraeth y DU.
- Yn olaf, fe wnaethom nodi rhywfaint o sylw am gael gwared ar gyfyngiadau COVID-19 ar draws y cyfryngau masnachol lle cyfeiriwyd at Loegr yng nghyflwyniad eitemau, ond lle na chafodd hynny ei ailadrodd yn ddiweddarach gan ohebwyr a chyflwynwyr.

## Eglurder y cyfeiriad daearyddol yn amrywio ar draws darlledwyr

Ar y teledu ac ar-lein, rhoddodd y BBC fwy o sylw i'r ffaith bod y Prif Weinidog yn llacio cyfyngiadau a oedd yn berthnasol i Loegr na'r cyfryngau masnachol, a hefyd yn nodi'r gwahaniaethau rhwng Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Er enghraifft, roedd cyflwynydd BBC News wedi datgan Lloegr yn glir yn y cyflwyniad agoriadol ac, ar ôl pecyn gan ohebydd, cyfeiriodd yn benodol at y ffaith bod y polisi'n benodol i Loegr a thynnu sylw at gynlluniau'r gwledydd datganoledig:

**Cyflwynydd:** The COVID restrictions in England will not be fully lifted until the 19th of July. Boris Johnson said that the four-week delay was to allow more people to be vaccinated, given the sharp rise in the number of new cases of the Delta variant. The Chief Medical Officer for England, Chris Whitty, said that the NHS would run into trouble if all the restrictions were eased on the 21st of June which was what was originally intended. Many businesses, especially in the hospitality industry are warning of serious consequences for jobs because of the delay. So, the restrictions in England will stay until July the 19th, though there will be a review in two weeks' time. But the limit of 30 people attending weddings and funerals, well that will be lifted immediately. And residents in care homes will no longer have to quarantine for 14 days when they return from a visit outside (…)

**Cyflwynydd:** Just to underline today's announcement applied to England. In Scotland, all areas are set to move to level zero restrictions on the 28th of June, meaning that bigger groups can gather in cafes, in pubs and restaurants. A decision on easing restrictions in Wales is expected this Friday. And limits on indoor gatherings in Northern Ireland are scheduled to be relaxed on the 21st of June…

Mewn sgwrs ddwy ffordd fyw ddilynol, ychwanegodd un o ohebwyr y BBC gafeat hefyd:

**Gohebydd:** You referred to the other nations in the UK, and we will hear more in the coming days about their plans, but I think we are still in a moment where our leaders are going to be asking all of us to be patient and still to take this seriously and take good care (BBC News at Ten, 14 Mehefin 2021).

Ychydig dros wythnos yn ddiweddarach, roedd eitem newyddion arall gan y BBC am lacio cyfyngiadau Lloegr yn cymharu strategaethau polisi'r gwledydd datganoledig yn glir, gan gynnwys baneri ar y sgrin a oedd yn labelu newidiadau arfaethedig ym mhob gwlad. Mae'r enghraifft isod ar gyfer Gogledd Iwerddon, a defnyddiwyd baneri tebyg ar gyfer Cymru a'r Alban hefyd:

**Cyflwynydd:** Well, the Governments in Scotland, Wales and Northern Ireland will set out their own timetables for lifting restrictions later this month. Scotland currently has the highest COVID rates in Europe, according to the World Health Organization, and is expected to loosen some restrictions on the 19th of July...

**Baner ar y sgrin:** Coronavirus Live music resumes in Northern Ireland




And some restrictions are being eased in Northern Ireland today with the return of live music and an increase in the number of households able to gather in a private garden. It's understood further relaxations will be discussed by the executive this week (BBC News at Ten, 5 Gorffennaf 2021).

Yn dilyn adroddiad am gael gwared ar gyfyngiadau Lloegr, dangosodd yr eitem hon yn glir – yn weledol ac ar lafar – y penderfyniadau polisi penodol rhwng Lloegr a'r gweinyddiaethau datganoledig. Roedd eitemau eraill ar newyddion teledu'r BBC, ITV, Channel 4 a Channel 5 a oedd yn ymwneud yn benodol â chael gwared ar gyfyngiadau yn un o'r gwledydd datganoledig, ond nid oeddent yn cymharu dulliau gweithredu ar draws y gwledydd.

Ar draws y cyfryngau masnachol, roedd rhai eitemau ar-lein – ar ITV a Sky News – yn cysylltu 'Diwrnod Rhyddid' â Lloegr, yn ogystal â dangos rhai gwahaniaethau â'r gwledydd datganoledig. Er enghraifft, roedd un pennawd ITV News, yn dweud: *"Boris Johnson to confirm England's June 21 'Freedom Day' delay with 6pm announcement"* (ITV News, 14 Mehefin 2021). Drwy gydol paragraffau agoriadol yr eitem hon, soniwyd am Loegr, a darparwyd dolen a oedd yn dweud: *"What are the next steps in lifting lockdown in Scotland, Wales and Northern Ireland?"*. Roedd yr erthygl a agorodd drwy glicio'r ddolen wedyn yn rhoi manylion am bob un o strategaethau COVID y pedair gwlad.

Roedd blog byw Sky News o newyddion y dydd yn cydnabod bod map ffordd Lloegr yn wahanol i rai o'r gwledydd datganoledig. Fodd bynnag, roedd angen i gynulleidfaoedd naill ai glicio ar hyperddolenni perthnasol neu flogiau byw i gael rhagor o wybodaeth am wahaniaethau datganoledig yn Lloegr ac i gael esboniad am ddewisiadau polisi gwrthgyferbyniol.

Wales has joined both England and Scotland in delaying plans to ease lockdown restrictions due to fears of the impact of the variant on hospital admissions.

Scientific advisers believe a four-week delay in easing rules will be enough time to determine whether vaccinations have broken the link between getting ill and hospitalisation.

But Mr Drakeford insisted the delay will not be extended indefinitely "in search of perfection" from scientists if their findings are inconclusive. You can read more on the four-week delay in Wales here (Sky News Online, 18 Mehefin 2021).

## Mae Lloegr yn cael ei datgan yn rheolaidd mewn sylw'n ymwneud â'r 'Diwrnod Rhyddid'

Roedd y rhan fwyaf o'r eitemau newyddion a gofnodwyd yng nghyd-destun 'Diwrnod Rhyddid' yn cyfeirio at Loegr wrth roi gwybod am gyhoeddiad Llywodraeth y DU y byddai'n cael gwared ar bob cyfyngiad. Roedd y cyflwynydd a'r gohebydd mewn nifer o eitemau BBC News at Ten, er enghraifft, yn dweud yn glir "yn Lloegr" yn eu cyfraniadau:

**Cyflwynydd:** There is no reason for the current COVID restrictions in England to last beyond the 19th of July, according to the new Health Secretary, Sajid Javid, who said today that people would have to learn to live with Coronavirus in the longer term (...)

**Gohebydd:** (...) The cases continue to rise though and switching Health Secretary in a pandemic is far from ideal. Even if it's a return to Government for a familiar face. Sajid Javid has already been the Home Secretary, and the Chancellor. Now, as Health Secretary, he's also giving heavy hints that the Ministers are on course to lift the remaining restrictions in England, in three weeks (...) (BBC News at Ten, 28 Mehefin 2021).

Yn yr un modd, eglurodd cyflwynydd a gohebydd ITV News fod cynlluniau'r Prif Weinidog i gael gwared ar y cyfyngiadau yn berthnasol i Loegr, gan gynnwys cyfeirio at Public Health England:

**Cyflwynydd:** Good evening. Let's not beat around the bush. We were all really, really looking forward to COVID restrictions being lifted in England, at least on the 21st of June, so called Freedom Day. Well. No more. The rapid spread of the Delta Varian first found in India means one of the Prime Minister’s four tests for easing lockdown has been failed. And so, June, the 21st becomes July the 19th. What's a month between friends? But he did insist that really would be the end of all restrictions, unless of course another variant turns out. He said the four-week delay came down to a choice between potentially 1000s of deaths or giving the NHS more time to fully vaccinate those more at risk. So far, just a bit gloomy but there was some spectacularly good news too. Public Health England said that the vaccines worked extremely well against the variant when it comes to preventing serious illness.

**Gohebydd:** The long slog isn't over yet, the roadmap will now take a different route, as the Delta variant has persuaded the Prime Minister to delay reopening to get more vaccinations done (…) The concern is that in Northwest England infections are doubling every week and hospitalisations are ramping up. If that's repeated England wide, there is a problem (…) Although the Prime Minister is delaying the lifting of restrictions in England until the 19th of July, he's open to lifting them on the fifth, if the data suddenly improves… (ITV News at Ten, 14 Mehefin 2021)

I’r gwrthwyneb, mewn rhai eitemau Channel 4, y cyflwynydd yn unig oedd yn datgan y perthnasedd i Loegr. Ar adegau, fodd bynnag, roedd rhai eitemau newyddion teledu yn dangos yn weledol eu perthnasedd i Loegr yn unig. Er enghraifft, y faner ar y sgrin oedd yn nodi “the delay to the easing of Covid restrictions in England”:




**Baner ar y sgrin**: *MPs have voted 461 to 60 to extend regulations that delay the easing of Covid restrictions in England from 21 June to 19 July*

Mewn un eitem ar ITV News, eglurodd un cyflwynydd y perthnasedd i Loegr yn unig, a defnyddiwyd baner ar y sgrin hefyd i gadarnhau i wylwyr fod y cyfyngiadau’n berthnasol i Loegr.

**Cyflwynydd:** Good evening. He had said it would be about the data and not the date. But as the Prime Minister set out how he was planning to lift almost all the COVID restrictions in England on July the 19th, he acknowledged that by then the data might be showing 50,000 cases of COVID a day and he said if we can't reopen in the next few weeks, then when?...

**Graffig ar y sgrin** (un o bedwar graffeg tebyg a ddangoswyd): What's changing in England from July 19th? ...




(ITV News at Ten, 5 Gorffennaf 2021)

Mewn newyddion ar-lein, gwelsom rai eitemau yn sôn am Loegr yn y pennawd yn ogystal ag yn y paragraff agoriadol. Er enghraifft:

**Pennawd:** Covid: England 'set fair' for July 19 lockdown easing says Boris Johnson.

What next for easing of lockdown in England - and Sajid Javid's new job? ITV News Political Correspondent Daniel Hewitt has the details. England is "set fair" for easing lockdown restrictions on July 19, the prime minister has said, ahead of a statement by new Health Secretary Sajid Javid in the Commons on whether easing can be brought forward (ITV News Online, 28 Mehefin 2021).

Fodd bynnag, ar adegau ni chafodd Lloegr ei dangos yn amlwg yn y pennawd, fel yn yr eitem hon ar Sky News:

**Pennawd:** COVID-19: Boris Johnson set to delay lockdown easing by four weeks - as fears expressed about 'devastating' Freedom Day postponement

Boris Johnson is set to announce a delay of four weeks in lifting lockdown restrictions in England, as fears are expressed about the "devastating" impact the postponement of Freedom Day will have on businesses (…) But the delay means that despite the success of the vaccination programme so far there will only be minor adjustments to the current lockdown rules in England.

Speaking to Sky News ahead of the PM's announcement, Health Minister Edward Argar hinted that restrictions on weddings in England will be relaxed (Sky News Online, 14 Mehefin 2021).

Er bod Lloegr yn ymddangos yn yr eitem ar-lein hon, ni chafodd ei gynnwys yn y pennawd.

## Mewn eitemau cyfryngau masnachol, nid oedd cyfeiriadau clir ynghylch cael gwared ar gyfyngiadau COVID yn Lloegr

Ar draws y bwletinau newyddion teledu masnachol, gwelsom nifer o eitemau lle na chafodd penderfyniad Llywodraeth y DU ynghylch cael gwared ar gyfyngiadau yn Lloegr yn benodol ei gydnabod, neu lle trafodwyd hynny. Yn hytrach, cafwyd cyfeiriadau cyffredinol at y DU a'r Prif Weinidog. Mewn un cyfweliad ar Channel 4 gydag athro a oedd yn cynghori Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban, awgrymodd y cyflwynydd bod gan wledydd y DU bwerau gwahanol, ond nid oedd yr eitem yn egluro'r gwahanol ddulliau a ddefnyddir gan y gweinyddiaethau datganoledig. .

**Cyflwynydd:** Earlier I spoke to Professor Steve Reicher, behavioural scientist at the University of St Andrews.He has advised both the United Kingdom and Scottish Governments on their response to the coronavirus crisis. I started by asking him if he felt the 19th of July is the right moment to drop all restrictions…

Ar ôl y sgwrs agoriadol, gofynnodd y cyflwynydd gwestiwn dilynol i'r arbenigwr ac roedd y ffocws ar un Lywodraeth, sef Llywodraeth y DU yn hytrach na Llywodraeth yr Alban, a oedd hefyd yn cael gwared ar gyfyngiadau ar Orffennaf 19, ond i raddau gwahanol.

**Cyflwynydd:** But then, in your view, when would the right time be to ease restrictions?

**Arbenigwr:** It has always been true that there have been two ways, in a sense, to get out of this. One is to get immunity through vaccination and the other is to get immunity through infection. What the Government seem to be saying is infections don't really matter, therefore we don't have to wait for the vaccination, and so we can let immunity by infection take over (Channel 4 News at 7, 5 Gorffennaf 2021).

Roedd ambell eitem hefyd lle'r oedd Lloegr wedi'i henwi'n glir gan gyflwyniad cyflwynydd yn gynharach mewn bwletin, ond mewn sgyrsiau diweddarach gyda gohebwyr, ni chydnabuwyd hyn.

Edrychwch, er enghraifft, ar y cyflwyniad canlynol gan gyflwynydd ITV News lle defnyddiwyd 'we' ac 'our' wrth sôn am gynulleidfaoedd yn Lloegr, yn hytrach na gweddill y DU.

**Cyflwynydd:** Let's put some of that to [the reporter] Look, I guess what businesses wanna know, and frankly what pretty much everyone watching this programme is gonna wanna know is, you know, whenever we get to this day in mid-July which Prime Minister didn't seem to quite be able to remember halfway through his thing, but whenever it is, is that it, are we going to be able to get back to normal? Are we going to be able to travel for example, you know, in the summer afterwards, August say or not? (ITV News at Ten, 14 Mehefin 2021)

Yn yr un modd, er bod cyflwynydd newyddion ar Channel 5 wedi datgan yn flaenorol bod y cyfyngiadau a oedd yn ymwneud â Lloegr yn gynharach yn y bwletin wedi cael eu llacio, cafwyd sgyrsiau wedyn gyda gohebwyr nad oedd wedi nodi bod penderfyniad y Prif Weinidog yn berthnasol i Loegr yn unig.

**Cyflwynydd:** The Health Secretary is speaking to MPs now. We're expecting that confirmation very soon (...)

**Gohebydd:** Yes, I think it was always a very long shot that there could be any kind of early exit from restrictions on July the 5th. The Prime Minister's basically said it won't happen, that we'll have to wait till July, the 19th at the earliest. And we're expecting Sajid Javid to confirm that in his first statement as Health Secretary. But I think the other thing to bear in mind in this, the significance of Sajid Javid his appointment to that job is that within Government there's a tug of war between those who are much more on the side of saying look we have to bear down on the infections, protect the NHS and those who say yes but what about opening up the economy? Sajid Javid is perceived very much as being on the side of those who want to open up more quickly and therefore I think maybe it's shifting the centre of gravity of the argument inside the Government more towards opening up, making July the 19th or the more likely. (Channel 5 News at 5, 28 Mehefin 2021)

Gan nad wnaeth y cyflwynydd na’r gohebydd atgoffa gwylwyr o’r perthnasedd i Loegr, byddai’n hawdd tybio y gallai’r penderfyniadau ynghylch llacio cyfyngiadau fod yn berthnasol i bawb yn y DU yn hytrach na Lloegr yn unig.

Yn yr un modd, nid oedd rhai eitemau ar-lein yn cynnwys unrhyw gyfeiriad penodol, ym mhennawd na phrif gorff yr erthygl, at y ffaith bod penderfyniadau’r Prif Weinidog yn berthnasol i Loegr. Er enghraifft, mewn eitem ar ITV News ar-lein, ni soniwyd am Loegr yn y darnau agoriadol, ond roedd cyfeiriadau at NHS England a Public Health England ar y diwedd:

**Pennawd:** COVID lockdown restrictions will not end before July 19, Boris Johnson suggests

It is unlikely the easing of lockdown restrictions will come before the "terminus" date of July 19, the Prime Minister has suggested amid calls for an earlier reopening.

The lifting of coronavirus measures has been delayed from June 21 to July 19, was announced last week due to concerns over the spread of the Delta variant.

When asked if easing could be brought forward, Boris Johnson pointed to the rise of the Delta variant, which is causing an increase in hospitalisations and ICU admissions…

Four in five adults have now received their first vaccination, according to NHS England figures – with three in five having both.

Public Health England's COVID-19 director Dr Susan Hopkins said on Sunday she hoped all people over 40 could get their vaccine before the full easing of lockdown restrictions planned for July 19.

NHS England chief executive Sir Simon Stevens said: "It is fantastic to see so many young people coming forward to play their part, protecting themselves, their friends and their family – nearly nine million people in their twenties and thirties have now had their first dose" (ITV News Online, 21 Mehefin 2021).

# Astudiaeth achos 3: Adrodd am reoliadau COVID mewn ysgolion yn Lloegr

Drwy gydol mis Mehefin a mis Gorffennaf 2021, rhoddwyd sylw parhaus i newidiadau posibl i reoliadau COVID-19 mewn ysgolion yn Lloegr. Roedd y rhain yn benderfyniadau a wnaed gan Lywodraeth y DU ynghylch polisïau addysgol yn Lloegr, a oedd ar wahân i benderfyniadau a oedd yn cael eu gwneud mewn ysgolion yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Yn yr astudiaeth achos hon, rydym yn edrych ar faint o eglurder sy'n cael ei roi mewn bwletinau newyddion teledu ac ar wefannau ynghylch perthnasedd y newidiadau hyn i gynulleidfaoedd rhwydwaith. Er bod ysgolion yn yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cau ddiwedd mis Mehefin, nid yw ysgolion yng Nghymru a Lloegr yn cau ar gyfer yr haf tan ganol mis Gorffennaf. Roedd hyn yn golygu y gallai'r nifer o bobl oedd â'r feirws ar y pryd fod wedi bod yn bwnc mwy amserol mewn rhai o wledydd y DU nag eraill.

## Crynodeb o'r prif ganfyddiadau

Gellir crynhoi prif ganfyddiadau'r astudiaeth achos hon mewn tair ffordd:

- Yn gyntaf, ac eithrio rhai o eitemau Newyddion y BBC, nid oedd newyddiadurwyr yn nodi'n glir bod newidiadau i ysgolion a cholegau yn ymwneud â Lloegr yn unig ac nid Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.
- Yn ail, roedd y sylw yn aml yn cyfleu amherthnasedd eitemau drwy sôn am newidiadau addysgol a oedd yn ymwneud â Lloegr, heb sôn am wledydd eraill y DU. Weithiau, cyfeiriwyd at hyn yn aml gan gyflwynwyr, gohebwyr a mewn graffeg a/neu ar faneri ar y sgrin, ond ar adegau eraill roedd yn cael ei adael i'r cyflwynydd gyda gwybodaeth amwys weithiau mewn graffeg.
- Yn drydydd, nid oedd gan nifer o eitemau gyfeiriad daearyddol y DU o fewn yr eitem, sy'n golygu nad oedd perthnasedd i Loegr a pherthnasedd i'r gwledydd eraill yn cael ei gyfleu.

I grynhoi, ar draws y rhan fwyaf o ddarparwyr newyddion roedd llawer o'r sylw'n cyfeirio at wlad benodol yn y DU – Lloegr yn bennaf – heb egluro'r perthnasedd i ysgolion a phenderfyniadau gwleidyddol yn y tair gwlad arall.

Heb unrhyw gyfeiriad daearyddol at Loegr neu ysgolion Lloegr, mae'n bosibl bod cynulleidfaoedd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon wedi tybio bod y newidiadau yn berthnasol i'w gwledydd nhw hefyd. Unwaith eto, byddai angen gwneud rhagor o ymchwil ymysg cynulleidfaoedd i sefydlu lefelau eu dealltwriaeth o faterion polisi datganoledig yn y gwledydd, ac i edrych ar faint o gyfeirio sydd ei angen i sicrhau bod y materion hyn yn cael eu cyfleu'n glir mewn eitemau newyddion.

## Cyfeirio penodol at y gwledydd datganoledig

Roedd dwy eitem newyddion y BBC yn ein sampl astudiaethau achos a oedd yn nodi'n ymhlyg ac yn benodol bod unrhyw newidiadau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU yn ymwneud â Lloegr yn unig, a bod penderfyniadau polisi gwahanol yn cael eu gwneud yn y gwledydd datganoledig.

**England's schools** will find out later how the Government plans to relax rules that have led to large numbers of pupils being sent home if a single child has a positive COVID test.

At a Downing Street press conference on Monday, Boris Johnson confirmed he intended to scrap the laws on mask wearing and social distancing in the final stage of **England's COVID lockdown roadmap** on 19 July. The date will be confirmed on 12 July after a review of the latest data

**Scotland, Wales and Northern Ireland are in charge of their own coronavirus rules**. The **Scottish Government** has said it may continue to require masks in certain settings even after 9 August, when it is hoped the final curbs will end. Ahead of a review on 15 July in Wales, Ministers said people would need to learn to live with COVID. **Rules in Northern Ireland** have just eased, with another review due on 8 July (BBC News online, 16 Gorffennaf 2021).

**Gohebydd:** Meanwhile COVID rules are also to be relaxed in **England schools** with the present system of sending home bubbles after a positive case set to be scrapped at the end of term. After that, children will only have to isolate if they test positive. New figures show that pupil absence in **England** due to COVID has hit a new high since all students return to school in March of this year. More than 640,000 pupils in **England** were not in school due to COVID last week, although under 10% of those, 62,000, had confirmed or suspected COVID

Yn y pecyn dilynol gan ohebydd, eglurodd y gohebydd berthnasedd datganoli ar ddiwedd yr eitem:

**Gohebydd:** Changes to the COVID rules in **Scottish** and **Welsh** schools are under review. In **Northern Ireland**. Secondary pupils will continue to be offered two lateral flow tests a week. The Government hopes in September, schools in **England** will return to normality, but the dilemma of keeping schools safe whilst minimizing disruption, means there are no easy answers (BBC News at Ten, 6 Gorffennaf 2021).

Ac eithrio enghreifftiau o ddarpariaeth y BBC, nid oedd yr adroddiadau am newid rheolau COVID-19 mewn ysgolion yn Lloegr yn dangos yn glir i gynulleidfaoedd nad oedd yn berthnasol i benderfyniadau sy'n cael eu gwneud yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

## Cyfeiriadau ymhlyg at ddatganoli drwy ddweud 'yn Lloegr'

Roedd y rhan fwyaf o'r sylw a archwiliwyd ar draws pob bwletin teledu a safle newyddion ar-lein am newidiadau i ysgolion yn Lloegr yn cynnwys cyfeiriad ymhlyg at ddatganoli drwy enwi Lloegr. Mewn cwpl o eitemau, roedd Channel 5 News wedi cyfeirio'n glir at Loegr yng nghyflwyniad y cyflwynydd ac yn y pecyn dilynol gan ohebydd.

**Cyflwynydd:** One of the biggest areas left unaddressed yesterday was education. Today, the Education Secretary announced exactly what would be changing for schools in England, probably from the 19th of July…

**Gohebydd:** The mood music is changing for schools in England after so much COVID disruption. There are 426 pupils here at Hartford Manor primary, but recently 89 of them were all having to isolate at the same time. Asked those who know, like the head boy and girl, it's no fun being stuck at home (Channel 5 News at 5, 6 Gorffennaf 2021).

Roedd yr eitem uchod hefyd yn atgyfnerthu'r broses o gyfeirio at ddatganoli gyda graffeg ar y sgrin yn ystod y cyflwyniad yn nodi "COVID RULES IN ENGLAND'S SCHOOLS". "Last week 623,000 pupils missed schools. Source: Department for Education":




Roedd nifer o enghreifftiau eraill gan ITV a Channel 5 yn yr astudiaeth achos hon yn cyfeirio at Loegr gyda graffeg ar y sgrin yn atgyfnerthu'r ffaith bod rhywbeth yn berthnasol i Loegr yn unig.

Roedd graffeg ar y sgrin a oedd yn cyfeirio at ysgolion y wladwriaeth yn Lloegr hefyd weithiau'n cynnwys atgyfnerthu pellach, fel yr enghraifft hon gan ITV News at Ten:

**Baner ar y sgrin**: COVID pupil absence. Thursday 24 June 5.1% absent 375,000 pupils 336,000 self-isolation. Source: department for education England only. (ITV News at Ten, 29 Mehefin 2021)

Fel y trafodwyd yn gynharach yn Adran 8, roedd erthyglau newyddion ar-lein yn aml yn cynnwys mwy o gyfeirio na newyddion teledu. Er enghraifft, roedd eitem newyddion ar-lein gan ITV (6 Gorffennaf 2021) yn cynnwys adran o'r enw "Lockdown rules in England: *What's changing from July 19*" tuag at ddiwedd yr erthygl a oedd yn sôn am reolau Lloegr yn benodol. Roedd dolen hefyd a oedd yn gofyn y cwestiwn '*What's happening in Wales, Scotland and Northern Ireland*' er nad oedd hyn yn cael ei drafod yn benodol yng nghorff y brif eitem. Trwy glicio ar y ddolen yn ymwneud â Chymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, roedd yn datgelu adran newydd a oedd yn cyfeirio'n benodol at bwerau datganoledig.

Mewn un eitem, ni wnaeth gohebydd Sky News gysylltu'n benodol y newidiadau'n ymwneud â phenderfyniad Llywodraeth y DU ynghylch ysgolion Lloegr, ond soniodd am Loegr yn y pecyn wrth egluro faint o blant ysgol a oedd yn absennol oherwydd rheolau COVID-19.

**Gohebydd:** Quiet corridors and unused lockers. Our children continue to count the cost of this pandemic. This week, Alcester grammar school in the **West Midlands** told a third of pupils, over 300 in total, not to come in after a handful tested positive…Teachers say at least in lockdown they could plan online lessons. In some ways, this is more disruptive. This empty classroom would normally be hosting a year nine biology lesson, but the teacher is self isolating, as is the whole year of 155 students because of a mini outbreak of seven cases. Across **England** 375,000 children are not in classrooms like this because of COVID-19, and only a fraction of them actually have the virus…The Government says it will decide in the next few weeks whether to roll out this programme for the autumn term (Sky News, 29 Mehefin 2021).

Yn yr un modd, roedd un eitem ar Channel 4 yn sôn am Loegr yn y cyflwyniad ac yn y pecyn agoriadol, ond nid oedd yn egluro'r ffaith fod y gwleidyddion a oedd yn rhan ohono'n gyfrifol am benderfyniadau yn Lloegr yn bennaf:

**Cyflwynydd:** Now, as if education hadn't been disrupted enough during the pandemic, there's been another sharp increase in the number of pupils in England being sent home from school because of COVID. Ministers have suggested that the current rules, which mean whole bubbles of pupils have to self—isolate if there is one case, might be changed by the autumn. But, in the meantime, families are having to cope with yet more disruption, as our North of England correspondent…reports. (Channel 4, 29 Mehefin 2021)

Er i'r gohebydd egluro bod 375,000 yn absennol o'r ysgol yn Lloegr dros yr wythnos ddiwethaf, nid oedd y graffeg ar y sgrin yn gwneud hynny a chyfeiriodd at yr Adran Addysg.

**Graffeg**: 375,000 Children absent…130,000 more than the week before 15,000 Confirmed COVID cases 279,000 Self isolating……*Source Dept. of Education*

Mewn cyfweliad a gynhaliwyd gan Channel 4 News gydag arbenigwr iechyd, roedd y cyflwyniad yn cyfeirio'n benodol at Lywodraeth yr Alban, gan fod y gwestai'n ymgynghorydd i'r weinyddiaeth benodol honno. Er gwaethaf hyn, nid oedd y cyfweliad yn cymharu nac yn cyferbynnu'r dull gweithredu yn yr Alban â Lloegr, na'r gwledydd datganoledig eraill. Soniodd yr arbenigwr am ysgolion yr Alban yn benodol, ond daeth y cyfweliad i ben heb unrhyw ddilyniant ynghylch y gwahaniaethau rhwng penderfyniadau Llywodraethol y pedair gwlad.

## Dim cyfeirio daearyddol

Yn olaf, nid oedd nifer o eitemau a nodwyd yn yr astudiaeth achos hon yn cynnwys unrhyw gyfeiriadau daearyddol nac yn cyfeirio at ddatganoli, ac roedd enghreifftiau o hyn ar draws yr holl ddarlledwyr.

Er enghraifft, er bod yr adroddiad dilynol i'r cyflwyniad hwn (gweler isod) yn cyfeirio'n fras at Loegr wrth siarad am absenoldeb disgyblion mewn ysgolion, ni soniodd y cyflwynydd fod cyhoeddiad Llywodraeth y DU am fesurau COVID yn ymwneud ag ysgolion yn Lloegr yn unig. Cyfeiriodd sawl siart at yr Adran Addysg, ond nid at Loegr, nac unrhyw wledydd eraill. Cyfeiriodd y cyflwynydd at

ddata ar y sgrin gan yr Adran Addysg, ond ni chyfeiriodd at Loegr, tra bod baner dreigl yn ymddangos heb unrhyw gyfeiriadau daearyddol ychwaith.

**Cyflwynydd:** The Education Secretary says he's planning to relax COVID measures in schools, after it was revealed that one in 20 pupils are currently isolating. Under the existing rules students must quarantine if just one of their classmates test positive, but that has led to a dramatic rise in classes and year groups being sent home. Figures released by the Department of Education show the number of children missing school because of COVID is rising dramatically. They show that more than 375,000 pupils, about one in 20, were out of school for COVID-related reasons, up by more than 130,000 in a week.

(Sky News at Ten, 29 Mehefin 2021)

Nid oedd y faner dreigl ar y sgrin a oedd yn cyd-fynd â hi yn ystod yr eitem yn cynnwys unrhyw gyfeiriadau at Loegr chwaith.




Yn yr un modd, amlinellodd cyflwynydd Sky News rywfaint o gyd-destun cyffredinol ar gyfer plant ysgol a oedd yn hunanynysu, fel y gwnaeth gohebydd cyn dangos clip sain byr gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg. Ond ni nodwyd ar unrhyw adeg bod ei benderfyniadau yn ymwneud ag ysgolion yn Lloegr yn unig. Nid oedd y faner rholio ar y sgrin a oedd yn cyd-fynd â hi yn darparu unrhyw arwyddion daearyddol ychwaith: *"Education Secretary Gavin Williamson has announced bubbles, social distancing and mask-wearing will end in schools as part of step four of roadmap and students will only need to self-isolate if they test positive*" (Sky News at Ten, 6 Gorffennaf 2021).

**Cyflwynydd:** There were 28,000 confirmed cases of COVID 19 amongst school children last Thursday, but more than half a million were self-isolating as a result. The extent of the impact of COVID restrictions on education is one of the reasons the Government is moving to scrap school bubbles and all self-isolation for under 18s.

**Gohebydd:** Over 600,000 children are out of school due to COVID, but only 4% of them have the virus. That's why bubbles are going…

**Gavin Williamson (Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg):** Keeping children in consistent groups was essential to control the spread of the virus when our population was less vaccinated. We recognize that the system of bubbles and isolation is causing disruption to many children's education. That is why we'll be ending bubbles and transferring contact tracing to the NHS test and trace system (Sky News, 6 Gorffennaf 2021).

Yn yr un modd, mewn cyfweliad rhwng y cyflwynydd a gwestai ar newyddion Channel 4 ar 28 Mehefin 2021, cafwyd trafodaeth gyffredinol ar fesurau COVID mewn ysgolion, gan gyfeirio at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg, Gavin Williamson. Ond ni soniwyd ar unrhyw adeg yn ystod y sgwrs faith mai ef oedd yn gyfrifol am ysgolion yn Lloegr, a bod pwerau am fesurau COVID mewn ysgolion wedi'u datganoli i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Cyfeiriwyd at y wlad yng nghyflwyniad agoriadol yr eitem, ond ni eglurwyd a oedd hynny'n cyfeirio at y DU ynteu at Loegr yn benodol.

Er bod ffocws y sylw ar bolisïau ysgolion Lloegr, nid oedd cyfeiriad daearyddol at Loegr. Er mwyn i gynulleidfaoedd ddeall perthnasedd y cyfweliad ar newyddion rhwydwaith, byddai wedi bod yn ddefnyddiol cydnabod y gallai cyngor iechyd cyhoeddus fod yn wahanol ar draws pedair gwlad y DU.

Mae'r holl eitemau'n cynrychioli cyfleoedd a gollwyd i roi eglurder a chynnwys cyfeiriadau at faterion datganoledig.